# Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd




## Cam 1 – Ardal Canol y Ddinas

## Adroddiad Ymgysylltu

Ionawr 2026

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD

# Cam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas

## Adroddiad Ymgysylltu

### 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd ymgysylltiad cyhoeddus ar gynigion y Cyngor ar gyfer **Cam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas** rhwng 4 Gorffennaf ac 17 Awst 2025, i ddarparu gwybodaeth a cheisio barn ar:

- Mesurau blaenoriaeth bysus pwrpasol a gwell seilwaith bysus;
- Gwelliannau teithio llesol;
- Trefniant parhaol ar gyfer Beicffordd 2; a
- Pharthau parcio arfaethedig ar gyfer yr ardal ehangach.

Gwahoddwyd adborth cyffredinol hefyd.

Roedd y gweithgareddau canlynol yn rhan o'r ymgysylltiad i'w hyrwyddo ac i gael adborth gan y cyhoedd i lywio'r cynllun:

- Anfon llythyrau i eiddo yng nghyffiniau'r cynllun, gyda chod QR wedi'i ddarparu i ganiatáu mynediad rhwydd;
- Hysbysiadau safle yn cael eu harddangos ar y safle yng nghyffiniau'r cynllun;
- E-bost at randdeiliaid allweddol;
- Deunydd gwybodaeth ac ymgysylltu ar wefan y Cyngor;
- Arolwg ar-lein (wedi'i hysbysebu trwy wefan y Cyngor a llythyrau, a'i hyrwyddo drwy gyfryngau ar-lein trwy gyfrifon Facebook, Twitter ac Instagram corfforaethol y Cyngor yn ystod tair wythnos gyntaf y cyfnod ymgysylltu);
- Cafodd Aelodau Etholedig Lleol gyfle i hyrwyddo'r cynllun a'r arolwg yn eu hetholaethau;
- E-bostiwyd dolen i'r arolwg i aelodau o'r Panel Dinasyddion a chawsant eu hannog i roi eu barn; a
- Chyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol penodol.

Er mwyn caniatáu amser ychwanegol ar gyfer y cyfnod ymgysylltu, gan ei fod yn ystod gwyliau'r haf, cytunwyd y byddai'r cyfnod ymgysylltu yn para am 6 wythnos (sylwch mai 3 wythnos sy'n cael ei ddarparu fel arfer).

Cafodd tua **5,769 o lythyrau** eu hanfon at drigolion a busnesau yng nghyffiniau ardal y prosiect.

Derbyniwyd cyfanswm o **560 o ymatebion** drwy ddolen yr arolwg ar-lein i'r ymgysylltiad.

O'r 560 o ymatebion, mae tua 66% o'r ymatebwyr yn byw y tu allan i ardal y prosiect yng Nghaerdydd, ac mae tua 5% yn ymwelwyr â'r ardal. Mae tua 25% o'r ymatebwyr yn byw yn ardal y prosiect. Ar y sail hon, nid yw'n bosibl darparu cyfradd ymateb oherwydd natur a lleoliad y cynllun.

Derbyniwyd tua 4 e-bost ac ymholiad uniongyrchol hefyd (ac eithrio ymholiadau lluosog gan yr un unigolion). Efallai bod rhai o'r ymatebwyr hyn hefyd wedi cwblhau'r arolwg ar-lein neu wedi gweld yr hysbysiad safle yn unig.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr holl ymatebion ac adborth i'r arolwg ar-lein a gohebiaeth arall a dderbyniwyd. I gefnogi'r adroddiad ymgysylltu hwn, mae dogfen Canfyddiadau'r Adroddiad hefyd wedi'i pharatoi gan Ganolfan Ymchwil ac Ymgysylltu Caerdydd y Cyngor a oedd yn rheoli'r arolwg ar-lein. Dylid darllen yr adroddiad ymgysylltu hwn ar y cyd ag Adroddiad Canfyddiadau'r Adroddiad ar gyfer Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd (Medi 2025), sydd ar gael yn **Atodiad 1** o'r adroddiad hwn.




Darperir crynodeb o adborth yr arolwg ar-lein a gohebiaeth uniongyrchol yn yr adroddiad hwn, yn ogystal â diweddariad ar y dyluniad parhaus sy'n cael ei ddatblygu.

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i nodi fel a ganlyn:


- **Adran 2 - Crynodeb o'r arolwg ar-lein a'r sylwadau a dderbyniwyd** **Tudalen 4**
  - 2.1 Crynodeb o'r arolwg amlddewis (arolwg ar-lein) Tudalen 4
  - 2.2 Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd (arolwg ar-lein) Tudalen 6
  - 2.3 Crynodeb o ohebiaeth uniongyrchol Tudalen 7
- **Adran 3 - Ymateb y Cyngor i'r adborth a godwyd** **Tudalen 8**
  - 3.1 Ymateb i sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd Tudalen 8
- **Adran 4 - Crynodeb o'r ymgysylltiad ac argymhelliad** **Tudalen 17**
  - 4.1 Crynodeb o'r ymgysylltiad Tudalen 17
  - 4.2 Argymhelliad ar eitemau allweddol Tudalen 18
- **Adran 5 - Diweddariadau i'r dyluniad** **Tudalen 20**
- **Adran 6 - Y camau nesaf** **Tudalen 23**
- **Adran 7 – Rhestr termau** **Tudalen 23**
- **Adran 8 – Atodiadau** **Tudalen 28**
  - **Atodiad 1** – Adroddiad yr arolwg ymgysylltu ar-lein
  - **Atodiad 2** – Dyluniadau diweddaraf

## 2. Crynodeb o'r arolwg ar-lein a'r sylwadau a dderbyniwyd

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn crynhoi'r adborth a ddarparwyd gan ymatebwyr i gwestiynau amlddewis yr arolwg ar-lein ac o fathau eraill o ohebiaeth.

Rheolwyd yr arolwg ar-lein a dadansoddwyd yr allbynnau gan Ganolfan Ymchwil ac Ymgysylltu Caerdydd, a darperir y dadansoddiad llawn ac allbynnau'r arolwg ar-lein mewn adroddiad ar wahân yn **Atodiad 1**.

Dylid nodi hefyd nad yw'r ymgysylltu yn fath o refferendwm ac mae'r safbwyntiau a'r data a gasglwyd wedi cael eu defnyddio i fesur barn ac yn cael eu defnyddio i helpu i lywio dyluniad y prosiect. Nid yw bob amser yn bosibl rhagweld adborth y cyhoedd ar nodweddion penodol cynnig, y gellir eu cynrychioli yn y cwestiynau neu'r adrannau Cwestiynau Cyffredin, ac am y rheswm hwn, darperir meysydd testun agored o fewn yr arolwg ar-lein i wahodd adborth.

### 2.1. Crynodeb o'r arolwg amlddewis (arolwg ar-lein)

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu crynodeb o'r holl ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd yn yr arolwg ar-lein.

Ar ôl glanhau a dilysu'r data, cafwyd **560 o ymatebion** i'r arolwg ar-lein.

O'r rheini a ymatebodd:

- Dywedodd dros 95 % eu bod wedi darllen y pecyn ymgysylltu cyn cwblhau'r arolwg ar-lein (C1).
- Nododd dros 24 % eu bod yn drigolion lleol (C2):
- Mae tua 65 % yn byw yng Nghaerdydd, ond y tu allan i ardaloedd Plasnewydd, Cathays neu Adamsdown.
- Mae tri o bob pedwar wedi dweud eu bod yn teithio trwy'r ardal o leiaf unwaith yr wythnos (C3).
- Mae tua 42 % yn defnyddio'r llwybr ar gyfer hamdden/siopa, tra bod tua 41 % yn defnyddio'r llwybr ar gyfer teithio i'r gwaith (C4).

***Siart 1 – Pa ddull trafnidiaeth ydych chi'n ei ddefnyddio ar hyd y llwybr hwn?***

Mae **siart 1** yn dangos y pedwar dull trafnidiaeth mwyaf poblogaidd, gan ddangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn defnyddio ceir ar hyd y llwybr hwn.




Dangosir crynodeb o'r pedwar dull trafnidiaeth mwyaf poblogaidd wrth deithio ar hyd y llwybr yn **Siart 1**.

Mae crynodeb o rai o'r pynciau a'r dulliau trafnidiaeth mwy penodol fel a ganlyn:

**Teithio mewn car** - O'r rhai a nododd eu bod yn teithio mewn car, dywedodd tua 34 % ohonynt eu bod fel arfer yn aros yn yr ardal am hyd at awr, ac roedd tua 66 % yn aros am dros awr (C6). Yna gofynnwyd i'r un ymatebwyr ble y maent yn parcio yn yr ardal. Dywedodd tua 36 % eu bod yn teithio drwy'r ardal yn unig, ac mae tua 21 % yn dewis talu ac aros ar ffyrdd ger Neuadd y Ddinas (C7).

**Teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus** - Mae tua 57% o'r ymatebwyr a nododd eu bod yn teithio ar fws, yn teimlo y bydd y mesurau arfaethedig yn eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach (C8). Gofynnwyd i'r un ymatebwyr am eu barn ar ynysoedd safle bws ar bwys beicffyrdd. Roedd tua 40% o'r ymatebwyr hynny yn meddwl bod *'angen mwy o arwyddion a llinellau i dynnu sylw at y feicffordd'* ac mae tua 34% yn credu y gellid eu gwella yn gyffredinol (C9).

**Teithio ar droed** - Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr a fyddai gwella cyfleusterau i gerddwyr, megis cael gwared ar danffordd Boulevard De Nantes a'i disodli â chroesfan un-lefel, yn eu hannog i gerdded yn amlach yn yr ardal hon. Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu mewn perthynas â'r cwestiwn, gyda 28% yn ymateb y byddai'r gwelliannau hyn yn eu hannog i gerdded yn amlach yn yr ardal, ac ymatebodd 28% i'r gwrthwyneb (C10). Fodd bynnag, dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr (pump o'r wyth is-grŵp a ddadansoddwyd), y byddent yn cerdded mwy, yn hytrach na llai.

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (tua 39%) sy'n cerdded yn yr ardal (C12), o'r farn nad oeddent yn cael anawsterau ar unrhyw gyffyrdd, fodd bynnag, nododd un o bob deg eu bod yn profi anawsterau gydag o leiaf un o'r cyffyrdd a nodwyd yn y cynigion. Mae tua 59% o'r cyfranogwyr yn teimlo bod digon o groesfannau ar gael ar draws y llwybr, ac yn gyffredinol, croesfannau ag arosiadau hir oedd y pryder a godwyd amlaf (C14). Cafodd y cynnig i gau Plas Howard a Llwyn y Dwyrain i draffig trwodd, gyda chroesfan newydd i gerddwyr a beicwyr, ymateb da gyda bron i 68% o'r ymatebwyr sy'n cerdded yn ei weld fel cynnig buddiol (C15).

**Teithio ar feic** - Mae tua 78% o'r ymatebwyr sy'n beicio yn yr ardal yn teimlo y byddai newid y feicffordd i'r ochr ogleddol yn gwella eu taith (C17), gyda bron i hanner yr ymatebwyr yn dweud eu bod yn cloi eu beic i stand beiciau (stand Sheffield) ac mai dyma'r lle mwyaf tebygol y byddent yn parcio eu beic (C18). Mae tua 40% yn mynd â'u beiciau i'r swyddfa / siop / gweithle a thua 34% yn eu storio gartref. Ni ddywedodd unrhyw ymatebwyr y byddent yn gadael eu beic heb ei gloi.

Dywedodd tua 17% o feicwyr nad oedd unrhyw anawsterau ar gyffyrdd, o'i gymharu â thua 39% o gerddwyr. Fe wnaeth yr ymatebwyr hynny a roddodd adborth pellach ynghylch anawsterau ar gyffyrdd ddweud eu bod yn teimlo'n anniogel mewn perthynas â rhyngweithio â cherddwyr a rhyngweithio â cherbydau, gyda dros 30% o'r sylwadau yn ymwneud â diogelwch beicwyr. Mae tua 60% o'r ymatebwyr sy'n beicio yn teimlo nad oes digon o gyfleusterau croesi ar gael ar gyfer beicwyr ar hyd y llwybr hwn (C21), gydag ychydig dros 36% o'r ymatebwyr hynny yn cyfeirio at gysylltedd ac integreiddio llwybrau gwael a thua 26% yn nodi diffyg mynedfeydd / allanfeydd diogel a chlir i feicwyr. Mae tua 86% o feicwyr yn cefnogi cau cyffyrdd Plas Howard / Llwyn y Gorllewin â Heol Casnewydd (C22).

**Coedlan Wordsworth** - Roedd y safbwyntiau yn gymysg mewn perthynas â newid y fynedfa i Goedlan Wordsworth a Piercefield Place, gyda dros draean o'r ymatebwyr o blaid y cynigion, fodd bynnag, roedd dros ddau o bob pump ymatebydd yn gwrthwynebu'r cynigion, gan gynnwys tua 36% sy'n gwrthwynebu'r cynigion yn gryf. Gwelwyd gwahaniaeth barn sylweddol rhwng beicwyr a pherchnogion ceir ynglŷn â'r cynnig hwn gyda thua 53% o feicwyr a 30% o berchnogion ceir yn mynegi cefnogaeth, tra bod 27% o yrwyr yn eu gwrthwynebu.

**Piercefield Place** - Roedd y safbwyntiau yn gymysg mewn perthynas â chau'r gyffordd i gerbydau modur, gyda dros draean o'r ymatebwyr o blaid y cynigion, tra bod dros ddau o bob pump yn gwrthwynebu, gan gynnwys 35.8% sy'n gwrthwynebu'n gryf. Roedd tua 25% yn niwtral. Gwelwyd gwahaniaeth barn sylweddol rhwng beicwyr a pherchnogion ceir ynglŷn â'r cynnig hwn, gyda 75% o feicwyr yn mynegi cefnogaeth, tra bod llai na 21% o berchnogion ceir o blaid. Mewn perthynas â'r cwestiwn ynglŷn â gwahardd troi i'r dde i Goedlan Wordsworth, mae tua un o bob tri ymatebydd o blaid y cynigion, fodd bynnag, roedd bron i un o bob pedwar yn gwrthwynebu. Roedd tua 56% o berchnogion ceir yn gwrthwynebu cau Piercefield Place.

## 2.2. Crynodeb o'r sylwadau a dderbyniwyd (Arolwg ar-lein)

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu crynodeb o'r holl sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd yn yr arolwg ar-lein.

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u coladu a'u crynhoi. Darperir copi o'r adborth cryno hwn yn **Atodiad 1 - Atodiad L**, sy'n darparu themâu lluosog a samplau o sylwadau a dderbyniwyd. Eithriwyd adborth mynych ar yr un pwnc neu bryder er mwyn osgoi dyblygu. Mae ymateb i'r holl adborth a dderbyniwyd wedi'i baratoi gan y Cyngor yn **Adran 3.1** ac **Adran 3.2** o'r adroddiad hwn.

Gellir crynhoi'r themâu adborth fel a ganlyn, ynghyd â nifer y sylwadau a dderbyniwyd sy'n berthnasol i'r thema gryno:

| Thema sylwadau | Nifer |
|---|---|
| Sylwadau ynghylch trafnidiaeth gyhoeddus gyfredol a cheisiadau am welliannau | 42 |
| Sylwadau yn cefnogi agweddau penodol ar y cynigion | 35 |
| Sylwadau yn erbyn agweddau penodol ar y cynigion | 49 |
| Sylwadau ar wario arian cyhoeddus mewn mannau eraill | 47 |
| Sylwadau ar bryderon ynghylch tagfeydd | 32 |
| Sylwadau ar bryderon diogelwch | 30 |
| Sylwadau ac awgrymiadau ynghylch y cynigion | 28 |
| Pryderon ynghylch seilwaith anghyfleus ar gyfer cerbydau preifat / annog i beidio â defnyddio ceir | 24 |
| Sylwadau ar ymddygiad beicwyr a'r angen am reoliadau beicio | 24 |
| Sylwadau negyddol ynglŷn â'r Cyngor | 23 |
| Sylwadau ar seilwaith a defnydd lonydd beicio | 23 |
| Pryderon am yr effaith economaidd | 15 |
| Pryderon ynglŷn â dyluniad yr ardaloedd defnydd a rennir o amgylch safleoedd bws | 7 |
| Pryderon am gynnydd mewn llygredd | 6 |
| Sylwadau ynglŷn â'r rhwydwaith ffyrdd presennol, seilwaith a diffyg safleoedd parcio a theithio. | Dd/B |

### 2.3. Crynodeb o ohebiaeth uniongyrchol

Mae'r sylwadau a dderbyniwyd o ohebiaeth ysgrifenedig wedi'u coladu a'u crynhoi. Darperir copi o'r adborth cryno hwn yn **Atodiad 1 - Atodiad M.** Eithriwyd adborth mynych ar yr un pwnc neu bryder er mwyn osgoi dyblygu. Mae ymateb wedi'i baratoi gan y Cyngor yn **Adran 3.1** ac **Adran 3.2** o'r adroddiad hwn.

Gellir crynhoi'r adborth fel a ganlyn:

- Sylwadau ar yr angen i ymestyn ardal y cynllun i gynnwys Plas Windsor i gyd, i gyfeirio beicwyr i fannau parcio beiciau oddi ar Heol y Frenhines a chaffi Bike Lock;
- Sylwadau sy'n cefnogi ynysoedd safle bws i osgoi gwrthdaro rhwng beiciau/cerddwyr yn hytrach nag arwynebau a rennir;
- Ceisiadau i sicrhau bod dyddiadau camau'r prosiect ar gael, mewn perthynas ag adeiladu a chwblhau;
- Sylwadau ar y pwyslais ar fanteision iechyd teithio llesol;
- Sylwadau ar dagfeydd o amgylch y meysydd parcio yng nghanol y ddinas;
- Ymholiad am gynllun cyfathrebu'r Cyngor a chwestiynau am gymorth sydd ar gael i fusnesau lleol i sicrhau mynediad i ganol y ddinas heb darfu sylweddol;
- Ymholiad am y cyfraddau llif sydd ar gael, niferoedd capasiti ac amseroedd teithio ar gyfer yr ardal, cyn ac ar ôl i'r gwaith arfaethedig gael ei gyflawni.
- Ymholiad am dystiolaeth o newid moddol i feicio a thystiolaeth o gefnogaeth y cyhoedd.
- Cwestiynau ar brosiectau storio beiciau pellach yn y ddinas.
- Cwestiynau ar oblygiadau cau'r danffordd a chyflwyno croesfan un-lefel, o ran oedi i gerddwyr a cherbydau.

# 3. Ymateb y Cyngor i'r adborth a godwyd

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu ymateb y Cyngor i'r adborth ysgrifenedig a gafwyd fel rhan o'r ymgysylltiad.

Dylid nodi bod yr holl adborth, gan gynnwys yr holl ddata crai a chryno wedi'i adolygu ac ymateb wedi'i ddarparu i bwyntiau perthnasol sydd angen ymateb. Eithriwyd adborth mynych ar yr un pwnc neu bryder er mwyn osgoi dyblygu.

## 3.1. Ymateb i sylwadau cyffredinol a dderbyniwyd

### Gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus a dylunio safleoedd bws

**Gwelliannau presennol i drafnidiaeth gyhoeddus a seilwaith:** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod pob safle bws yn ddiogel, yn hygyrch ac yn hawdd i'w ddefnyddio i bawb, gan gynnwys pobl hŷn, defnyddwyr cadair olwyn, pobl ag amhariad ar eu golwg, rhieni âphramiau a'r rhai ag anawsterau symudedd.

Bydd y cynllun yn canolbwyntio ar uwchraddio seilwaith ffisegol lle bo hynny'n bosibl, megis:

- cyrbiau uwch mewn safleoedd bws i ganiatáu mynediad gwastad;
- llwybrau clir heb rwystrau i safleoedd bws;
- cysgodfannau hygyrch gyda goleuadau, seddi a lle i gadeiriau olwyn droi;
- cysgodfannau gwyrdd; a
- gwybodaeth amser real am deithiau.

Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i goladu gwybodaeth i lywio'r cynllun. Megis yr ymgysylltiad sydd wedi'i gynnal, yr adborth a gafwyd ac o gyswllt â grwpiau hygyrchedd. Rydym hefyd yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o osod y seilwaith dros dro a weithredwyd yn ystod pandemig Covid-19.

Bydd y rhan fwyaf o'r seilwaith yn cael ei uwchraddio i fesurau parhaol, er mewn dull graddol a chan gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd a chanlyniad gwaith helaeth ar opsiynau ac o'n gwaith modelu.

Mae rhai o'r newidiadau i'r seilwaith bysus yn cynnwys:

- ***Ardal Ffordd y Brenin:*** Bydd ardal Ffordd y Brenin yn gweld newid sylweddol. Bydd rhywfaint o hyn yn cael ei wneud fel rhan o welliannau i Stryd y Castell yng nghyffiniau Gwesty'r Hilton, sydd y tu allan i gwmpas y cynllun hwn.

- ***Ardal gyhoeddus Ffordd y Brenin:*** Bydd yr ardal o flaen Rhif Un Ffordd y Brenin (i'r dwyrain o Erddi'r Brodordy) yn cael ei chau i draffig cerbydau trwodd, fodd bynnag, bydd mynediad yn cael ei wella i'r safle bws i ochr orllewinol Gerddi'r Brodordy. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu ynghylch y gofod hwn ar wahân unwaith y bydd cynlluniau ar gael.

- ***Plas Dumfries (ochr orllewinol):*** Rydym yn cydnabod bod angen diweddaru ychydig o'r seilwaith a weithredwyd yn ystod pandemig Covid-19, fel rhan o fesurau dros dro. Rydym wedi ystyried yr adborth a dderbyniwyd ac wedi cysylltu â'n rhanddeiliaid allweddol fel rhan o ddull gwersi a ddysgwyd i lywio'r cynigion sy'n cael eu datblygu ar gyfer y cynllun. Un o'r prif bryderon a nodwyd oedd y rhyngweithio rhwng teithwyr bws mewn safleoedd bws yn cyrchu gwasanaethau bws, lle mae'r feicffordd dros dro yn croesi. O ganlyniad i'r feicffordd yn cael ei hadleoli i'r ochr arall i'r ffordd, bydd y safleoedd bws ar hyd ochr orllewinol Plas Dumfries yn cael eu dychwelyd i safleoedd safonol gyda chyrbiau uwch a chysgodfannau. Rydym hefyd yn adolygu maint y lôn fysus a sut mae traffig yn rhyngweithio â'r lonydd bysus. O ran rhyngweithio traffig, dylid nodi bod Rheol 183 o Reolau'r Ffordd Fawr yn nodi bod yn rhaid i chi ildio i gerbydau sy'n defnyddio lôn fysus wrth droi o'r naill gyfeiriad neu'r llall.

- ***Plas Dumfries (ochr ddwyreiniol):*** Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu cyflwyno un safle ar Blas Dumfries ar yr ochr ddwyreiniol. Bydd y safle hwn yn hygyrch gyda chwrb uwch. Rydym yn adolygu sut y gellid cyflwyno hyn ochr yn ochr â'r feicffordd arfaethedig a byddwn yn cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd a'r canllawiau diweddaraf fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r dyluniad.

- ***Heol Casnewydd (ochr ddeheuol rhwng Heol Fitzalan a Phlas Fitzalan):*** O ganlyniad i'r feicffordd yn cael ei hadleoli i'r ochr arall i'r ffordd, bydd y safleoedd bws ar hyd ochr ddeheuol Heol Casnewydd rhwng Rhodfa'r Orsaf a Phlas Fitzalan yn cael eu dychwelyd i safleoedd safonol gyda chyrbiau uwch.

- ***Heol Casnewydd (y tu hwnt i Llwyn y Gorllewin):*** Gan mai dim ond Cam 1A yr ydym yn datblygu ar hyn o bryd, byddwn yn adolygu pob safle i'r dwyrain o Llwyn y Gorllewin pan fyddwn yn datblygu Cam 1B yn y dyfodol. Ar y sail hon, bydd y seilwaith i'r dwyrain

o Llwyn y Gorllewin yn aros fel y mae nes i ni ddychwelyd i ddatblygu a gweithredu Cam 1B.

**Ardaloedd defnydd a rennir o amgylch safleoedd bws:** Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd lleihau gwrthdaro posibl rhwng beicwyr a cherddwyr mewn safleoedd bws.

Fel rhan o ddull gwersi a ddysgwyd, lle mae angen cyflwyno safle bws ger beicffordd ddwyochrog, bydd pob lleoliad yn cael ei ystyried ar sail safle wrth safle ac adolygiad o amodau'r safle a'r gofod sydd ar gael ar y briffordd.

Yr ystyriaeth gyntaf fydd mynd i'r afael â'r pryderon trwy ymgorffori dyluniadau ffordd osgoi bysus yn hytrach nag arwynebau a rennir lle bynnag y bo modd. Bydd y ffyrdd osgoi hyn yn darparu llwybr clir, ar wahân i feicwyr y tu ôl i'r safle bws, gan sicrhau bod gan deithwyr sy'n mynd ar fysus ac yn dod oddi arnynt fynediad diogel. Byddwn hefyd yn adolygu lle mae'r teithwyr yn debygol o adael neu giwio i osgoi ciwio dros y feicffordd sydd wedi bod yn broblem mewn rhai lleoliadau. Byddwn hefyd yn ystyried cymhwyso rhai o'r nodweddion a ddatblygwyd fel rhan o ymgysylltiad blaenorol megis marciau igam-ogam a bolardiau arddull goleuadau croesi – nodweddion sydd fel arfer wedi'u hepgor o groesfannau sebra ar ddyluniadau beicffyrdd.

Mae hygyrchedd yn flaenoriaeth allweddol. Bydd pob dyluniad ffordd osgoi yn cydymffurfio â safonau dylunio cynhwysol, gan ddarparu nodweddion fel palmentydd botymog, arwyddion clir, a lle digonol i ddefnyddwyr cadair olwyn, rhieni â phramiau, a'r rhai sydd ag amhariad symudedd. Bydd y Cyngor hefyd yn ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr, gan gynnwys sefydliadau hygyrchedd, grwpiau beicio, a rhanddeiliaid trafnidiaeth gyhoeddus, i sicrhau bod y dyluniadau yn diwallu anghenion yr holl ddefnyddwyr ac yn ceisio mynd i'r afael ag unrhyw bryderon a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu.

Nod y dull hwn yw cydbwyso diogelwch, hygyrchedd ac ymarferoldeb, wrth gefnogi'r amcanion ehangach o annog teithio llesol a thrafnidiaeth gynaliadwy.

## Pryderon ynghylch agweddau penodol ar y cynigion

**Mynedfa i Heol y Brodyr Llwydion, a fydd trigolion yn gallu defnyddio'r fynedfa hon?** Fel trigolion, ni fydd ymwelwyr a busnesau yn gallu cael mynediad i Heol y Brodyr Llwydion trwy Boulevard De Nantes a rhan ogleddol Ffordd y Brenin. Er mwyn mynd i'r afael â cholli'r fynedfa o Boulevard De Nantes, bydd y troad i'r chwith presennol o Heol y Gogledd i ran ddeheuol Ffordd y Brenin (sy'n arwain i Heol y Brodyr Llwydion) yn cael ei agor i draffig cyffredinol.



Cynllun enghreifftiol sy'n dangos y llwybr dargyfeirio traffig i Heol y Brodyr Llwydion

Ffigur 1

Er mwyn galluogi mynediad, bydd y gât fysus yn cael ei thynnu ar gyfer troi i'r chwith tua'r de. Yn unol â'r trefniant presennol, ni fyddai traffig cyffredinol yn gallu troi i'r dde o Heol y Gogledd (tua'r gogledd), a fyddai'n golygu y byddai angen llwybr amgen i droi i'r chwith tua'r de. Ni fyddai traffig cyffredinol yn gallu gadael o Heol y Brodyr Llwydion / Ffordd y Brenin i Heol y Gogledd gyferbyn â'r Castell. Gweler **Ffigur 1**.

**Plas Windsor – mae angen cyfarwyddiadau clir a seilwaith i feicwyr i gael mynediad i ganol y ddinas o'r gogledd yn y lleoliad hwn:** Mae hyn y tu allan i gwmpas y cynllun, ond rydym yn ymwybodol o'r mater hwn a byddwn yn ystyried datblygu ateb ar wahân.

**Anodd iawn troi i'r chwith i Blas y Parc ar gyfer beicwyr:** Er ein bod yn ceisio darparu ar gyfer symudiadau troi i feicwyr lle bynnag y bo modd, nid yw bob amser yn ymarferol oherwydd cyfyngiadau capasiti cyffordd neu ffisegol ar gyffyrdd penodol. Yn yr achosion hyn, mae llwybrau amgen ar gael yn aml sy'n darparu mynediad i'r cyrchfannau. Mae'r dyluniad arfaethedig yn ceisio gwella cysylltedd a diogelwch cyffredinol, ond mae rhai cyfyngiadau yn parhau lle mae gofod a seilwaith presennol yn cyfyngu newidiadau. Wrth i'r rhwydwaith ehangu dros amser, byddwn yn parhau i adolygu llwybrau a nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach i wella integreiddio cyffredinol.

Ar gyfer Plas y Parc, bydd modd troi i'r gogledd i Blas y Parc, ond i gyrraedd Plas y Parc i'r de, byddai llwybrau amgen ar gael ar hyd Ffordd y Brenin a Heol y Brodyr Llwydion.

**Gwrthwynebiad i lenwi'r isffordd ac achosi oedi i gerddwyr trwy wneud iddynt groesi'r ffordd ac aros am oleuadau traffig:** Rydym yn deall y pryderon a godwyd ynglŷn â chael gwared ar yr isffordd (a elwir hefyd yn danffordd) a chyflwyno croesfan un-lefel (ar lefel y ffordd). Fodd bynnag, nid yw'r danffordd bresennol yn bodloni'r safonau hygyrchedd cyfredol, yn enwedig ar gyfer pobl ag amhariad symudedd, rhieni â phramiau, a'r rhai ag anawsterau o ran y golwg. Mae egwyddorion dylunio modern yn blaenoriaethu llwybrau cynhwysol, wedi'u goleuo'n dda ac yn hawdd eu llywio ar lefel y stryd.

Bydd disodli'r danffordd gyda chroesfan un-lefel yn darparu sawl budd, gan gynnwys gwell hygyrchedd, gwell diogelwch trwy wella gwelededd, ac ardal gyhoeddus fwy dymunol sy'n annog teithio llesol. Er y gall croesfannau a reolir gan oleuadau gyflwyno arhosiad byr, maent yn darparu datrysiad mwy diogel a mwy teg i bob defnyddiwr o'i gymharu â threfniant y danffordd sydd wedi dyddio.

**Cau Piercefield Place:** Rydym wedi adolygu'r adborth a ddarparwyd ac rydym yn ystyried yr ystyriaethau hyn fel rhan o'r ymarfer modelu traffig parhaus. Mae'r gwaith modelu hwn yn cwmpasu'r ardal ehangach ac yn cynnwys asesu mesurau lliniaru posibl i leihau unrhyw effeithiau andwyol. Mae'r opsiynau sy'n cael eu hadolygu yn cynnwys gwneud Piercefield Place yn allanfa yn unig yn ogystal â'r posibilrwydd o'i chau'n gyfan gwbl.

Rydym yn cydnabod y pryderon ynghylch dadleoli traffig posibl ar ffyrdd preswyl cyfagos. Mae'r mater hwn yn cael ei ystyried yn weithredol o fewn y broses fodelu i ddeall effaith unrhyw dagfeydd anfwriadol neu faterion diogelwch mewn mannau eraill yn y rhwydwaith.

Mewn perthynas ag ailgyfeirio gwasanaethau brys, fel rhan o'n proses ymgysylltu, byddwn yn parhau i gysylltu â Heddlu De Cymru a gwasanaethau brys eraill ynglŷn â'r cynigion a byddwn yn adolygu unrhyw bryderon a godwyd. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw bryderon wedi'u hadrodd gan y gwasanaethau brys.

Rydym yn cydnabod y pryder ynghylch y lefel ganfyddedig o weithgarwch beicio. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn rhan o strategaeth ehangach Caerdydd i gyflawni mesurau trafnidiaeth gynaliadwy, fel y nodir ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth a Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor. Mae'r strategaethau hyn yn ceisio annog newid moddol o ddefnyddio ceir preifat i ddulliau teithio mwy cynaliadwy, gan gynnwys cerdded, beicio, a thrafnidiaeth gyhoeddus.

Mae creu llwybrau diogel, cysylltiedig a deniadol yn hanfodol i alluogi ac annog mwy o bobl i ddewis beicio fel dewis amgen hyfyw i deithio mewn car. Mae'r cynigion hyn felly yn cynrychioli

dull rhagweithiol o ddiogelu'r rhwydwaith trafnidiaeth at y dyfodol a darparu buddion hirdymor i'r ddinas.

**Newidiadau i Oxford Lane a Choedlan Wordsworth:** Mae'r awgrym o newid Oxford Lane i stryd ddwy ffordd wedi'i ddiystyru. Er y byddem wedi edrych ar ffyrdd o gyfyngu mynediad i atal problemau o ran traffig trwodd, mae pryder y byddai'r cynnydd mewn traffig sy'n troi i'r dde o Heol y Plwca i Oxford Lane yn effeithio ar draffig tua'r gogledd ar Heol y Plwca.

Mae'r Cyngor yn bwriadu gwahardd troi i'r dde o Heol Casnewydd i Goedlan Wordsworth fel rhan o gynllun Cam 1B. Mae'r mesur hwn yn mynd i'r afael â phryderon diogelwch a godwyd yn flaenorol am y risgiau a achosir gan gerbydau sy'n troi ar y gyffordd ac yn gwneud troeon U. Mae'r cynnig hefyd yn mynd i'r afael â phryderon diogelwch a achosir gan gerbydau sy'n troi i'r dde ar draws llwybr traffig prysur.

Mae'r rhesymeg dros y cynnig yn seiliedig ar y mater bod y trefniant presennol yn ei gwneud yn ofynnol i yrwyr groesi sawl lôn o draffig er mwyn troi i'r dde, gan achosi gwrthdaro â cherddwyr a beicwyr. Wrth gyflwyno lonydd bysus a beicffordd barhaol, bydd y risgiau hyn yn cynyddu. Bydd newid i gyfluniad chwith i mewn, chwith allan yn cyflawni'r canlynol:

- Gwella diogelwch a rhagweladwyedd i holl ddefnyddwyr y ffordd.
- Lleihau symudiadau peryglus fel troeon U a newid lôn yn sydyn.
- Hwyluso croesfan fwy diogel i gerddwyr a beicwyr.

Yn ôl yr arolwg ar-lein, mynegodd tua thraean o'r ymatebwyr ffafriaeth i gadw'r troad i'r dde. Er bod y Cyngor yn cydnabod y gallai hyn achosi anghyfleustra i rai trigolion a busnesau, diogelwch yw'r brif flaenoriaeth o hyd. Bydd adborth yn parhau i gael ei adolygu, ac mae mesurau lliniaru amgen neu ategol yn cael eu hystyried.

**Gohebiaeth a dyddiadau'r prosiect:** Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd y Cyngor yn cyfathrebu â busnesau a'r cyhoedd trwy gyfuniad o sianeli rhagweithiol a hygyrch. Fel arfer, mae hyn yn cynnwys hysbysiadau ymlaen llaw trwy lythyrau gan y Contractwr penodedig, diweddariadau ar wefan y Contractwyr a'r Cyngor, a phostiadau rheolaidd ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Bydd arwyddion clir yn cael eu gosod ar y safle i hysbysu am wyriadau a threfniadau mynediad. Lle bo'n berthnasol neu'n angenrheidiol, ar gyfer busnesau, bydd ymgysylltu uniongyrchol yn digwydd er mwyn trafod anghenion mynediad penodol a lleihau tarfu, a darperir pwyntiau cyswllt pwrpasol ar gyfer ymholiadau. Y nod yw sicrhau gohebiaeth amserol, dryloyw fel y gall trigolion, ymwelwyr a busnesau gynllunio ymlaen llaw a pharhau i fod â mynediad i ganol y ddinas.

## Dyrannu gwariant arian cyhoeddus

**Sut mae'r Cyngor yn penderfynu ble bydd yr arian cyhoeddus yn cael ei wario:** Mae cynghorau lleol yn dyrannu cyllid yn seiliedig ar rwymedigaethau statudol, blaenoriaethau strategol, ac anghenion cymunedol. Mae penderfyniadau yn cael eu harwain gan gynlluniau hirdymor, megis strategaethau trafnidiaeth a chynaliadwyedd, ac yn cael eu llywio gan ymgysylltu â'r cyhoedd, asesiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ac ystyriaethau gwerth am arian. Mae hyn yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu cyfeirio at brosiectau sy'n darparu'r budd mwyaf ar gyfer hygyrchedd, diogelwch a theithio cynaliadwy, wrth gydbwyso'r cyllidebau sydd ar gael a'r ffynonellau cyllido.

Mae'r prosiect hwn yn cael ei ariannu gan gyllid Llywodraeth Cymru a'r Cyngor a fydd yn cynnwys ei gyllidebau ei hun ac unrhyw gyllid cyfraniad datblygwyr Adran 106 sydd ar gael.

## Pryderon ynghylch tagfeydd

**Mae'r rhwydwaith ffyrdd presennol yn profi tagfeydd a bydd y cynigion hynny'n ychwanegu ato:** Rydym yn cydnabod y bydd yn bwysig lleihau'r effaith ar ymwelwyr â chanol y ddinas yn ystod y cyfnod adeiladu, yn enwedig pan fydd digwyddiadau neu ar ddiwrnodau siopa prysur.

Fel rhan o ddatblygiad y cynllun, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn adolygu'r trefniadau arwyddion parhaol ac yn archwilio cyflwyno Arwyddion Negeseuon Amrywiol (VMS) integredig i ddarparu gwybodaeth amser real ar argaeledd parcio a gwyriadau sy'n gysylltiedig â digwyddiadau. Bydd y VMS hyn yn helpu i wella cyfeirio a lleihau tagfeydd yn ystod cyfnodau prysur. Yn ogystal, rydym yn gweithio i wella gohebiaeth ar gyfer rheoli digwyddiadau yn ystod y cam adeiladu, gan sicrhau bod busnesau a'r cyhoedd yn derbyn diweddariadau amserol trwy sawl sianel, gan gynnwys arwyddion ar y safle, llwyfannau digidol, ac ymgysylltu uniongyrchol lle bo angen.

Mae'r gwaith modelu sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer coridor Heol Casnewydd yn dal i fynd rhagddo. Mae'r gwaith hwn yn ystyried y gwahanol gamau yr ydym yn eu datblygu ar hyn o bryd a'i nod yw rhoi mwy o flaenoriaeth i ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth dros geir preifat a rheoli'r rhwydwaith priffyrdd yn unol â hynny. Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r gwaith pontio i gerbydau allyriadau is, teithio llesol a mesurau trafnidiaeth gyhoeddus.

Bydd cynllun Heol Casnewydd yn cynnwys mesurau blaenoriaeth i deithio llesol a bysus, ond rydym hefyd yn ceisio lleihau effaith traffig a gwella ansawdd aer. Bydd cyflwyno'r cynlluniau coridor trafnidiaeth gynaliadwy strategol, sydd â'r nod o annog newid moddol, a hefyd gyda phrosiectau strategol eraill fel y gorsafoedd rheilffordd newydd, yn golygu y bydd gan bobl fwy o ddewis ar sut maent yn cael mynediad i'r ddinas a'i gwasanaethau. Bydd y newidiadau hyn yn mynd i'r afael â maint y traffig trwodd sy'n gyfystyr â chyfran sylweddol o draffig yn ardal canol y ddinas.

Rydym hefyd yn cydnabod y bydd y nodau trawsnewidiol yn cymryd amser, ond byddwn hefyd yn datblygu mentrau eraill fel rhan o'r cynlluniau sy'n cael eu datblygu, megis gwell arwyddion gwybodaeth amser real, arwyddion cyfeirio a gohebiaeth â'n rhanddeiliaid yn ystod y camau adeiladu ac fel rhan o'r gwaith parhaus o reoli digwyddiadau ledled y ddinas.

**Pryderon ynghylch tagfeydd a chynnydd mewn llygredd:** Mae nifer o arolygon traffig eisoes wedi'u cynnal i lywio'r gwaith modelu traffig lefel rhwydwaith a lleol sy'n cael ei gynnal i lywio datblygiad y cynllun. Mae'r gwaith hwn yn barhaus. Bydd arolygon ar ôl gweithredu yn cael eu cynnal fel rhan o fonitro'r cynllun, yn ogystal ag i ddiweddaru'r gwaith modelu ar gyfer camau nesaf y cynllun ar hyd coridor Heol Casnewydd.

Mae coridorau trafnidiaeth gynaliadwy wedi'u cynllunio i ddarparu opsiynau teithio mwy aml-foddol, fel bysus, beicio, a cherdded sy'n lleihau dibyniaeth ar geir. Mae hyn yn arwain at lai o allyriadau $CO_2$ a llygryddion eraill fel ocsidau nitrogen ($NA_x$) a deunydd gronynnol. Mae ymgorffori lonydd beiciau pwrpasol, llwybrau estynedig i gerddwyr, a gwyrddni, nid yn unig yn dargyfeirio traffig cerbydau modur, ond hefyd yn helpu i wella ansawdd aer a lleihau allyriadau carbon.

## Pryderon diogelwch

**Ymateb i bryderon a nodwyd -** Rydym wedi ymrwymo i sicrhau diogelwch a hygyrchedd i holl ddefnyddwyr y ffordd. Bydd pob pryder yn cael ei fonitro'n ofalus, a bydd y gwersi a ddysgwyd yn llywio unrhyw addasiadau angenrheidiol:

- **Risgiau dargyfeirio traffig** - Bydd traffig ar strydoedd preswyl cyfagos yn cael ei fonitro i nodi unrhyw newidiadau. Os bydd risgiau i ddefnyddwyr agored i niwed yn cynyddu, bydd mesurau rheoli traffig pellach yn cael eu hystyried i leihau'r effaith. Dros amser, wrth i'r newid moddol tuag at drafnidiaeth gynaliadwy ddigwydd ac wrth i well opsiynau teithio ddod ar gael, disgwylir i'r pryderon hyn leihau, gan greu rhwydwaith mwy diogel a chytbwys i bob defnyddiwr.
- **Cynnig dwyffordd Oxford Lane** - Mae'r awgrym o newid Oxford Lane i stryd ddwy ffordd wedi'i ddiystyru.
- **Cysylltedd beicffyrdd** - Er ein bod yn ymdrechu i wella cysylltedd lle bynnag y bo modd, mae cyfyngiadau ffisegol, capasiti cyffyrdd, ac ystyriaethau diogelwch yn golygu nad yw bob amser yn ymarferol darparu cysylltiadau uniongyrchol ym mhob lleoliad. Wrth i'r rhwydwaith ehangu dros amser, byddwn yn parhau i adolygu llwybrau a nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach i wella integreiddio cyffredinol.
- **Pryderon beicffordd Heol Lydan** – Fel rhan o ddatblygiad Cam 2, bydd goleuadau a diogelwch personol yn cael eu hystyried. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phryderon lle bo hynny'n briodol. Wrth i'r defnydd gynyddu, gan gynnwys gwasanaethau bws wedi'u dargyfeirio i Heol Lydan, bydd mwy o wyliadwriaeth naturiol, a fydd yn helpu i wella diogelwch a hyder defnyddwyr dros amser.
- **Materion dylunio cyffordd** - Yn anffodus, mewn canol dinas brysur, mae galw sylweddol gan bob dull o drafnidiaeth a defnyddwyr. Er y bydd amseroedd goleuadau ac amseroedd aros beicwyr yn cael eu gwerthuso i wella cydymffurfiaeth a lleihau oedi, ystyrir addasiadau fel synhwyro gwell a chyfnodau goleuadau wedi'u hoptimeiddio i gydbwyso anghenion cerddwyr, beicwyr, trafnidiaeth gyhoeddus, a thraffig cyffredinol.
- **Cael gwared ar y danffordd** - Mae'r danffordd bresennol yn cynnwys llwybr beicio ar wahân nad yw'n briodol oherwydd cyfyngiadau galw a gwelededd i gerddwyr. Nid yw'n bodloni'r safonau hygyrchedd cyfredol chwaith, yn enwedig ar gyfer pobl ag amhariad symudedd, rhieni â phramiau, a'r rhai ag anawsterau o ran y golwg. Mae egwyddorion dylunio modern yn blaenoriaethu llwybrau cynhwysol, wedi'u goleuo'n dda ac yn hawdd eu llywio ar lefel y stryd, y mae'r cynnig yn eu cyflawni. Hefyd, mae sawl budd, gan gynnwys gwell hygyrchedd, gwell diogelwch trwy wella gwelededd, ac ardal gyhoeddus fwy dymunol sy'n annog teithio llesol. Er y gall croesfannau a reolir gan oleuadau gyflwyno arhosiad byr, maent yn darparu datrysiad mwy diogel a mwy teg i bob defnyddiwr o'i gymharu â threfniant presennol y danffordd sydd wedi dyddio.
- **Pryder o ran diogelwch cerddwyr** - Mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â phryderon diogelwch a materion ymddygiad beicio gwrthgymdeithasol cysylltiedig, gan gynnwys defnyddio e-feiciau modur heb drwydded. Mae mesurau gorfodi yn cael eu cryfhau, ac mae ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ar y gweill i hyrwyddo ymddygiad cyfrifol. Mae'r ymgyrchoedd hyn yn cynnwys mentrau wedi'u targedu mewn ysgolion i addysgu pobl ifanc am ddiogelwch a chydymffurfiaeth yn ogystal ag atafaelu cerbydau o'r fath.
- **Lleoliad lonydd beiciau** - Rydym yn cymhwyso gwersi a ddysgwyd o gynlluniau blaenorol a byddwn yn parhau i gysylltu â grwpiau hygyrchedd, gan gynnwys y rhai sy'n cynrychioli pobl ag amhariad ar eu golwg, i sicrhau bod dyluniadau yn bodloni safonau cynhwysol. Bydd rhyngweithiadau yn cael eu monitro mewn safleoedd bws, a byddwn yn gweithio'n agos gyda gweithredwyr i gynnal diogelwch teithwyr. Lle bo angen, ystyrir mesurau mireinio dyluniadau fel marciau cliriach neu gynlluniau amgen.

## Sylwadau ac awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y cynigion

**Pwyntiau cyswllt beicio:** Rydym yn cydnabod yr adborth a godwyd ynglŷn â'r diffyg cysylltiadau cyfleus rhwng y feicffordd a'r llwybrau cyfagos neu lwybrau beicio eraill. Er ein bod yn ceisio ystyried yr holl bwyntiau cyswllt posibl a gwella integreiddio rhwydwaith cyffredinol, nid yw bob amser yn ymarferol darparu cysylltiadau uniongyrchol ym mhob lleoliad oherwydd cyfyngiadau ffisegol, capasiti cyffyrdd, ac ystyriaethau diogelwch.

Mae'r dyluniad arfaethedig yn ceisio gwella cysylltedd lle bynnag y bo modd o fewn y gofod sydd ar gael ac yn unol â'r safonau dylunio cyfredol. Lle na ellir darparu cysylltiadau uniongyrchol, rydym yn edrych i weld a oes llwybrau amgen ar gael i gynnal mynediad i gyrchfannau allweddol.

Bydd rhai cysylltiadau yn cael eu gwella megis cysylltiadau Heol y Gogledd â Pharc Bute, cyswllt beicffordd a rennir Heol y Gogledd a Boulevard De Nantes i Ffordd y Brenin. Wrth gwrs, byddwn yn edrych i weld a allwn nodi unrhyw gyfleoedd ar gyfer gwelliannau pellach, gan gynnwys cyfeirio i wella cysylltedd.

## Annog pobl i beidio â defnyddio ceir

**Cyfyngiadau ar gyfer cerbydau preifat o ran symud a diffyg lonydd traffig:** Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch rhoi llai o flaenoriaeth i gerbydau preifat a'r diffyg lonydd traffig. Er y gall ychwanegu lonydd traffig ychwanegol ymddangos fel ateb i dagfeydd, mae tystiolaeth o gynllunio trafnidiaeth a modelu traffig yn dangos bod cynyddu capasiti ffyrdd yn aml yn arwain at ysgogi galw, lle mae mwy o lonydd yn annog defnydd ychwanegol o geir yn hytrach na lleihau tagfeydd yn hirdymor. Nid yw'r dull hwn yn cyd-fynd ag amcanion strategol Caerdydd ar gyfer trafnidiaeth gynaliadwy a gwell ansawdd aer.

Mae'r gwaith modelu sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar gyfer coridor Heol Casnewydd yn dal i fynd rhagddo. Mae'r gwaith hwn yn ystyried y gwahanol gamau yr ydym yn eu datblygu ar hyn o bryd a'i nod yw rhoi mwy o flaenoriaeth i ddulliau mwy cynaliadwy o drafnidiaeth dros geir preifat a rheoli'r rhwydwaith priffyrdd yn unol â hynny. Mae Papur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd yn rhoi rhagor o wybodaeth am y gwaith sy'n cael ei wneud mewn perthynas â'r gwaith pontio i gerbydau allyriadau is, teithio llesol a mesurau trafnidiaeth gyhoeddus.

Bydd cynllun Heol Casnewydd yn cynnwys mesurau blaenoriaeth i deithio llesol a bysus, ond rydym hefyd yn ceisio lleihau effaith traffig a gwella ansawdd aer. Mae cyflwyno cynlluniau coridor trafnidiaeth gynaliadwy strategol yn ceisio annog newid moddol, a hefyd gyda phrosiectau strategol eraill fel y gorsafoedd rheilffordd newydd, yn rhoi mwy o ddewis i bobl ar sut maent yn cael mynediad i'r ddinas a'i gwasanaethau, yn ogystal â mynd i'r afael â maint y traffig trwodd sy'n gyfystyr â chyfran sylweddol o draffig yn ardal canol y ddinas.

**Diffyg dewisiadau amgen da fel parcio a theithio a dim rhwydweithiau teithio llesol cyflawn**: Mae nifer o safleoedd Parcio a Theithio ar gael fel rhan o rwydwaith rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru, megis: Aber (Caerffili), Caerffili, Ffynnon Taf, Llanbradach, Llandaf, Llanisien, Llys-faen a'r Ddraenen, Pontypridd, Radur, Trefforest, Y Barri, Cogan, Eastbrook, Penarth, Tregatwg, Llanharan, Pen-y-bont ar Ogwr, Y Pîl a Phont-y-clun. Mae safle Parcio a Theithio yn cael ei gynnig i'r dwyrain o'r ddinas fel rhan o Barcffordd Caerdydd.

Cynigir safle Parcio a Theithio strategol hefyd ar gyffordd 33 sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau datblygu yn yr ardal honno. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hefyd yn cynnig safleoedd Parcio a Theithio yn rhanbarthol, er nad oes unrhyw gynlluniau pendant ar gael ar hyn o bryd.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod y rhwydwaith teithio llesol mewn rhai ardaloedd yn rhanedig ac yn anghyflawn, ac mae'n mynd i'r afael â hyn trwy ei Bapur Gwyn Trafnidiaeth a'r Map

Rhwydwaith Teithio Llesol statudol. Mae'r map hwn yn amlinellu llwybrau cerdded a beicio presennol a'r dyfodol sy'n bodloni safonau Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn blaenoriaethu datblygu a chwblhau dolen yng nghanol y ddinas a chwe llwybr beicio rheiddiol i ddarparu cysylltiadau parhaus, ar wahân ar draws y ddinas. Ar gyfer hyn, mae buddsoddiad wedi'i dargedu. Mae cyllid gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i gau'r bylchau mewn llwybrau presennol, gwella croesfannau a throedffyrdd, a darparu seilwaith beicio mwy diogel, sydd ar wahân yn llwyr.

Mae cynllun trafnidiaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC) hefyd yn blaenoriaethu teithio llesol ochr yn ochr â thrafnidiaeth gyhoeddus, ond mae rhanddeiliaid yn pwysleisio'r angen am ymrwymiadau a chyllid penodol i sicrhau bod cynghorau lleol yn darparu rhwydwaith teithio llesol cysylltiedig.

## Sylwadau sy'n ymwneud â beicio

**A fydd rhagor o brosiectau storio beiciau yn y ddinas:** Mae'r loceri beicio diogel newydd yng Nghaerdydd yn rhan o rwydwaith sy'n cael ei redeg gan Spokesafe, y cyfeirir ato'n aml fel Rhwydwaith Loceri Spokesafe yng Nghaerdydd. Dechreuwyd y gwaith o'u cyflwyno yng Nghaerdydd yn haf 2025, gyda'r unedau cyntaf yn cael eu gosod ger Castell Caerdydd. Ar ddiwedd 2025, mae o leiaf 31 o loceri wedi'u gosod ar sawl safle yng nghanol y ddinas. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i raglen ehangu pum mlynedd.

Yn ogystal â loceri yng nghanol y ddinas, mae yna hefyd gynigion i osod siediau beicio diogel mewn ardaloedd preswyl i ddarparu mannau parcio arhosiad hir i breswylwyr nad oes ganddynt storfa breifat.

**Pryderon am ymddygiad beicwyr, ceisiadau am reoliadau beicio ac addysg am feicio:** Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch ymddygiad beicwyr a cheisiadau am addysg a rheoliadau cliriach. Mae'r Cyngor yn hyrwyddo beicio cyfrifol trwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth a mentrau hyfforddi, a byddwn yn parhau i weithio gyda Heddlu De Cymru i orfodi cydymffurfiaeth â Rheolau'r Ffordd Fawr a mynd i'r afael ag arferion anniogel lle bo angen. Yn ogystal, byddwn yn ymgysylltu ag ysgolion, grwpiau beicio a sefydliadau hygyrchedd i sicrhau bod dyluniadau a pholisïau yn y dyfodol yn cefnogi defnydd diogel, cynhwysol a chyfrifol o'r rhwydwaith trafnidiaeth.

**Defnydd isel o'r lonydd beicio:** Cynyddodd beicio yng Nghaerdydd yn sylweddol rhwng 2019/20 a 2023/24 yn dilyn cyflwyno beicffyrdd (e.e. Heol y Gogledd +27%, Pont y Werin +72%). Fodd bynnag, gostyngodd y defnydd dros y flwyddyn ddiwethaf: gostyngodd beicio yn gyffredinol 7%, disgynnodd cyfrifon Heol y Gogledd 5%, a lleihaodd y niferoedd sy'n beicio i'r gwaith, addysg, siopa, a hamdden.

Mae'r ffactorau sy'n cyfrannu at hynny yn cynnwys dod â'r cynllun llogi Nextbike i ben (Ionawr 2024), llai o berchnogaeth beiciau cartref (-1%), a boddhad is â standiau beiciau ac amodau'r ffordd.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod llwybrau cysylltiedig, ar wahân a chynnal a chadw da yn cynyddu beicio drwy gydol y flwyddyn, fel y gwelir yn yr Iseldiroedd.

Mae cefnogaeth y cyhoedd yn parhau i fod yn gryf, ac yn ôl yr Arolwg Trafnidiaeth Blynyddol, mae trigolion eisiau:

- Gwybodaeth well am deithio (32%)
- Mynediad lleol mwy diogel (26%)
- Gwell llwybrau (24%)

- Mwy o gyfleusterau (22%)
- Mwy o lonydd beicio (21%)
- Cynllun llogi beiciau (13%)

Mae'r Cyngor yn datblygu cynllun llogi beiciau newydd ac yn parhau i ehangu'r rhwydwaith, a ddylai helpu i wrthdroi'r dirywiad diweddar.

**Rhoi blaenoriaeth yn annheg i bobl abl dros ddefnyddwyr ceir sydd efallai ond yn gallu teithio'r ffordd honno**: Er mwyn annog pobl o'u ceir i ddulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, mae'n bwysig annog teithio llesol a theithio cynaliadwy ledled Caerdydd. Mae hyn yn cael ei wneud trwy wella safleoedd bws, llwybrau bws a seilwaith beicio, sy'n rhan annatod o'r cynllun hwn. Mae mesurau a gynigir fel rhan o'r cynigion hyn yn cyd-fynd â hierarchaeth ffyrdd wrth roi mwy o bwyslais ar ddarparu mesurau teithio cynaliadwy a mynediad at deithio llesol yn hytrach na defnyddio car. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno targedau amrywiol i gyflawni hyn fel yr amlinellir ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth a Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor.

- *Blaenoriaethu a hygyrchedd*: Nod y cynigion yw annog newid tuag at ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy. Er bod rhai yn ystyried hyn fel blaenoriaethu unigolion abl dros ddefnyddwyr ceir, mae'r cynllun wedi'i gynllunio i wella hygyrchedd i bawb. Mae'r mesurau'n cynnwys safleoedd bws wedi'u huwchraddio gyda chyrbiau uwch, mynediad gwastad, a chysgodfannau sy'n darparu ar gyfer defnyddwyr cadair olwyn a'r rhai sydd â heriau o ran symudedd.

- *Cydbwyso anghenion*: Er bod mynediad ar gyfer cerbydau preifat yn cael ei leihau mewn rhai ardaloedd, mae'r dull hwn yn cyd-fynd ag amcanion strategol Caerdydd i leihau tagfeydd a gwella ansawdd aer. Mae tystiolaeth yn dangos nad yw ychwanegu mwy o lonydd traffig yn datrys tagfeydd yn hirdymor ac mae'n gwrthdaro â nodau cynaliadwyedd. Mae'r Cyngor hefyd yn buddsoddi mewn cyfleusterau parcio a theithio gyda'i bartneriaid ac yn gwella trafnidiaeth gyhoeddus i ddarparu dewisiadau amgen hyfyw i'r rhai nad ydynt yn gallu beicio na cherdded.

- *Dylunio cynhwysol:* Mae hygyrchedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth trwy gydol y cynllun. Mae nodweddion fel palmentydd botymog, arwyddion clir, a chroesfannau diogel i gerddwyr yn disodli seilwaith sydd wedi dyddio fel tanffyrdd sy'n methu â bodloni safonau modern. Mae ymgysylltu â grwpiau anabledd yn sicrhau bod dyluniadau yn diwallu anghenion pob defnyddiwr, nid dim ond y rhai sy'n abl.

- *Manteision iechyd teithio llesol:* Mae teithio llesol, cerdded a beicio, yn cynnig manteision iechyd sylweddol, gan gynnwys gwell ffitrwydd cardiofasgwlaidd, llai o risg o ddatblygu clefydau cronig, a gwell lles meddyliol. Mae annog y dulliau hyn nid yn unig yn cefnogi iechyd unigolion ond hefyd yn cyfrannu at amgylchedd glanach, gan greu dinas y mae pawb yn gallu byw'n dda ynddi.

**Pryderon am yr effaith economaidd:** Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch effaith economaidd bosibl beicffordd arfaethedig. Mae tystiolaeth o gynlluniau tebyg yn y DU ac yn rhyngwladol yn dangos y gall seilwaith beicio o ansawdd uchel ddarparu manteision economaidd sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- *Mwy o ymwelwyr a gwariant lleol:* Mae beicffyrdd yn annog mwy o bobl i deithio i ganol dinasoedd ar feic neu ar droed, sy'n cefnogi busnesau lleol a gweithgarwch manwerthu.

- *Gwell hygyrchedd:* Mae llwybrau mwy diogel, mwy cysylltiedig yn gwneud yr ardal yn fwy deniadol i ymwelwyr a gweithwyr, gan helpu i gynnal gweithgarwch masnachol.

- *Gwella iechyd a chynhyrchiant:* Mae teithio llesol yn lleihau absenoldeb o'r gwaith ac yn gwella lles, sydd o fudd i gyflogwyr a'r economi ehangach.
- *Gwerth hirdymor:* Mae mesurau trafnidiaeth gynaliadwy yn helpu i ddiogelu'r ddinas at y dyfodol rhag heriau tagfeydd ac ansawdd aer, gan wneud Caerdydd yn lleoliad mwy cystadleuol a deniadol ar gyfer buddsoddi.

Mae'r cynigion yn cyd-fynd â Phapur Gwyn Trafnidiaeth Caerdydd ac amcanion Teithio Llesol Llywodraeth Cymru, sy'n ceisio creu canol dinas fywiog a hygyrch sy'n cefnogi twf economaidd wrth leihau dibyniaeth ar gerbydau preifat.

# 4. Crynodeb o'r ymgysylltiad ac argymhelliad

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu crynodeb o'r prif adborth a godwyd o'r ymgysylltiad a chasgliad.

Cynhaliodd y Cyngor ymgysylltiad cyhoeddus chwe wythnos (4 Gorffennaf – 17 Awst 2025) ar gynigion ar gyfer **Cam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas**. Roedd yr ymgysylltiad yn gofyn am farn ar fesurau blaenoriaeth i fysus, gwelliannau teithio llesol, trefniant parhaol ar gyfer Beicffordd 2, a pharthau parcio arfaethedig, ochr yn ochr ag adborth cyffredinol.

## 4.1. Crynodeb o'r ymgysylltiad

Dilynodd yr ymgysylltiad ein proses ymgysylltu safonol. Mae crynodeb o rai o'r ffeithiau a'r canlyniadau allweddol fel a ganlyn:

- **Cyfnod estynedig:** Cynhaliwyd yr ymgysylltiad dros 6 wythnos (yn hytrach na'r 3 arferol) i ystyried gwyliau'r haf.
- **Llythyrau a anfonwyd:** Tua 5,769 o lythyrau i drigolion a busnesau yn ardal y prosiect. Roedd y llythyr yn darparu dolen i ddeunydd ymgysylltu ar wefan y Cyngor a dolen i arolwg ar-lein.
- **Hysbysiadau safle:** Darparwyd hysbysiadau safle ledled ardal y cynllun Cam 1 i gwmpasu'r rhai a allai fod y tu allan i'r ardal lle anfonwyd llythyrau, sy'n ymweld neu'n teithio trwy'r ardal. Roedd yr hysbysiadau safle yn darparu dolen i ddeunydd ymgysylltu ar wefan y Cyngor a dolen i arolwg ar-lein.
- **Fideo 3D o'r awyr:** Mae fideo 3D o'r awyr hefyd wedi'i ddarparu yn y wybodaeth i helpu pobl i ddychmygu'r cynigion.
- **Arolwg ar-lein:** Cynhaliwyd arolwg Snap ar-lein i gasglu barn. Roedd yr arolwg hwn yn cynnwys cwestiynau a hefyd yn rhoi cyfle i roi adborth ysgrifenedig.
- **Ymatebion a dderbyniwyd:**
  - 560 o ymatebion arolwg ar-lein (wedi'u dilysu ar ôl glanhau data).
  - 4 ymholiad uniongyrchol ar e-bost (ac eithrio ymholiadau dyblyg).
- **Adroddiadau annibynnol:** I gefnogi'r adroddiad ymgysylltu hwn, mae dogfen Canfyddiadau'r Adroddiad hefyd wedi'i pharatoi gan dîm Ymgysylltu ac Ymchwil y Cyngor a oedd yn rheoli'r arolwg ar-lein. Mae Adroddiad Canfyddiadau'r Adroddiad ar gyfer Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd (Medi 2025), ar gael yn **Atodiad 1**.

- **Proffil yr ymatebwyr:**
  - Mae 66% yn byw y tu allan i ardal y prosiect ond yng Nghaerdydd.
  - Mae 25% yn byw o fewn ardal y prosiect.
  - Roedd 5% yn ymwelwyr.
  - Roedd dros 95% o'r ymatebwyr wedi darllen y pecyn ymgysylltu cyn cwblhau'r arolwg.
- **Arferion teithio:**
  - Mae 75% yn teithio trwy'r ardal o leiaf unwaith yr wythnos.
  - Mae 41% yn defnyddio'r llwybr ar gyfer teithio i'r gwaith; a
  - 42% ar gyfer hamdden/siopa.
- **Themâu adborth:** Dylid nodi nad yw bob amser yn bosibl rhagweld adborth y cyhoedd, neu farn ar nodweddion penodol cynnig, felly roedd blychau testun agored ar gael fel rhan o'r arolwg ar-lein, ac mae gan ymatebwyr yr opsiwn i ysgrifennu'n uniongyrchol at y Cyngor. Rydym felly yn hyderus bod yr adborth a gafwyd hyd yma yn cwmpasu'r holl faterion allweddol sy'n debygol o gael eu codi.

  Mae'r prif faterion a godwyd fel a ganlyn:
  - Gwelliannau trafnidiaeth gyhoeddus (42 o sylwadau)
  - Gwrthwynebiad i gynigion penodol (49 o sylwadau)
  - Blaenoriaethau gwariant (47 o sylwadau)
  - Pryderon am dagfeydd (32 o sylwadau)
  - Pryderon diogelwch (30 o sylwadau)
  - Materion o ran ymddygiad a seilwaith beicio (47 i'r ddau).

Yn gyffredinol, darparwyd ymatebion sy'n mynd i'r afael â phwyntiau ac adborth a godwyd o'r arolwg ar-lein ac o'r ohebiaeth a dderbyniwyd.

## 4.2. Argymhelliad ar eitemau allweddol

Rhoddwyd argymhelliad ar yr eitemau allweddol a godwyd fel a ganlyn:

**Gwelliannau Trafnidiaeth Gyhoeddus:**

- Ceisiadau am wella dyluniad a hygyrchedd safleoedd bws (cyrbiau uwch, cysgodfannau, gwybodaeth amser real).
- Pryderon am arwynebau a rennir mewn safleoedd bws a gwrthdaro posibl rhwng beicwyr a cherddwyr.

**Argymhelliad:** Gweithredu dyluniadau ffordd osgoi bysus lle bo'n bosibl a sicrhau safonau dylunio cynhwysol ar gyfer pob safle. Bydd pob safle yn cael ei asesu ar sail unigol, gan gymhwyso'r gwersi a ddysgwyd a thrwy ystyried cyfyngiadau priffyrdd a'r data sydd ar gael.

**Seilwaith a Chysylltedd Beicio:**

- Diffyg cysylltiadau beicio cyfleus i lwybrau cyfagos.
- Pryderon am ddiogelwch beicwyr ar gyffyrdd a chroesfannau annigonol.
- Ceisiadau am storfeydd beiciau mwy diogel ac addysg ar ymddygiad beicwyr.

**Argymhelliad:** Gwella integreiddio rhwydwaith, ychwanegu arwyddion cyfeirio, ehangu mannau parcio beiciau diogel, a pharhau ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

**Hygyrchedd i Gerddwyr:**

- Gwrthwynebiadau i gael gwared ar y danffordd a'i disodli gyda chroesfannau un-lefel oherwydd oedi canfyddedig.
- Pryderon am arosiadau hir ar groesfannau.

**Argymhelliad:** Parhau â'r groesfan un-lefel oherwydd y manteision o ran hygyrchedd, wrth optimeiddio amseroedd goleuadau a darparu gohebiaeth glir ar fanteision.

**Traffig a Thagfeydd:**

- Ofnau y bydd cynigion yn gwaethygu tagfeydd ac yn cynyddu llygredd.
- Pryderon am ailgyfeirio traffig a mynediad y gwasanaethau brys.

**Argymhelliad:** Cwblhau gwaith modelu lefel rhwydwaith, cyflwyno Arwyddion Negeseuon Amrywiol (VMS) ar gyfer diweddariadau amser real, a chysylltu â'r gwasanaethau brys.

**Effaith Economaidd a Mynediad i Fusnesau:**

- Pryderon am darfu ar fusnesau a mynediad i ganol y ddinas yn ystod y gwaith adeiladu.
- Cwestiynau ar ohebiaeth ac amserlenni prosiectau.

**Argymhelliad:** Darparu gohebiaeth ragweithiol, arwyddion ac ymgysylltu uniongyrchol â busnesau i leihau tarfu.

**Parcio a Mynediad i Gerbydau:**

- Gwrthwynebiad i gyfyngiadau ar gerbydau preifat a gwaharddiadau ar droi i'r dde (e.e. Coedlan Wordsworth).
- Ceisiadau am ddewisiadau parcio a theithio amgen.

**Argymhelliad:** Cynnal y cyfyngiadau arfaethedig ar gyfer diogelwch, a chyfathrebu llwybrau amgen yn glir.

# 5. Diweddariadau i'r dyluniad

Yn dilyn yr ymarfer ymgysylltu hwn, cynigir y newidiadau canlynol i'r dyluniad:

### Amseryddion cyfrif i lawr ar oleuadau:

- Cynigir amseryddion cyfrif i lawr ar y croesfannau i gerddwyr yn ardal canol y ddinas, o gyffordd Boulevard De Nantes / Ffordd y Brenin, hyd at gyffordd Rhodfa'r Orsaf / Plas Dumfries / Heol Casnewydd.
- Gall amseryddion cyfrif i lawr ddarparu gwell dealltwriaeth a rhagweladwyedd gan ddangos yn glir faint o amser sydd ar ôl i groesi'r ffordd. I lawer o bobl, gan gynnwys y rhai sydd ag anawsterau gwybyddol, gall y cliw gweledol hwn wneud pethau'n haws. Gall hefyd wneud i bobl deimlo'n llai brysiog, yn fwy hyderus ac yn llai pryderus o groesi ffyrdd neu gyffyrdd prysur.
- Mae'r ddelwedd ar y dde yn dangos enghraifft bresennol o amserydd cyfrif i lawr yng nghanol dinas Caerdydd ar Stryd Wood.




Cyngor Caerdydd: X (Twitter gynt)

### Plas Dumfries / Rhodfa'r Orsaf:

- Er mwyn darparu ar gyfer beicwyr sy'n aros i droi ar ac oddi ar y feicffordd i Rodfa'r Orsaf, cynigir rhai mân newidiadau i drefniant y cyrbiau o fewn ardal ganolog y gyffordd ar y gornel ogledd-ddwyreiniol.
- Rydym hefyd wedi edrych i weld a allwn newid y groesfan ar ochr ddwyreiniol y gyffordd lle mae'n rhaid i gerddwyr groesi'r feicffordd cyn croesi'r prif lonydd traffig. Yn anffodus, oherwydd diffyg lle, lleoliadau llinellau dymuniad cerddwyr ac ardal aros i feiciau, nid yw hyn yn bosibl.
- Dangosir yr ardal wedi'i diweddaru yn Ffigur 2.




Ffigur 2

### Safle Bws Plas Dumfries:

- Er nad yw'r rhan fwyaf o wasanaethau bws yn defnyddio Plas Dumfries tua'r gorllewin, roedd adborth a ddarparwyd gan y gweithredwr bysus Stagecoach, yn dangos bod angen safle o hyd ar Blas Dumfries.
- Oherwydd cyfyngiadau ar y priffyrdd, rydym yn gyfyngedig ar opsiynau ar gyfer y lleoliad hwn.

- Mae'r trefniant wedi'i ddiweddaru yn darparu ffordd osgoi i feicwyr, fodd bynnag, rydym wedi cymhwyso gwersi a ddysgwyd i leihau gwrthdaro rhwng beicwyr a cherddwyr, fel y dangosir yn Ffigur 3.




## Croesfan Boulevard de Nantes / Ffordd y Brenin:

- Fel rhan o'r cynlluniau ymgysylltu, cynigiwyd trefniant ffordd osgoi i feicwyr, lle byddai cerddwyr yn croesi croesfan sebra yn gyntaf ar draws y feicffordd ac yna'n gorfod aros wrth y goleuadau.
- Teimlwyd y gallai'r trefniant hwn fod yn ddryslyd i rai defnyddwyr, gan y gallai rhai weld y dyn gwyrdd a chamu allan heb wirio bod y feicffordd yn glir.
- Mae'r dyluniad arfaethedig newydd yn gweld y feicffordd ar bwys y prif lonydd traffig, sy'n golygu y bydd beicwyr yn cael eu dal ar olau coch pan fydd cerddwyr yn croesi'r ffordd, fel y dangosir yn Ffigur 4.




Mae copi o ddyluniad diweddaraf y cynllun ar gael yn **Atodiad 2.**

## Argymhelliad Cyffredinol

Mae'r ymgysylltiad wedi'i gynnal ar gam ffurfiannol, lle teimlir bod gwybodaeth ac amser digonol wedi'i ganiatáu i alluogi ystyried ac ymateb. Mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn gydwybodol.

Mewn perthynas â'r holl adborth a gohebiaeth fel rhan o'r ymgysylltiad hwn, rhoddwyd rhesymau rhesymegol a rhesymol mewn ymateb mewn perthynas â'r cyfiawnhad a'r rhesymeg y tu ôl i wahanol nodweddion dylunio'r cynllun sy'n cael ei ddatblygu.

O'r wybodaeth gyfredol a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgysylltiad penodol hwn, dim ond y newidiadau uchod sy'n cael eu cynnig i'r dyluniad. Mewn perthynas ag unrhyw newidiadau dilynol o ganlyniad i'r gwaith modelu rhwydwaith, neu ystyriaethau dylunio fel rhan o'r broses ddylunio fanwl, bydd y rhain yn cael eu rhannu mewn dogfen wybodaeth pan fydd y cynllun yn cael ei gynnig i'w weithredu. Rydym yn disgwyl y bydd y wybodaeth hon ar gael yn haf 2026.

O ystyried yr uchod, argymhellir bod y cynnig presennol yn mynd rhagddo yn ei drefniant presennol.

## Rhaglen

Mae'r wybodaeth ganlynol yn amodol ar gyllid ac amodau rhwydwaith sy'n gysylltiedig â gwaith sydd eisoes yn cael ei weithredu:

- **Gaeaf 2025 – Haf 2026** – Dyluniad manwl
- **Haf 2026 – Hydref 2026** – Cyfnod tendro
- **Gaeaf 2026** – Dyfarnu'r tendr
- **Gaeaf 2026 – Gwanwyn 2027** – Gwaith adeiladu yn dechrau

Trawsnewid Trafnidiaeth Caerdydd

CARDIFF CAERDYDD

## 6. Y camau nesaf

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu crynodeb o'r camau nesaf sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn a'r cynllun ehangach yn dilyn yr ymgysylltiad hwn.

- **Dyluniad manwl –** yn parhau i gael ei ddatblygu yn seiliedig ar gynigion presennol y cynllun;
- **Modelu ac asesu lefel rhwydwaith** – yn cael ei gynnal a bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio gwaith ar opsiynau ar gyfer y cynigion ehangach;
- **Gorchmynion Rheoleiddio Traffig (GRhTau)** – yn cael eu prosesu a'u gweithredu yn unol â hynny;
- **Ymgysylltu ar y coridor ehangach** – bydd ymgysylltiad pellach yn cael ei gynnal ar y coridor ehangach ac ar gamau penodol o'r coridor; ac
- **Ymgysylltu ar y parthau parcio** – Bydd ymgysylltu hefyd yn cael ei gynnal lle bo angen i hysbysu am unrhyw newidiadau o ran parcio yn yr ardal. Byddai hyn yn cynnwys parthau parcio, neu unrhyw GRhTau sy'n gysylltiedig â'r cam presennol fel rhan o'r broses GRhT gyfreithiol ar wahân.

## 7. Rhestr termau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu rhestr o dermau cyffredin sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth a disgrifiad byr o'r hyn y mae'n ei olygu. Efallai na fydd rhai o'r termau canlynol o reidrwydd yn yr adroddiad hwn, ond fe'u darperir at ddibenion gwybodaeth yn unig

**Allyriadau** – Llygryddion sydd wedi'u rhyddhau i'r awyr o gerbydau neu ffynonellau eraill.

**Amhariad** – Cyflwr corfforol, synhwyraidd neu wybyddol a allai effeithio ar allu rhywun i symud o gwmpas yn ddiogel.

**Amseryddion cyfrif i lawr** – Arddangosfeydd ar oleuadau traffig sy'n dangos yr amser sy'n weddill i gerddwyr groesi, cyn i'r cyfnod i gerddwyr ddod i ben, gan helpu pobl i farnu a oes ganddynt ddigon o amser i groesi'n ddiogel.

**Ansawdd aer** – Mesur o ba mor lân neu lygredig yw'r aer, yn seiliedig ar lefelau sylweddau niweidiol.

**Arolwg traffig** – Astudiaeth sy'n casglu data ar feintiau traffig, cyflymder ac ymddygiad.

**Arwyddion negeseuon amrywiol (VMS)** – Arwyddion electronig sy'n rhoi gwybodaeth fyw i yrwyr.

**Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (AEA)** – Proses ffurfiol sy'n asesu effeithiau amgylcheddol tebygol datblygiad arfaethedig.

**Asesiad o'r Effaith ar Dreftadaeth** – Asesiad o sut y gall datblygiad effeithio ar asedau treftadaeth.

**Beicffordd / llwybr beicio** – Llwybr wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer beicwyr, sydd fel arfer ar wahân i draffig neu gerddwyr.

**Beicffordd gwrthlif** – Llwybr beicio sy'n caniatáu i feicwyr deithio yn erbyn llif stryd unffordd.

**Blaenoriaeth i fysus / seilwaith bysus** – Mesurau sy'n rhoi manteision i fysus dros draffig cyffredinol, megis lonydd bysus neu flaenoriaeth wrth oleuadau.

**Bolard** – Postyn a ddefnyddir i atal cerbydau rhag mynd i mewn i ardaloedd fel troedffyrdd neu ymylon.

**Bolard wedi'i oleuo** – Arwydd ar ochr y ffordd wedi'i oleuo, sydd fel arfer yn nodi "cadwch i'r chwith."

**Bwrdd arafu** – Nodwedd arafu traffig wedi'i godi (ramp) llydan, a ddefnyddir yn aml ar groesfannau.

**Camera (cyflymder) diogelwch** – Dyfais sy'n monitro cyflymderau cerbydau ac yn gorfodi terfynau cyflymder. Fe'u defnyddir hefyd wrth oleuadau traffig i orfodi golau coch. Fe'u gweithredir gan GanBwyll.

**Caniatâd / caniatâd cynllunio** – Cymeradwyaeth gan yr awdurdod lleol ar gyfer datblygiadau penodol.

**Capasiti cyffordd** – Faint o draffig y gall cyffordd ddarparu ar ei gyfer yn effeithlon neu'n ddiogel.

**Cau** – Cyfyngiad dros dro neu barhaol sy'n atal defnydd o ffordd neu lwybr gan gerbydau.

**Côn cylchdroi cyffyrddadwy** – Dyfais gylchdroi fach o dan uned y botwm ar bolyn golau traffig sy'n nodi pryd mae'n ddiogel i groesi.

**Coridor trafnidiaeth strategol / cynaliadwy** – Llwybr trafnidiaeth mawr wedi'i ailgynllunio i flaenoriaethu dulliau cynaliadwy.

**Croesfan a reolir** – Croesfan i gerddwyr gyda marciau neu oleuadau, fel croesfan sebra, croesfan pelican neu groesfan pâl. Hefyd, croesfannau sebra cyfochrog a chroesfannau twcan sy'n caniatáu beicwyr a cherddwyr.

**Croesfan groesgam** – Croesfan wedi'i rhannu'n ddau gam gydag ynys yn y canol.

**Croesfan i gerbydau** – Cwrbyn isel a throedffordd wedi'i hatgyfnerthu sy'n caniatáu mynediad i ddreifiau preifat.

**Croesfan nas rheolir** – Man croesi heb oleuadau na rheolaethau ffurfiol.

**Croesfan pâl** – Croesfan i gerddwyr a reolir gan oleuadau gyda synwyryddion croesi a goleuadau ar yr un ochr.

**Croesfan pelican** – Croesfan i gerddwyr a reolir gan oleuadau gyda goleuadau traffig a chyfnod wedi'i amseru i gerddwyr, a weithredir gan fotymau. Yn ymgorffori dilyniant sy'n fflachio.

**Croesfan sebra** – Croesfan a reolir gyda blaenoriaeth i gerddwyr wedi'i marcio â streipiau gwyn a goleuadau croesi.

**Croesfan twcan** – Croesfan lle gall cerddwyr a beicwyr groesi.

**Cwrbyn bysus** – Troedffordd uwch neu estynedig sy'n caniatáu i deithwyr fynd ar y bws yn uniongyrchol o'r lôn gerbydau gan wneud teithio ar fws yn fwy hygyrch.

**Cwrbyn isel** – Cwrb wedi'i ostwng gyda phalmant botymog i gynorthwyo defnyddwyr cadair olwyn, pobl ag amhariad ar symudedd, a'r rhai sydd â chadeiriau gwthio.

**Cyfeirbyst** – Arwyddion a mapiau sy'n helpu pobl i lywio ardal.

**Cyfnod hollol goch i gerddwyr** – Cam goleuadau traffig lle mae pob cerbyd yn cael ei stopio i ganiatáu i gerddwyr groesi'n ddiogel ar olau traffig coch.

**Cyfnod i gerddwyr** – Cyfnod a reolir gan oleuadau sy'n caniatáu i gerddwyr groesi.

**Cyffordd** – Man lle mae dwy ffordd neu fwy yn cwrdd. Gellir ei reoli yn ôl blaenoriaeth, neu ei reoli gyda goleuadau traffig.

**Cyffordd ddyrchafedig / croesfan ddyrchafedig** – Cyffordd neu groesfan uwch sy'n arafu traffig sy'n nesáu atynt.

**Cyllid** – Adnoddau ariannol a ddefnyddir i gyflawni cynlluniau trafnidiaeth neu seilwaith.

**Cyllid Adran 106 (A106)** – Cyfraniadau datblygwyr a ddefnyddir i ariannu seilwaith a mesurau lliniaru. Yn rhan o rwymedigaethau cynllunio.

**Cynaliadwyedd** – Diwallu anghenion y presennol heb niweidio lles amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd yn y dyfodol.

**Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** – Cynllun statudol sy'n nodi polisïau a chynigion defnydd tir ar gyfer ardal.

**Cysgodfan gwyrdd** – Cysgodfan bws gyda tho â phlanhigion i wella ansawdd yr amgylchedd.

**Data damweiniau / data gwrthdrawiadau** – Gwybodaeth wedi'i chofnodi ar wrthdrawiadau ffyrdd sy'n gysylltiedig ag anafiadau personol, wedi'i chasglu trwy'r system STATS19 a'i chategoreiddio fel Angheuol, Difrifol neu Fach.

**Dull trafnidiaeth** – Y math o drafnidiaeth yr ydym yn ei ddefnyddio, fel cerdded, beicio, bws, neu gar.

**Dylunio cynhwysol** – Dylunio strydoedd a mannau fel y gallant gael eu defnyddio'n annibynnol ac yn ddiogel gan bawb.

**E-feic (BPCT)** – Beic pedal â chymorth trydan (BPCT) sy'n darparu cymorth modur tra bod y beiciwr yn pedlo, gan fodloni gofynion Rheoliadau BPCT. Yn aml yn cael ei ddrysu â Cherbyd Modur Trydan nad yw'n BPCT, sy'n feic trydan nad yw'n bodloni gofynion BPCT. Wedi'i ddosbarthu yn y gyfraith fel beic modur neu foped, sy'n gofyn am gofrestriad, treth, yswiriant, cymeradwyaeth o fath, trwydded yrru ddilys, a'r defnydd o helmed beic modur cymeradwy. Ni ddylid defnyddio'r cerbydau hyn ar lwybrau beicio, llwybrau defnydd a rennir, neu ardaloedd eraill sydd wedi'u dynodi ar gyfer beiciau pedal.

**Ffordd osgoi / ynys safle bws** – Cynllun lle mae llwybr beicio yn rhedeg y tu ôl i ynys safle bws bwrpasol i wahanu symudiadau beicio rhag bysus. Yn aml yn cynnwys croesfan sebra cyffyrddiad ysgafn.

**GanBwyll** – Partneriaeth Lleihau Damweiniau Ffyrdd Cymru, y bartneriaeth fwyaf o'i math yn y DU sy'n gweithredu camerâu diogelwch cyflymder. Ei nod strategol yw gwneud pobl yn fwy diogel ar ffyrdd Cymru drwy leihau damweiniau ac achub bywydau.

**Gofod defnydd a rennir** – Llwybr a ddefnyddir gan gerddwyr a beicwyr, weithiau ar wahân.

**Goleuadau ar yr un ochr** – Goleuadau ar groesfannau i gerddwyr sydd wedi'u gosod ar yr un ochr o'r ffordd.

**Goleuadau cyferbyniol** – Goleuadau ar groesfannau i gerddwyr sydd wedi'u gosod ar ochr arall y ffordd.

**Goleuadau i feicwyr** – Goleuadau traffig a ddefnyddir ar gyfer beicwyr yn unig.

**Goleuadau traffig** – Goleuadau sy'n rheoli symudiad cerbydau a cherddwyr.

**Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT)** – Gorchymyn cyfreithiol sy'n galluogi cyfyngiadau ffyrdd gorfodadwy.

**Gorfodi** – Camau a gymerir i sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau traffig neu barcio.

**Gor-rediad** – Arwyneb wedi'i atgyfnerthu neu weadog sy'n caniatáu i gerbydau mawr droi ond sy'n ceisio atal ceir.

**Gwaharddiad** – Cyfyngiad cyfreithiol sy'n atal symudiadau neu weithgareddau penodol ar y briffordd.

**Gwybodaeth amser real** – Diweddariadau byw ar wasanaethau trafnidiaeth, fel arfer mewn gorsafoedd neu safleoedd bws.

**Hawliau datblygiad a ganiateir** – Rheolau sy'n caniatáu datblygiadau penodol heb ganiatâd cynllunio.

**Hidlydd moddol** – Mesur sy'n cyfyngu ar draffig trwodd wrth ganiatáu cerdded a beicio, fel arfer ar ffordd sydd ar gau neu ffordd bengaead.

**Hygyrchedd** – Dylunio trafnidiaeth a mannau cyhoeddus fel y gall pawb, gan gynnwys defnyddwyr anabl, eu defnyddio'n ddiogel ac yn annibynnol trwy gael gwared ar rwystrau ffisegol, cyfathrebu ac amgylcheddol.

**Isffordd** – Tanffordd i gerddwyr neu feicwyr o dan ffordd neu reilffordd.

**Lôn feiciau (Cynghorol)** – Lôn feicio â llinellau toredig na ddylai cerbydau eraill fynd i mewn iddi oni bai bod hynny’n anochel. Nid oes angen Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT).

**Lôn feiciau (Gorfodol)** – Lôn â llinellau solet wedi'i neilltuo ar gyfer beicwyr; rhaid i gerbydau beidio â mynd i mewn iddi yn ystod yr amseroedd y mae’n weithredol. Mae angen Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (GRhT) fel arfer.

**Lôn gerbydau** – Y rhan o'r ffordd a ddefnyddir gan gerbydau modur.

**Lleihau gofod y ffordd** – Mesurau sy'n culhau'r lôn gerbydau yn weledol i arafu cyflymder cerbydau neu ehangu ardaloedd i gerddwyr a beiciau.

**Llwybr beicio dros dro** – Cyfleuster beicio dros dro wedi'i gyflwyno’n gyflym i ddatblygu llwybr beicio, gwella diogelwch neu gapasiti. Gellir gwneud y rhain yn barhaol.

**Man i ddefnyddwyr anabl** – Man parcio wedi'i neilltuo ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas.

**Man llwytho** – Ardal wedi'i farcio lle gall cerbydau lwytho neu ddadlwytho nwyddau.

**Map Rhwydwaith Teithio Llesol** – Wedi'i gynhyrchu gan awdurdodau lleol (fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013), map sy'n dangos llwybrau cerdded a beicio presennol ac arfaethedig sy'n bodloni safonau Teithio Llesol cenedlaethol.

**Metro (TC)** – Y rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus rhanbarthol integredig a weithredir gan Trafnidiaeth Cymru.

**Modelu traffig** – Rhagfynegi patrymau traffig ar gyfrifiadur i asesu effeithiau'r cynllun.

**Newid moddol** – Newid ymddygiad teithio tuag at drafnidiaeth fwy cynaliadwy.

**Nifer yr ymwelwyr ar droed** – Nifer y cerddwyr sy'n pasio trwy ardal.

**Nodweddion arafu traffig** – Mesurau fel twmpathau, rhwystrau igam-ogamu neu byrth, a ddefnyddir i arafu traffig.

**Palmant botymog** – Palmant gweadog i gynorthwyo cerddwyr ag amhariad ar eu golwg.

**Papur Gwyn Trafnidiaeth** – Dogfen gan y llywodraeth sy'n nodi polisi trafnidiaeth hirdymor.

**Parcio a theithio** – Cyfleuster lle mae gyrwyr yn parcio ac yn parhau â'u taith ar drafnidiaeth gyhoeddus.

**Parth diogelwch ysgol** – Parth gyda nodweddion sydd wedi'u cynllunio i arafu traffig ger ysgolion.

**Parth parcio** – Ardal gyda rheolau neu gyfyngiadau parcio penodol.

**Parth rheoli parcio (PRhP)** – Ardal lle mae parcio yn cael ei reoleiddio gan gyfyngiadau ag arwyddion, fel arfer yn gofyn am drwyddedau yn ystod oriau penodol. Mae PRhP yn berthnasol i bob ffordd o fewn y parth oni bai bod mannau unigol ag arwyddion gwahanol. Mae angen GRhT i wneud PRhP.

**Porth cul** – Nodwedd wrth fynedfa i arafu traffig, a welir yn aml ger ysgolion neu barthau 20mya.

**Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (P-RC)** – Partneriaeth o 10 awdurdod lleol sy'n cyflawni buddsoddiad mewn swyddi, trafnidiaeth a seilwaith.

**Rhanddeiliad** – Person neu grŵp sydd â buddiant mewn prosiect neu gynnig.

**Rheilen warchod i gerddwyr** – Rheiliau a ddefnyddir i arwain cerddwyr ac atal croesi ffyrdd yn anniogel, fel arfer wrth fynedfa ysgol neu lôn i gerddwyr. Yn cael eu hosgoi lle mae perygl o fachu dwylo.

**Rheolau'r Ffordd Fawr** – Y rheolau a'r canllawiau swyddogol ar gyfer holl ddefnyddwyr y ffordd yn y DU.

**Rhwystr igam-ogamu** – Nodwedd arafu traffig sy'n defnyddio rhwystrau ymwthiol i greu llwybr troellog ac arafu cerbydau.

**Rhwystr ymwthiol** – Rhan lle mae'r droedffordd wedi'i hehangu a ddefnyddir i gulhau'r ffordd, lleihau pellteroedd croesi, neu wella gwelededd.

**Rhwystrau culhau'r ffordd** – Rhan gul o'r ffordd sy'n caniatáu llif cerbydau unffordd gyda blaenoriaeth i un cyfeiriad.

**Rhwystrau ymwthiol wrth gyffordd** – Rhwystrau ymwthiol ar gyffyrdd i atal parcio anniogel, byrhau pellteroedd croesi neu wella gwelededd.

**Sgrinio amgylcheddol** – Prawf cychwynnol i benderfynu a oes angen AEA llawn, neu i nodi cyfyngiadau ecolegol.

**Tagfeydd** – Oedi a achosir pan fydd galw traffig yn fwy na chapasiti ffyrdd.

**Talu ac aros** – System barcio lle mae defnyddwyr yn talu am gyfnod penodol.

**Teithio llesol** – Cerdded a beicio ar gyfer teithiau bob dydd, gyda chefnogaeth seilwaith diogel a chyfleus. Mae yna lawer o bolisïau sy'n nodi Teithio Llesol fel offeryn allweddol ar gyfer lleihau'r defnydd o geir, gwella iechyd y cyhoedd, lleihau allyriadau, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau trwy sicrhau bod llwybrau cerdded a beicio diogel ar gael i bob defnyddiwr.

**Trafnidiaeth Cymru (TC)** – Y corff cenedlaethol sy'n gyfrifol am gynllunio a darparu trafnidiaeth yng Nghymru.

**Trafnidiaeth gyhoeddus** – Gwasanaethau trafnidiaeth i deithwyr sy'n agored i bawb, fel bysus a threnau.

**Traffig wedi'i ddadleoli** – Traffig yn symud i lwybrau amgen yn dilyn newidiadau i gynllun ffordd.

**Troedffordd / llwybr troed** – Llwybr cerdded dynodedig, fel arfer wrth ymyl ffordd neu sy'n arwain o ffordd.

**Unffordd** – Ffordd lle caniateir traffig i un cyfeiriad yn unig.

**Un-lefel** – Cyffordd neu groesfan lle mae pob rhan o'r ffordd yn cwrdd ar yr un lefel.

**Ynys ffug / troad i'r dde a warchodir** – Lôn i droi i'r dde wedi'i marcio sydd weithiau wedi'i diogelu gan ynysoedd traffig.

**Ynys groesi i gerddwyr** – Ynys fach sy'n caniatáu i gerddwyr groesi'r ffordd mewn dau gam, y cyfeirir ati hefyd fel croesfan groesgam.

**Ynys hollti** – Ynys fach ar gylchfan i lywio traffig a lleihau cyflymderau.

**Ynys traffig** – Ynys â phalmant a ddefnyddir ar gyfer croesfannau croesgam neu i gyfarwyddo symudiadau cerbydau.

# 8. Atodiadau

Mae'r adran olaf hon o'r adroddiad yn cyflwyno'r atodiadau y cyfeirir atynt yn yr adroddiad.

# Atodiad A

# Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd

**Canfyddiadau'r Adroddiad**
**Medi 2025**



## Cynnwys

Cyflwyniad ....................................................................................................2
Methodoleg ...................................................................................................2
Canlyniadau ..................................................................................................3
C1. Ydych chi wedi darllen y pecyn ymgysylltu sydd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth? ....................4
C2. Ydych chi'n breswylydd lleol? ....................................................................4
Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch y sefydliad isod: ..........................4
C3. Pa mor aml ydych chi'n teithio ar hyd y llwybr hwn? .......................................1
C3a. Arall, rhowch fanylion ...............................................................................1
C4. Os ydych chi'n teithio trwy'r ardal hon, beth yw eich **prif** reswm dros hyn? ..........2
Os 'Arall', rhowch fanylion: ..............................................................................3
C5. Pa ddull trafnidiaeth ydych chi'n ei ddefnyddio wrth ddefnyddio'r llwybr hwn? ..........4
C5a. Arall, rhowch fanylion ...............................................................................4
C6. Pa mor hir ydych chi'n aros yn yr ardal fel arfer? ...........................................5
C7. Os ydych chi'n defnyddio cerbyd modur, ble ydych chi'n parcio yn yr ardal? ..........6
C7a. Arall, rhowch fanylion ...............................................................................6
C8. Ydych chi'n teimlo y bydd y mesurau arfaethedig yn eich annog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach? ..............7
C9. Wrth feddwl am ynysoedd safle bws wrth ymyl llwybrau beicio, ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn gweithio'n dda? ..............8
C10. A fyddai'r gwelliannau hyn yn eich annog i gerdded yn amlach yn yr ardal hon? .........9
C11. Ydych chi'n teimlo y bydd symud ac uwchraddio'r feicffordd yn cael effaith gadarnhaol ar gerddwyr sy'n defnyddio'r llwybr hwn? ..............11
C11a. Os nad ydych chi, dywedwch pam: ..........................................................12
C12. Fel cerddwr, ydych chi'n profi unrhyw anawsterau ar hyn o bryd wrth ddefnyddio unrhyw un o'r cyffyrdd canlynol? ..............13
C12a. Os ydych chi'n profi anawsterau ar hyn o bryd, esboniwch beth ydyn nhw: ..............13
C13. Fel cerddwr, ydych chi'n teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio isffordd / tanffordd Ffordd y Brenin? ..............14
C14. Ydych chi'n teimlo bod digon o gyfleusterau croesi ar gael ar hyd y llwybr hwn? ........15
C14a. Os nad ydych chi, dywedwch pam: ..........................................................16
C15. A fyddai'r gwelliannau wrth gyffordd Plas Howard / Llwyn y Gorllewin yn fuddiol i chi? ..............18

C16. Ydych chi'n teimlo y bydd y llwybr beicio parhaol neu'r gwelliannau arfaethedig eraill yn eich annog i ddefnyddio'r ardal yn fwy ar feic? ....19
C17. Ydych chi'n teimlo y bydd newid y feicffordd i'r ochr ogleddol yn gwella eich taith? ...21
C17a. Os nad, eglurwch pam: ....21
C18. Ble yn yr ardal ydych chi fel arfer yn parcio'ch beic? ....23
Os 'Arall', rhowch fanylion: ....23
C19. Fel beiciwr, ydych chi'n profi unrhyw anawsterau ar hyn o bryd wrth ddefnyddio unrhyw un o'r cyffyrdd canlynol? ....24
C19a. Os ydych chi'n profi anawsterau ar hyn o bryd, eglurwch beth ydyn nhw (os oes problemau gyda mwy nag un gyffordd, esboniwch unrhyw bryderon penodol, gan gynnwys enw'r gyffordd). ....24
C20. Fel beiciwr, ydych chi'n teimlo'n ddiogel yn defnyddio isffordd / tanffordd Ffordd y Brenin? ....25
C21. Ydych chi'n teimlo bod digon o gyfleusterau croesi ar gael i feicwyr ar hyd y llwybr hwn? ....26
C21a. Os nad, eglurwch pam: ....26
C22. A fyddai'r gwelliannau wrth gyffordd Plas Howard / Llwyn y Gorllewin yn fuddiol i chi? ....27
C23. Gan feddwl am y cynnig i wahardd troi i'r dde i Goedlan Wordsworth, a ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig? ....28
C23a. Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam: ....30
C24. Ydych yn cefnogi'r newidiadau a gynigir? ....31
C24a. Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam: ....32
C25. A fyddai'r newidiadau ar gyffordd Piercefield Place yn fuddiol i chi? ....33
C25a. Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam: ....33
C26. Rhowch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych am y prosiect arfaethedig yn y blwch sylwadau isod: ....35
Amdanoch chi ....36
Rhowch eich cod post llawn isod (e.e. CF10 4UW) ....36
Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf? ....36
A ydych chi'n… ....37
Ydych chi'n ystyried eich hun yn Drawsryweddol? ....37
Oes unrhyw blant yn byw ar eich aelwyd? ....37
Ydych chi'n feichiog, neu ydych chi wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf? ....37

Ydych chi'n rhoi gofal di-dâl i ffrind neu aelod o'r teulu sy'n anhwylus, sy'n anabl, sydd â phroblem iechyd meddwl neu sy'n gaeth i gyffur, nad ydyn nhw'n gallu ymdopi heb eich cymorth? ........................................................ 38

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau yr hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd? .............. 38

Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl? ........................................................ 38

Oes gennych chi fathodyn glas? ........................................................ 39

Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi: ........................................................ 39

Ydych chi neu aelod o'ch teulu yn uniaethu fel rhywun niwrowahanol? ............................ 39

Ydych chi'n ystyried eich bod yn perthyn i unrhyw grefydd benodol? ................................ 39

Sut byddech chi'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol? ........................................................ 40

Ydych chi'n: ........................................................ 40

Beth yw eich grŵp ethnig? ........................................................ 40

Atodiad A – Map o'r Arc Ddeheuol ........................................................ 42

Atodiad B – Os ydych chi'n teithio trwy'r ardal hon, beth yw eich **prif** reswm dros hyn? Dadansoddiad yn ôl demograffeg ........................................................ 43

Atodiad C – Pa ddull trafnidiaeth ydych chi'n ei ddefnyddio wrth ddefnyddio'r llwybr hwn? Dadansoddiad yn ôl demograffeg ........................................................ 44

Atodiad D – Pa mor hir ydych chi'n aros yn yr ardal fel arfer? Dadansoddiad yn ôl demograffeg ........................................................ 45

Atodiad E – Ydych chi'n teimlo y bydd symud ac uwchraddio'r feicffordd yn cael effaith gadarnhaol ar gerddwyr sy'n defnyddio'r llwybr hwn? Os nad ydych chi, dywedwch pam: . 46

Atodiad F – Fel cerddwr, ydych chi'n profi unrhyw anawsterau ar hyn o bryd wrth ddefnyddio unrhyw un o'r cyffyrdd canlynol? Os ydych chi'n profi anawsterau ar hyn o bryd, esboniwch beth ydyn nhw: ........................................................ 48

Atodiad G – Fel beiciwr, ydych chi'n profi unrhyw anawsterau ar hyn o bryd wrth ddefnyddio unrhyw un o'r cyffyrdd canlynol? Os ydych chi'n profi anawsterau ar hyn o bryd, eglurwch beth ydyn nhw (os oes problemau gyda mwy nag un gyffordd, esboniwch unrhyw bryderon penodol, gan gynnwys enw'r gyffordd). ........................................................ 50

Atodiad H – Ydych chi'n teimlo bod digon o gyfleusterau croesi ar gael i feicwyr ar hyd y llwybr hwn? Os nad, eglurwch pam: ........................................................ 52

Atodiad I – Gan feddwl am y cynnig i wahardd troi i'r dde i Goedlan Wordsworth, a ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig? Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam: ........................................................ 53

Atodiad J – Er mwyn lleihau'r anghyfleustra i'r traffig sy'n troi i'r dde i Goedlan Wordsworth, a fyddai newidiadau i Oxford Lane yn fuddiol, fel ei gwneud yn ddwyffordd? Ydych yn cefnogi'r newidiadau a gynigir? Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam: ........... 55

Atodiad K – A fyddai'r newidiadau ar gyffordd Piercefield Place yn fuddiol i chi? Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam: ........ 57

Atodiad L – Rhowch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych am y prosiect arfaethedig yn y blwch sylwadau isod: ........ 58

Atodiad M – Negeseuon e-bost a dderbyniwyd yn ystod yr ymgysylltiad: ........ 63

## Cyflwyniad

Mae'r cyngor yn datblygu Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd ac yn ymgysylltu ar Gam 1 y coridor hwn. Mae'r cynigion yn ffurfio rhan o lwybr ehangach Beicffordd 2 (BFf2) sy'n cael ei ddatblygu i gysylltu canol y ddinas â dwyrain Caerdydd a thu hwnt i ffin y sir â Chasnewydd.

Bydd Cam 1 y llwybr, ardal Canol y Ddinas, yn gwneud y 'feicffordd dros dro' bresennol yn barhaol. Bydd y cynigion ar gyfer Cam 1 yn gwella hygyrchedd i fysiau, beiciau a cherddwyr yn yr ardal.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried yr holl ymatebion ac adborth i'r arolwg ar-lein a dylid ei ddarllen ar y cyd â phrif Adroddiad Ymgysylltu y cynllun ar gyfer Cam 1.

Lansiwyd yr arolwg ar-lein ar 4 Gorffennaf 2025 a daeth i ben am hanner nos ar 17 Awst 2025.

## Methodoleg

- Datblygwyd arolwg dwyieithog gan dîm y Rhaglen Drafnidiaeth ar y cyd â Chanolfan Ymchwil Caerdydd.
- Roedd pecyn ymgysylltu ategol a phecyn gwybodaeth ehangach am y llwybrau ar gael ar-lein, gan ddarparu gwybodaeth gefndirol a chynnwys cyffredinol a alluogodd ymatebwyr i adolygu ac ymateb mewn perthynas â'r ymgysylltiad hwn. Roedd copïau caled o'r pecyn ar gael ar gais.
- Cafodd yr arolwg ei hyrwyddo ar-lein trwy gyfrifon Facebook, Twitter ac Instagram corfforaethol y Cyngor yn ystod tair wythnos gyntaf y cyfnod ymgysylltu.
- Anfonwyd llythyrau at drigolion a busnesau gydag ardal a bennwyd ymlaen llaw i roi gwybodaeth am y cynllun, sut i gael mynediad at y deunydd ymgysylltu a sut i ymateb. Rhoddwyd hysbysiadau safle ar golofnau goleuadau ar draws ardal y cynllun (Cam 1) hefyd, i roi gwybod am y cynllun i aelodau o'r cyhoedd a allai fyw neu weithio y tu allan i'r parth dosbarthu llythyrau. Darparwyd cod QR er mwyn hwyluso mynediad, yn ogystal â chyfarwyddiadau ysgrifenedig a'r dyddiad cau ar gyfer ymateb.
- Cynhaliwyd yr arolwg ar wefan y Cyngor, a'i hyrwyddo i weithwyr y Cyngor trwy DigiGov, y Fewnrwyd a Gwybodaeth i Staff.
- Roedd gan Aelodau Etholedig Lleol yr opsiwn i hyrwyddo'r arolwg yn eu hetholaethau.
- Wrth lansio'r ymgysylltiad, cerddodd aelodau'r tîm ar hyd y llwybr arfaethedig yn dosbarthu posteri i fusnesau lleol.
- Anfonwyd dolen i'r arolwg mewn e-bost at aelodau o'r Panel Dinasyddion[1] ac fe'i hanogwyd i roi eu barn.
- Derbyniwyd 7 e-bost; gellir gweld yr e-byst hyn yn Atodiad M.

[1]Mae'r Panel Dinasyddion yn cynnwys preswylwyr lleol o ardaloedd ledled Caerdydd sydd wedi cytuno i roi eu barn ar nifer o bynciau ymgynghori drwy gydol y flwyddyn. Bydd aelodau'r panel yn rhannu eu barn trwy lenwi arolygon ac, o bryd i'w gilydd, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau eraill megis grwpiau ffocws, gweithdai neu fforymau.

## Canlyniadau

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn darparu crynodeb o'r holl ymatebion a dderbyniwyd i'r cwestiynau penodol a ofynnwyd yn yr arolwg ar-lein. Cyfeirir atynt yn unol â'r arolwg ar-lein mewn trefn rhifiadol.

Ar ôl glanhau a dilysu'r data, cafwyd 560 o ymatebion i'r arolwg.

Lle roedd data yn ddigon cadarn, mae'r ymatebion wedi'u dadansoddi yn ôl oedran, rhyw, cefndir ethnig, statws anabledd, LHDTC+, plant yn y cartref, a, lle bo'n berthnasol, y dull trafnidiaeth a ddefnyddir wrth deithio drwy'r ardal.

Ar ben hynny, mae'r dadansoddiad yn ymgorffori ymatebion gan drigolion o fewn 'Arc Ddeheuol' Caerdydd, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol: Adamsdown, Butetown, Caerau, Treganna, Trelái, Grangetown, Llanrhymni, Glan-yr-afon, Tredelerch, y Sblot a Trowbridge. (Gweler y map yn Atodiad A.)

**Cyflwynwyd y pum cwestiwn isod i bawb a gymerodd rhan yn yr ymgysylltiad. Roedd yr ymatebion a roddwyd i gwestiwn 5 yn penderfynu pa gwestiynau canlynol yr oedd yn ofynnol i bob ymatebydd eu hateb.**

## C1. Ydych chi wedi darllen y pecyn ymgysylltu sydd ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/projectautrafnidiaeth?

Cymerodd y mwyafrif (95.5%) o'r ymatebwyr yr amser i ddarllen y pecyn ymgysylltu cyn cwblhau'r ymgysylltiad.

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydw | 535 | 95.5 |
| Nac ydw | 25 | 4.5 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **560** | **100.0** |

## C2. Ydych chi'n breswylydd lleol?

Dewisodd tua dau o bob tri (65.7%) o gyfranogwyr yr opsiwn '***Rwy'n byw yng Nghaerdydd ond y tu allan i'r tair ardal uchod***.' Roedd un o bob pedwar (24.6%) o'r ymatebwyr yn drigolion lleol (24.6%).




## Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, nodwch y sefydliad isod:

Cafwyd dau ymateb gan sefydliadau, sydd i'w gweld isod:

- BIP Caerdydd a'r Fro
- Monzo

## C3. Pa mor aml ydych chi'n teithio ar hyd y llwybr hwn?

Mae tri o bob pedwar (75.9%) o ymatebwyr yn teithio drwy'r ardal o leiaf unwaith yr wythnos. Mae hyn yn cynnwys 29.2% sy'n gwneud hynny bob dydd.




## C3a. Arall, rhowch fanylion

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddewisodd *'**Arall**'* nodi pa mor aml y maen nhw'n teithio drwy'r ardal.

Derbyniwyd cyfanswm o 13 o sylwadau; gellir gweld y rhain isod:

- Bob 3 wythnos, ar gyfartaledd.
- Teithio ar hyd rhan o'r llwybr ar y bws i ganol y ddinas. Teithio yn y car yn achlysurol iawn.
- Bob ychydig wythnosau mae angen i mi fynd i Fae Caerdydd ac rwy'n defnyddio'r llwybr beicio ar Blas Dumfries.
- Ar gyfer teithiau penodol nad ydynt yn gysylltiedig â chymudo.
- Weithiau rwy'n beicio adref drwy ganol y ddinas i Dredelerch neu'n defnyddio'r bws neu, yn anaml, y car (adegau tawel).
- Rwy'n defnyddio bysus i fynd i'r dref ar ddiwrnodau rwy'n mynd i'r swyddfa gan fy mod yn gweithio gartref yn bennaf.
- Roeddwn i'n arfer cymudo bob dydd ar hyd y llwybr hwn tan yn ddiweddar.
- Rwy'n cerdded o Ffordd y Brenin i Gilgant Eglwys Andreas.
- Teithio achlysurol, yn dibynnu a ydym yn teithio fel teulu neu beth rydym yn bwriadu ei wneud.
- Ar y ffordd i weld ffrindiau.
- Dim ond yn defnyddio'r llwybr hwn pan fydd yn gwbl angenrheidiol i mi wneud hynny!
- Weithiau ar y bws i'r orsaf drenau. Weithiau i fynd i apwyntiadau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd.
- Yn anaml iawn.

Mae bron i naw o bob deg (87.7%) o ymatebwyr dan 35 oed yn teithio drwy'r ardal o leiaf unwaith yr wythnos; mae hyn 30 pwynt canran yn uwch na'u cymheiriaid 55+ oed (57.7%).




Dangosir meintiau sylfaen mewn cromfachau.

**{Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau â meintiau sylfaen isel}**

### C4. Os ydych chi'n teithio trwy'r ardal hon, beth yw eich prif reswm dros hyn?

Nododd y cyfranogwyr mai ***'Hamdden / Siopa'*** (42.2%) oedd y prif reswm dros deithio drwy'r ardal.

Mae 41.1% o unigolion yn defnyddio'r llwybr i deithio i'r gwaith, gan gynnwys 24.3% sy'n cymudo o fewn ardal Canol y Ddinas.



## Os 'Arall', rhowch fanylion:

Gofynnwyd i ymatebwyr a ddewisodd ***'Arall'*** nodi eu prif reswm dros deithio drwy'r ardal.

Derbyniwyd cyfanswm o 33 o sylwadau; gellir gweld y sylwadau hyn ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod:

| Thema | Nifer | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|
| Dibenion gwaith | 14 | – Gweithio gan fy mod i'n yrrwr dosbarthu.<br>– Hyfforddwr gyrru felly mae'n rhaid defnyddio car.<br>– Gweithio fel cludwr. |
| Apwyntiadau personol | 7 | – Deintydd.<br>– Apwyntiadau iechyd. |
| Ymarfer corff | 6 | – Hyfforddiant chwaraeon.<br>– Beicio i Gasnewydd. |
| Amrywiol | 13 | – Mynd i Benarth neu Fae Caerdydd.<br>– Meindiwch eich busnes.<br>– Mynd i grwpiau cefnogwyr cymunedol. |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **33** | |

O'u hystyried yn ôl dadansoddiad demograffig, roedd y canlyniadau'n cyd-fynd ar y cyfan â'r canfyddiadau cyffredinol. Fodd bynnag, roedd rhai gwahaniaethau amlwg:

- Mae pobl dan 35 oed ddwywaith yn fwy tebygol na'r rhai 55+ oed o fod yn ***'Cymudo i'r gwaith (y tu allan i ardal Canol y Ddinas)'*** (17.9% ac 8.8% yn y drefn honno).
- Roedd pobl dan 35 oed dair gwaith yn fwy tebygol na'r rhai 55+ oed o fod yn ***'Cymudo i'r gwaith (o fewn ardal Canol y Ddinas)'*** (35.8% a 10.1% yn y drefn honno).
- Ymatebwyr 55+ oed oedd yr unig grŵp lle nododd dros hanner ohonynt (56.0%) ***'Hamdden / Siopa'*** fel rheswm pam eu bod yn teithio drwy'r ardal. Mae hyn 21.4 pwynt canran yn uwch na'u cymheiriaid o dan 35 oed (34.6%).

Mae dadansoddiad llawn i'w weld yn Atodiad B.

## C5. Pa ddull trafnidiaeth ydych chi'n ei ddefnyddio wrth ddefnyddio'r llwybr hwn?

Roedd 65.0% o ymatebwyr yn defnyddio ceir, gan eu gwneud dros ddwywaith mor boblogaidd ag unrhyw ddull trafnidiaeth arall ar gyfer y llwybr hwn.




*D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.*

## C5a. Arall, rhowch fanylion

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddewisodd ***'Arall'*** nodi'r dull trafnidiaeth maen nhw'n ei ddefnyddio wrth deithio ar hyd y llwybr hwn.

Derbyniwyd cyfanswm o bum ymateb; gellir gweld y rhain isod:

- Amrywiaeth yn dibynnu ar beth rydw i'n ei wneud a pha mor bell rydw i'n mynd - cerdded, beicio, bws a char.
- Sgwter symudedd x 2.
- Tacsi.
- Cadair olwyn.

Yn gyson â'r canfyddiadau cyffredinol, ***'Car'*** oedd y prif ddull trafnidiaeth ar draws pob is-grŵp.

Fodd bynnag, gwelwyd rhai gwahaniaethau amlwg ar draws y grwpiau demograffig gwahanol:

- Mae pobl dan 35 oed fwy na dwywaith yn fwy tebygol o ***'Gerdded'*** o'i gymharu â'u cymheiriaid 55+ oed (36.2% a 14.2% yn y drefn honno).
- Ac eithrio unigolion sydd â phlentyn yn y cartref (13.5%), mae o leiaf un rhan o chwech o bob is-grŵp arall yn defnyddio ***'Bws'*** ar y llwybr hwn.

Mae dadansoddiad llawn i'w weld yn Atodiad C.

## C6. Pa mor hir ydych chi'n aros yn yr ardal fel arfer?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn teithio ar feic modur, fan, car neu gerbyd trydanol y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Mae tua un o bob tri (34.0%) fel arfer yn aros yn yr ardal am hyd at awr. Ar y llaw arall, mae dau o bob tri (66.1%) yn aros fwy nag awr, gan gynnwys 15.0% sydd fel arfer yn aros am fwy na thair awr.




Roedd y canfyddiadau'n gyson ar y cyfan ar draws pob is-grŵp, ac eithrio ar gyfer ymatebwyr benywaidd. Y grŵp hwn oedd yr unig is-grŵp lle arhosodd llai nag un o bob pump o unigolion (17.5%) am 60 munud neu lai.

Mae dadansoddiad llawn i'w weld yn Atodiad D.

## C7. Os ydych chi'n defnyddio cerbyd modur, ble ydych chi'n parcio yn yr ardal?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn teithio ar feic modur, fan, car neu gerbyd trydanol y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Nododd y mwyafrif (36.2%) o'r ymatebwyr *'**Rwy'n teithio drwodd yn unig**'*.

O'r rhai sy'n parcio yn yr ardal, *'**Talu ac aros ar ffyrdd ger Neuadd y Ddinas**'* oedd y dewis mwyaf poblogaidd, a ddewiswyd gan oddeutu un o bob pump (21.4%) o ymatebwyr.




*D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.*

## C7a. Arall, rhowch fanylion

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddewisodd *'**Arall**'* nodi ble yn yr ardal maen nhw'n parcio.

Derbyniwyd cyfanswm o 107 o sylwadau, a rhoddwyd y rhain mewn grwpiau yn ôl lleoliad. Gellir gweld y rhain isod:

| Lleoliad | Nifer | % |
|---|---|---|
| Parcio yn y Gweithle | 25 | 23.4 |
| Meysydd Parcio Canolfannau Siopa a Manwerthu | 21 | 19.6 |
| Parcio ar y Stryd | 19 | 17.8 |
| Amhenodol | 12 | 11.2 |
| Mannau Parcio Preswyl Preifat neu Ddynodedig | 9 | 8.4 |
| Parcio Cleient neu Safle-Benodol | 5 | 4.7 |
| Meysydd Parcio NCP | 5 | 4.7 |
| Maes Parcio Prifysgol neu Goleg | 4 | 3.7 |
| Llwytho / Dosbarthu / Aros Dros Dro | 3 | 2.8 |
| Mannau Parcio Bathodyn Glas / i Bobl Anabl / i Ofalwyr | 3 | 2.8 |
| Parcio y Tu Allan i Ganol y Ddinas | 2 | 1.9 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **107** | **-** |

Mae seilwaith bysus a mesurau blaenoriaeth bysus yn cael eu hystyried ar lefel rhwydwaith. Ar hyd y llwybr, rydym yn adolygu ac yn gwella cyfleusterau i gerddwyr ac yn rhoi gwersi a ddysgwyd ar waith. Bydd blaenoriaeth bysus i mewn ac allan o'r ddinas yn cael ei gwella, gyda safleoedd bws yn cael eu hadolygu a'u diweddaru. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio deunyddiau gwahanu parhaol, mannau croesi, gwella'r safleoedd bws, newidiadau i'r briffordd, ac ailddyrannu lonydd. Rydym wedi gweithio gyda'n rhanddeiliaid hygyrchedd a gweithredwyr bysus i lywio lleoliad safleoedd bws a'u dyluniad.

### C8. Ydych chi'n teimlo y bydd y mesurau arfaethedig yn eich annog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn teithio ar fws y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Mae bron i dri o bob pump (57.0%) o ymatebwyr yn teimlo y bydd y mesurau arfaethedig yn eu hannog i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn amlach.




**Oherwydd meintiau sylfaen isel, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad yn ôl is-grwpiau.**

Bydd y safleoedd bws ar ochr ogleddol Heol Casnewydd yn ymgorffori ynysoedd safle bws lle bo hynny'n bosibl. Mae lôn fysus yn cael ei datblygu ar Heol y Plwca (ymgysylltir ar hyn ar wahân).

### C9. Wrth feddwl am ynysoedd safle bws wrth ymyl llwybrau beicio, ydych chi'n meddwl y bydd hyn yn gweithio'n dda?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn teithio ar fws y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Dewisodd un o bob pump (21.1%) o ymatebwyr *'**Rwy'n credu eu bod nhw'n gweithio'n dda**'.*

Fodd bynnag, nododd dau o bob pump (40.6%) o ymatebwyr *'**Rwy'n credu bod angen rhagor o arwyddion a llinellau i amlygu'r llwybr beicio**'.*




**Oherwydd meintiau sylfaen isel, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad yn ôl is-grwpiau.**

Ar hyd y llwybr, rydym yn adolygu ac yn gwella cyfleusterau i gerddwyr. Rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid amrywiol fel rhan o'r broses ddylunio. Fel rhan o'r cynllun hwn, rydym yn cynnig gwaredu tanffordd Boulevard De Nantes a'i disodli â chyfleuster croesi 'un-lefel'. Bydd cael gwared ar y danffordd yn darparu llinell weld glir rhwng Neuadd y Ddinas a Heol Tŷ'r Brodyr, a gallai'r gofod gael ei droi'n ardal gymunedol a allai wella ansawdd bywyd i rai, denu twristiaeth, gwella mynediad i Erddi Tŷ'r Brodyr a chael ei defnyddio fel gofod digwyddiadau tymhorol newydd.

## C10. A fyddai'r gwelliannau hyn yn eich annog i gerdded yn amlach yn yr ardal hon?

**Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bob ymatebydd.**

Mae bron i dri o bob deg (28.5%) o ymatebwyr yn teimlo y byddai'r gwelliannau hyn yn eu hannog i gerdded yn amlach yn yr ardal.

Fodd bynnag, dywedodd yr un gyfran (28.3%) y byddent yn debygol o gerdded llai, gan gynnwys 21.1% a ddywedodd y byddent yn llawer llai tebygol o gerdded.



Adroddodd pump allan o'r wyth is-grŵp a ddadansoddwyd gyfran uwch o ymatebwyr yn nodi y byddent yn cerdded mwy, yn hytrach na llai. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith cyfranogwyr sy'n cerdded yn yr ardal ar hyn o bryd, gyda dros hanner (53.7%) yn dweud y byddai'r gwelliannau arfaethedig yn eu gwneud yn fwy tebygol o gerdded yno'n amlach ('llawer mwy tebygol' ac 'ychydig yn fwy tebygol' gyda'i gilydd).

Dywedodd dros draean o'r ymatebwyr sydd â phlentyn yn y tŷ a/neu'r rhai sy'n gyrru yn yr ardal ar hyn o bryd y byddai'r gwelliannau yn eu gwneud yn llai tebygol o gerdded yn yr ardal (34.5% a 34.2% yn y drefn honno).




Dangosir meintiau sylfaen mewn cromfachau.

**{Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau â meintiau sylfaen isel}**

## C11. Ydych chi'n teimlo y bydd symud ac uwchraddio'r feicffordd yn cael effaith gadarnhaol ar gerddwyr sy'n defnyddio'r llwybr hwn?

**Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bob ymatebydd.**

Mae dros un o bob tri (35.2%) o gyfranogwyr yn teimlo y bydd symud ac uwchraddio'r feicffordd yn cael effaith gadarnhaol ar gerddwyr sy'n defnyddio'r llwybr hwn. Fodd bynnag, mae hyn yn cynyddu i ddau o bob pump (40.5%) pan gaiff ymatebion 'Ddim yn gwybod' eu heithrio o'r dadansoddiad.




O'u hystyried yn ôl demograffeg, dim ond dau o'r wyth is-grŵp a nododd fod mwyafrif yn credu y bydd yr uwchraddiadau yn cael effaith gadarnhaol. Yn debyg i'r cwestiwn blaenorol, cyfranogwyr sy'n cerdded yn yr ardal ar hyn o bryd oedd â'r ganran uchaf o ran cael barn gadarnhaol am y cynnig (66.7%).

Dim ond un o bob pedwar (25.5%) o ddefnyddwyr ceir sy'n teimlo y bydd yr uwchraddiadau yn cael effaith gadarnhaol.




Dangosir meintiau sylfaen mewn cromfachau. Mae'r canlyniadau yn eithrio ymatebion 'Ddim yn gwybod'.

**{Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau â meintiau sylfaen isel}**

### C11a. Os nad ydych chi, dywedwch pam:

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a atebodd 'Nac ydw' roi rhesymau dros eu cred na fyddai adleoli neu uwchraddio'r feicffordd yn cael effaith gadarnhaol ar gerddwyr sy'n defnyddio'r llwybr.

Derbyniwyd cyfanswm o 250 o sylwadau. Cafodd y sylwadau hyn wedyn eu trefnu'n themâu; gellir gweld y tair prif thema ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod.

Mae dadansoddiad llawn o themâu a sylwadau enghreifftiol ar gael yn Atodiad E.

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Tanddefnyddio'r seilwaith beicio presennol / niferoedd isel o feicwyr | 73 | 29.2 | – Nid yw pobl yn defnyddio'r lonydd beiciau sydd ar gael ar hyn o bryd.<br>– Prin y mae beicwyr yn defnyddio'r lonydd beicio sydd ar gael.<br>– Nid oes llawer o bobl yn beicio.<br>– Dydw i ddim wedi gweld llawer o feicwyr yn defnyddio'r llwybr hwn beth bynnag! |
| Ymddygiad beicwyr a thorri rheolau | 56 | 22.4 | – Mae beicwyr eisoes yn dangos diffyg parch i gerddwyr ac yn anwybyddu bron pob rheol traffig fel y mynnant.<br>– Mae beicwyr yn ddeddf i'w hunain ac yn disgwyl i gerddwyr symud allan o'u ffordd.<br>– Rwy'n teimlo bod llawer o feicwyr yn anwybyddu goleuadau coch ac nid yw gorfod croesi llwybr beicio yn beth da. |
| Risgiau o ran diogelwch i gerddwyr | 50 | 20.0 | – Mae cerddwyr bellach yn gorfod croesi ffordd brysur gyda ffordd feicio felly mae mwy o berygl o gael eich taro.<br>– Anaml y bydd beicwyr sy'n cymudo yn stopio wrth groesfannau, gan ei wneud yn fwy peryglus o lawer i gerddwyr.<br>– Mae achosion trwch blewyn rhwng beicwyr a cherddwyr yn digwydd yn aml yn barod. |

## C12. Fel cerddwr, ydych chi'n profi unrhyw anawsterau ar hyn o bryd wrth ddefnyddio unrhyw un o'r cyffyrdd canlynol?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn cerdded y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (39.1%) nad oedd ganddynt unrhyw anawsterau gydag unrhyw un o'r cyffyrdd a restrwyd.

Fodd bynnag, nododd un o bob deg eu bod yn cael anawsterau gydag o leiaf un o'r opsiynau, gyda ***'cyffordd Heol y Gogledd / Boulevard De Nantes'*** a/neu ***'cyffordd Plas y Parc / Boulevard De Nantes'*** yn achosi'r rhan fwyaf o broblemau (y ddau yn 28.1%).

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Nid wyf yn profi unrhyw anawsterau wrth ddefnyddio unrhyw un o'r cyffyrdd | 50 | 39.1 |
| Cyffordd Heol y Gogledd / Boulevard de Nantes | 36 | 28.1 |
| Cyffordd Plas y Parc / Boulevard de Nantes | 36 | 28.1 |
| Cyffordd Plas Dumfries / Rhodfa'r Orsaf | 34 | 26.6 |
| Cyffordd Heol Casnewydd / Llwyn y Gorllewin | 33 | 25.8 |
| Cyffordd Heol y Plwca / Heol Glossop | 33 | 25.8 |
| Cyffordd Heol Fitzalan / Heol Casnewydd | 25 | 19.5 |
| Cyffordd Plas Windsor | 22 | 17.2 |
| Cyffordd Coedlan Wordsworth / Heol Casnewydd | 17 | 13.3 |
| Cyffordd Piercefield Place / Heol Casnewydd | 15 | 11.7 |
| Croesfan Llwyn y Dwyrain / Plas Howard | 12 | 9.4 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **128** | **-** |

*D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.*

## C12a. Os ydych chi'n profi anawsterau ar hyn o bryd, esboniwch beth ydyn nhw:

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn cael anawsterau wrth unrhyw gyffordd nodi'r rhain.

Derbyniwyd cyfanswm o 61 o sylwadau. Cafodd y sylwadau hyn wedyn eu trefnu'n themâu; gellir gweld y tair prif thema ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod / drosodd.

Mae dadansoddiad llawn o themâu a sylwadau enghreifftiol ar gael yn Atodiad F.

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Aros am amser hir wrth groesfannau | 23 | 37.7 | – Amseroedd croesi hir iawn.<br>– Blaenoriaethu ceir sy'n golygu aros hir i gerddwyr.<br>– Mae'r goleuadau cerddwyr yn cymryd rhy hir i ymateb ac mae aros hir bob tro. |
| Traffig cyflym neu fygythiol | 18 | 29.5 | – Ar lawer o'r strydoedd ochr rhwng cyffordd Heol y Plwca a'r darn wrth Heol y Frenhines mae ceir yn teithio ar gyflymder amhriodol a dydyn nhw ddim yn ystyried cerddwyr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | – Mae ceir yn dod yn sydyn iawn a dydyn nhw ddim yn talu llawer o sylw. |
| Dylunio gwael | 16 | 26.2 | – Mae ongl y groesfan yn teimlo'n lletchwith. Mae cerddwyr yn aros am amser hir. A bydd ychwanegu lôn feicio at y gymysgedd yn sicr o ychwanegu mwy o oedi at hynny.<br>– Mae'n hewl ofnadwy i'w chroesi gyda'r llwybrau beicio presennol. |

**Mae sylwadau am broblemau penodol ynghylch cyffyrdd wedi cael eu hanfon at dîm y prosiect.**

## C13. Fel cerddwr, ydych chi'n teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio isffordd / tanffordd Ffordd y Brenin?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn cerdded y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Mae tri o bob pump (59.5%) o ymatebwyr yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio isffordd / tanffordd Ffordd y Brenin. Mae hyn yn cynnwys 21.3% sy'n teimlo'n ddiogel iawn.




**Oherwydd meintiau sylfaen isel, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad yn ôl is-grwpiau.**

## C14. Ydych chi'n teimlo bod digon o gyfleusterau croesi ar gael ar hyd y llwybr hwn?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn cerdded y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Mae tri o bob pump (59.3%) o gyfranogwyr yn teimlo bod digon o gyfleusterau croesi ar gael ar hyd y llwybr.




**Oherwydd meintiau sylfaen isel, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad yn ôl is-grwpiau.**

## C14a. Os nad ydych chi, dywedwch pam:

Gofynnwyd i ymatebwyr a nododd nad yw cyfleusterau croesi ar hyd y llwybr yn ddigonol esbonio pam. Derbyniwyd cyfanswm o 33 sylw; gellir gweld y rhain isod / drosodd:

- Gweld pobl yn croesi'r ffordd yn hytrach na defnyddio'r isffordd drwy'r amser.
- Oherwydd ei fod yn cael ei ddominyddu gan geir! Dylai hwn fod yn lle cyhoeddus i bobl yn enwedig o ystyried yr adeiladau dinesig a'r cyrchfannau twristaidd ym mhrifddinas Cymru.
- Oherwydd bod y groesfan nesaf 5 munud i ffwrdd ar droed, ac mae'r llwybr cerdded cliriaf o dan goed a heb oleuadau felly nid yw'n ddiogel iawn.
- Oherwydd mai'r danffordd yw'r unig opsiwn croesi ger neuadd y ddinas.
- Mae ceir yn cael blaenoriaeth dros gerddwyr ac mae cerdded yn yr ardal yn anghyfleus.
- Byddai rhagor o groesfannau ar hyd Heol Casnewydd yn fuddiol, gan ei fod yn gallu bod yn dipyn o daith gerdded rhwng y rhai presennol. Yn enwedig wrth groesi rhwng ochr y Rhath ac ochr y Sblot/Adamsdown.
- Mae croesfannau yn aml yn cynnwys 2 gam sy'n gwneud teithiau'n hirach nag sydd angen. Dydw i ddim yn teimlo awydd i gerdded o Lwyn y Gorllewin i Blas Howard i wneud fy nghroesiad yn haws.
- Dylai croesfannau fod yn gyflymach, canolbwyntio mwy ar gerddwyr, a chael eu lleoli mewn mannau lle mae galw amdanynt.
- O'r cof, dim ond gan ddefnyddio'r isffordd y mae modd croesi. Er bod hyn yn ôl pob tebyg yn well ar gyfer llif traffig, mae'r isffyrdd braidd yn llwm.
- Rwy'n credu bod y danffordd yma'n iawn mewn gwirionedd, gan ei bod yn llydan, wedi'i goleuo'n dda, ac wedi'i gorchuddio â murluniau. Pe bai modd ychwanegu planhigion sy'n byw mewn golau isel, byddai'n berffaith, ond rwy'n selog dros blanhigion felly ychydig yn rhagfarnllyd! Mae'n rhwystredig mai'r unig opsiynau croesi sydd gennych yma yw hwn neu'r groesfan gyfyng ac araf ar Blas y Parc.
- Nid yw'n amlwg sut i groesi – yn enwedig i dwristiaid sy'n dod i ganol y ddinas ar gyfer digwyddiadau, sydd efallai ddim yn ymwybodol bod tanffordd yno. Byddai croesfan fwy amlwg i gerddwyr a beicwyr ar lefel y ddaear sy'n rhoi blaenoriaeth iddynt, e.e. croesfan sebra, yn welliant mawr.
- Pellteroedd mawr rhwng mannau croesi.
- Nid oes gan nifer o ganghennau'r cyffyrdd hyn groesfannau hyd yn oed. Dylai canol dinas dwys roi'r flaenoriaeth uchaf i symudiadau cerddwyr.
- Dim digon.
- Dim digon o groesfannau ar ffordd brysur iawn.
- Gweld pobl yn croesi ar lefel y stryd yn aml, sy'n ychwanegu at gyffordd gymhleth rhwng traffig ffyrdd a beiciau.
- Dim ond wrth rai cyffyrdd a dydyn nhw ddim yn blaenoriaethu cerddwyr a beicwyr, felly rydych chi'n croesi cyn y dyn gwyrdd yn y diwedd.
- Mae'r ffordd yn rhy lydan ac yn rhy gyflym; mewn mannau mae'r ffordd yn 6 lôn o led sy'n hurt am ffordd sy'n mynd yn syth trwy ganol y ddinas sy'n brysur ac yn llawn cerddwyr.
- Dylai fod yn un wrth gyffordd Ffordd y Gogledd i gyrraedd y parc.

- Dylai'r ardal fod yn ganolbwynt i ganol y ddinas, fodd bynnag mae'r ffordd brysur yn gwneud i gerddwyr deimlo fel rhwystrau annymunol. Yn ddelfrydol, dylai Boulevard de Nantes fod yn dair neu bedair lôn o led ar y mwyaf (lôn i'r ddau gyfeiriad ynghyd â chwpl o lonydd bysus) er mwyn blaenoriaethu pobl yn hytrach na cheir.
- Ni allai'r cyngor glymu carrai esgid hyd yn oed pe baent yn trio.
- Mae nifer y croesfannau yn ddigonol yn ofodol, ond nid felly yn amserol; gall gymryd amser hir i gael cyfle i groesi. Bydd hyn yn gwaethygu os ceir gwared â'r danffordd.
- Dyma'r unig groesfan – byddai'n rhaid i chi gerdded cymaint ymhellach fel arall, felly er bod y danffordd yn gallu teimlo'n anniogel, mae'n gyflymach o lawer i gyrraedd yr amgueddfa/neuadd y ddinas.
- Mae'r danffordd yn dda iawn er mwyn croesi'r ffordd yn gyflym. Dydw i ddim eisiau gorfod stopio ac aros am geir. Rydw i o blaid croesfan ond mae cael gwared ar y danffordd yn ymddangos fel gwario arian i gael gwared ar nodwedd ddefnyddiol. Cadwch y danffordd a'r groesfan newydd – bydd hynny'n arbed arian ac yn fuddiol i fwy o bobl!
- Mae pobl ddigartref neu bobl sy'n defnyddio cyffuriau yn y danffordd yn aml.
- Nid oes digon o groesfannau ar y gyffordd rhwng Plas y Parc a'r Boulevard.
- Mae 2 groesfan o fewn 100m.
- Dim ond un twnnel sydd yna... Peidiwch â chroesi yn y nos.
- Yn syml, nid oes digon o groesfannau.
- Maen nhw'n llwybrau eithaf cymhleth a hir i'w cymryd.
- Dyw'r danffordd ddim yn teimlo'n ddiogel ar ôl iddi dywyllu neu os oes llai o bobl o gwmpas, ac mae'n rhaid i chi fynd yn eithaf pell o'ch ffordd i fynd o'i chwmpas.
- Er fy mod i'n teimlo'n ddiogel, rwy'n adnabod ffrindiau benywaidd na fyddant yn defnyddio'r danffordd.
- Mae angen i bwy bynnag sy'n gweithio yn yr adran gynllunio ddarllen am Lwybrau Dymunol. Y drafferth yw, gyda'r holl darmac, allwch chi ddim gweld ble byddai'n well gan bobl gerdded. Mae angen gwyrddni arnom nid mwy o darmac. Beth am fwy o goed i wahanu'r ceir oddi wrth y bobl ar balmentydd llawer ehangach?

**Ydw i'n dal yn gallu cael mynediad i Blas Howard neu Lwyn y Dwyrain?**

Bydd Plas Howard a Llwyn y Dwyrain ar gau i draffig trwodd gyda chroesfan newydd ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Dim ond beicwyr a cherddwyr fydd yn gallu cael mynediad i'r ffyrdd hyn o Heol Casnewydd gan y byddant yn cael eu cau i gerbydau ar y pwynt hwn. Bydd traffig cerbydau ond yn gallu cael mynediad i Blas Howard o Lôn Heol Casnewydd a Gerddi Howard, a Llwyn y Dwyrain o'r Parêd. Bydd y mesurau hyn yn helpu i leihau gwrthdaro rhwng cerbydau a defnyddwyr sy'n agored i niwed.

### C15. A fyddai'r gwelliannau wrth gyffordd Plas Howard / Llwyn y Gorllewin yn fuddiol i chi?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn cerdded y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Byddai'r gwelliannau wrth gyffordd Plas Howard / Llwyn y Gorllewin yn fuddiol i bron i saith o bob deg (68.4%) o ymatebwyr.




**Oherwydd meintiau sylfaen isel, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad yn ôl is-grwpiau.**

## C16. Ydych chi'n teimlo y bydd y llwybr beicio parhaol neu'r gwelliannau arfaethedig eraill yn eich annog i ddefnyddio'r ardal yn fwy ar feic?

**Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bob ymatebydd.**

Mae tri o bob deg (30.9%) o gyfranogwyr yn teimlo y byddai'r cynigion yn eu gwneud yn fwy tebygol o feicio, gan gynnwys 21.9% sy'n teimlo y byddant yn llawer mwy tebygol.

Fodd bynnag, mae un o bob pedwar (24.7%) yn teimlo y byddant yn llai tebygol o feicio, gan gynnwys 21.5% a fyddai'n llawer llai tebygol.



Adroddodd pump allan o'r wyth is-grŵp a ddadansoddwyd gyfran uwch o ymatebwyr yn nodi y byddent yn beicio mwy, yn hytrach na llai. Roedd hyn yn arbennig o amlwg ymhlith cyfranogwyr sy'n beicio yn yr ardal ar hyn o bryd, gyda dros bedwar o bob pump (81.8%) yn dweud y byddai'r gwelliannau arfaethedig yn eu gwneud yn fwy tebygol o feicio yno'n amlach (‘llawer mwy tebygol’ ac ‘ychydig yn fwy tebygol’ gyda'i gilydd).

Y cyfranogwyr sy'n gyrru yn yr ardal ar hyn o bryd a/neu'r rhai sydd â phlentyn yn y tŷ oedd y ddau grŵp a ddychwelodd, yn gymesurol, y lefelau uchaf o ymatebwyr a fyddai'n beicio llai (31.0% a 30.4% yn y drefn honno).




Dangosir meintiau sylfaen mewn cromfachau.

**{Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau â meintiau sylfaen isel}**

## C17. Ydych chi'n teimlo y bydd newid y feicffordd i'r ochr ogleddol yn gwella eich taith?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn beicio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Mae dros dri o bob pedwar (77.9%) o ymatebwyr yn teimlo y bydd symud y feicffordd i'r ochr ogleddol yn gwella eu taith.




**Oherwydd meintiau sylfaen isel, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad yn ôl is-grwpiau.**

## C17a. Os nad, eglurwch pam:

Gofynnwyd i gyfranogwyr nad oeddent yn credu y byddai symud y feicffordd i'r ochr ogleddol yn gwella eu taith roi eu rhesymau pam. Derbyniwyd cyfanswm o 25 sylw; gellir gweld y rhain isod / drosodd:

- Oherwydd ni fydd! Does dim rheswm da i newid yr ochr. Siawns eu bod nhw wedi meddwl yn ofalus pa ochr sydd orau y tro cyntaf?! Mae lleihau'r ochr arall i un lôn ar gyfer traffig modur yn chwerthinllyd. Y cyfan sydd ei angen mewn gwirionedd yw meddwl yn ofalus am amseriadau'r goleuadau traffig.
- Mae'r lôn feicio yn ddiwerth – edrychwch ar y traffig ar hyn o bryd ac yna tynnwch lôn er budd reidwyr Deliveroo a gwelwch faint yn waeth fydd hi.
- Dyw beicffordd ar un ochr o'r ffordd ddim yn gweithio. Dydyn nhw ddim wedi gweithio mewn ardaloedd eraill o Gaerdydd – dydyn nhw ddim yn cael eu defnyddio gan nad ydyn nhw wedi'u cysylltu'n dda i ni fel beicwyr, felly rydyn ni'n defnyddio'r ffordd a chroesfannau i gerddwyr sy'n anniogel ac yn rhwystredig i bawb.
- Ar gyfer teithiau o'r dwyrain i'r gorllewin fe fydd yn debyg iawn, ond bydd yn llawer anoddach cyrraedd Heol Knox ac ardal y carchar / Adamsdown.
- Yn gyffredinol, rwy'n beicio i ganol y ddinas yma, felly mae'n ei gwneud hi'n fwy anghyfleus cyrraedd canol y ddinas gan eich bod chi'n sownd ar yr ochr anghywir. Pe bai'n haws gadael ac ymuno â'r lôn feicio wrth groesfannau a chyffyrdd, hyd yn oed i gyfeiriadau lle nad oes lôn feiciau, byddai'n helpu, fel y groesfan arfaethedig ar Boulevard de Nantes. Mae angen cadw beiciau a cherddwyr ar wahân hefyd, er mwyn osgoi gwrthdaro a risg mewn ardaloedd prysur.

- Mae diogelu’r llwybr ar yr ochr ogleddol yn bendant yn gam cadarnhaol i drigolion Cathays a'r Rhath. Bydd cael gwared ar y lôn ar yr ochr ddeheuol yn cael effaith andwyol ar unrhyw un sy'n dod o Adamsdown. Gyda'r cynnig, os byddaf yn teithio allan i Heol Casnewydd o Adamsdown, byddaf yn cael fy ngorfodi i ymuno â'r traffig ceir, gan gynyddu gwrthdaro a risg i mi fy hun, ac arafu traffig i yrwyr. Byddai cadw llwybr beicio ar ddwy ochr Heol Casnewydd yn atal hyn.
- Rwy'n beicio'n rheolaidd; does dim ots pa ochr o'r ffordd yw llwybr beicio. Mae'n dibynnu'n llwyr ar ba gyfeiriad rydych chi'n mynd. Ond rydw i wedi sylwi, pan fydd ffyrdd beicio yn cymryd lle ar y ffordd, mae'n achosi mwy o dagfeydd ac yn cynyddu teimladau gwrth-feicio. Fy newis i yw peidio â'u defnyddio a bod yn rhan o lif traffig arferol.
- Dydw i ddim yn meddwl y bydd yn gwneud llawer o wahaniaeth un ffordd neu'r llall. Rwy'n falch bod y groesfan groeslinol hurt yn Llwyn y Gorllewin yn cael ei thynnu, mae hynny'n help mawr. Fodd bynnag, rwy'n aml yn dechrau neu'n gorffen fy nhaith yng nghanol y ddinas (gan adael ar hyd Plas y Parc neu Blas Windsor), a bydd hynny’n anoddach gyda'r llwybr ar ochr ogleddol y ffordd.
- Dydw i ddim yn meddwl bod yr ochr ogleddol neu ddeheuol yn gwneud gwahaniaeth. Y peth pwysig yw cael lôn feicio sy'n gyflawn o'r dechrau i'r diwedd ac nid mewn rhannau, felly rwy'n hoffi'r cynnig hwn. Y rhan sydd ar goll yw beth sy'n digwydd os oes angen i mi feicio o gwmpas cefn y dref ger y carchar. Ble mae'r lôn feicio?
- Rwy'n ymuno â Heol Casnewydd o Rodfa'r Orsaf naill ai ar feic neu mewn car, felly dim manteision gwirioneddol. Ond mae'r marciau arfaethedig yn glir iawn.
- Rwy'n credu y bydd beicwyr yn fwy tueddol o ddefnyddio'r lôn fysus sy'n mynd tuag at y dref.
- Rwy'n credu y bydd y lôn feicio yn fwy peryglus na beicio ar y ffordd, felly byddaf yn ei hosgoi.
- Bydd angen i mi groesi drosodd ac yn ôl yn amlach gyda'r llwybr beicio ar yr ochr ogleddol.
- Rwy'n gweithio ar Heol y Brodyr Llwydion, ac mae'n ymddangos nad yw hwn yn cynnwys unrhyw ddarpariaeth ar gyfer ei chyrraedd o'r gorllewin.
- Dydw i ddim yn siŵr beth sy'n cael ei ennill ohono. Ni fydd yn fy atal i rag ei ddefnyddio. Rwy’n credu bod ei gwneud hi'n haws i feicwyr troi i'r dde i Heol y Gogledd o Boulevard de Nantes yn gwneud synnwyr gan nad yw hynny'n opsiwn "swyddogol" ar hyn o bryd, ond dydw i ddim yn siŵr a yw hynny'n golygu bod angen symud y lôn feicio gyfan. Ond hefyd, dydw i ddim yn meddwl y bydd hynny’n cael effaith andwyol ar fy nhaith chwaith, felly ewch amdani :D
- Dyw e ddim yn gwneud gwahaniaeth i mi pa ochr rwy'n beicio arni cyn belled â bod y goleuadau'n newid ar gyflymder rhesymol, hyd yn oed yn hwyr yn y nos ac mae'n hawdd a bod digon o amser i droi i'r ffordd mae gorsaf Heol y Frenhines arni gan fod y goleuadau yno’n newid yn gyflym ac mae angen beicio i fyny’r rhiw.
- Mae'n fuddiol bod ar yr ochr ddeheuol gan mai dyma lle mae'r rhan fwyaf o'r amwynderau fel siopau a chaffis wedi'u lleoli. Mae'n caniatáu gadael y llwybr beicio yn hawdd i gael mynediad atynt. Gallai gorfod croesi atal hyn.
- Nid yw ar yr un ochr o'r ffordd â'r amwynderau ac ni fyddai mor syml penderfynu ymweld â siopau neu gaffis sydd ar ochr ddeheuol y ffordd yn bennaf.
- Mae'n ymddangos ei fod yn amser teithio hirach ac i ffwrdd o Heol y Frenhines. Gobeithio y bydd yn atal beicwyr rhag mynd i lawr Heol y Frenhines.

- Nid yw'n glir o'r cynlluniau hyn a fydd y llwybr beicio ar yr ochr ddeheuol yn cau, ond mae'r cwestiwn hwn yn awgrymu y bydd. Y brif broblem gyda'r llwybrau beicio hyn yw gallu mynd o ochr ogleddol y ffordd i'r ochr ddeheuol, ac felly mae angen lonydd ar y ddwy ochr er diogelwch beicwyr a gyrwyr.
- Mwy tebygol o gael mynediad at gyfleusterau ar yr ochr ddeheuol.
- Dim gwahaniaeth i mi.
- Unwaith eto, byddai lleoliad y llwybr beicio yn yr ardaloedd hyn yn dueddol o arwain at gerddwyr yn ei ddefnyddio fel palmant. Unwaith eto, rwy'n awgrymu rhyw fath o rwystr i atal damweiniau rhag digwydd.
- Dydych chi ddim yn glanhau'r llwybrau beicio. Mae llawer o bobl yn cael tyllau yn eu teiars, felly fydda i a llawer o fy ffrindiau ddim yn eu defnyddio oherwydd hyn.

## C18. Ble yn yr ardal ydych chi fel arfer yn parcio'ch beic?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn beicio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Nododd yr ymatebwyr ***'Ei gloi i stondin feiciau (stondin Sheffield)'*** (51.1%) fel y lle y byddent yn fwyaf tebygol o barcio eu beic. Dilynwyd hyn gan ***'Dod â'r beic i mewn i'r swyddfa / siop / gweithle'*** (40.1%) a ***'Ei storio gartref'*** (34.3%).

Ni ddywedodd unrhyw ymatebwyr y byddent yn ***'Gadael y beic heb ei gloi'***.




*D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.*

## Os 'Arall', rhowch fanylion:

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddewisodd 'Arall' nodi ble yn yr ardal maen nhw'n parcio eu beic. Derbyniwyd cyfanswm o chwe sylw; gellir gweld y rhain isod:

- Dydw i ddim yn gadael fy meic yng nghanol y ddinas gan y bydd yn cael ei ddwyn.
- Ym mhobman.
- Dydw i ddim fel arfer yn defnyddio'r beic ar gyfer "cymudo", dim ond ymarfer corff trwy'r ardal. Mae cerddwyr yn camu allan o'm blaen yn rheolaidd. Mae llwybrau a rennir yn boen. Fel fy mod i'n aml yn symud yn ôl i'r ffordd ar hyn o bryd.

- Falch o weld canol y ddinas yn cael mannau parcio beiciau diogel – mae angen ehangu hyn i ganolfannau ardal hefyd.
- Tueddol o ddefnyddio The Bike Lock Cafe ar gyfer unrhyw le ger y ganolfan goffi.
- Fel arfer, dim ond pasio drwodd ydw i.

## C19. Fel beiciwr, ydych chi'n profi unrhyw anawsterau ar hyn o bryd wrth ddefnyddio unrhyw un o'r cyffyrdd canlynol?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn beicio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Roedd beicwyr, fel cerddwyr, gan amlaf yn cael trafferth wrth gyffyrdd ***'Plas y Parc / Boulevard de Nantes'*** (46.0%) a ***'Heol y Gogledd / Boulevard de Nantes'*** (44.4%).

Nododd mwy na thraean o feicwyr ***'cyffordd Heol y Plwca / Heol Glossop'*** a/neu ***'gyffordd Heol Fitzalan / Heol Casnewydd'*** fel meysydd sy'n peri pryder (35.5% a 34.7% yn y drefn honno).

Dywedodd llai nag un o bob pump o feicwyr (17.7%) nad oeddent wedi cael unrhyw anawsterau wrth gyffyrdd, o'i gymharu â 39.1% o gerddwyr – gwahaniaeth o 21.4 pwynt canran.

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Cyffordd Plas y Parc / Boulevard de Nantes | 57 | 46.0 |
| Cyffordd Heol y Gogledd / Boulevard de Nantes | 55 | 44.4 |
| Cyffordd Heol y Plwca / Heol Glossop | 44 | 35.5 |
| Cyffordd Heol Fitzalan / Heol Casnewydd | 43 | 34.7 |
| Cyffordd Plas Dumfries / Rhodfa'r Orsaf | 36 | 29.0 |
| Cyffordd Heol Casnewydd / Llwyn y Gorllewin | 35 | 28.2 |
| Cyffordd Plas Windsor | 32 | 25.8 |
| Cyffordd Coedlan Wordsworth / Heol Casnewydd | 26 | 21.0 |
| Cyffordd Piercefield Place / Heol Casnewydd | 26 | 21.0 |
| Nid wyf yn profi unrhyw anawsterau wrth ddefnyddio unrhyw un o'r cyffyrdd | 22 | 17.7 |
| Croesfan Llwyn y Dwyrain / Plas Howard | 18 | 14.5 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **124** | **100.0** |

*D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.*

## C19a. Os ydych chi'n profi anawsterau ar hyn o bryd, eglurwch beth ydyn nhw (os oes problemau gyda mwy nag un gyffordd, esboniwch unrhyw bryderon penodol, gan gynnwys enw'r gyffordd).

Gwahoddwyd ymatebwyr i roi adborth ynghylch unrhyw anawsterau y maent yn eu hwynebu ar unrhyw un o'r cyffyrdd sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn uchod.

Derbyniwyd cyfanswm o 89 o sylwadau. Cafodd y sylwadau hyn wedyn eu trefnu'n themâu; gellir gweld y tair prif thema ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod / drosodd.

Mae dadansoddiad llawn o themâu a sylwadau enghreifftiol ar gael yn Atodiad G.

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhyngweithiadau anniogel â cherddwyr | 27 | 30.3 | – Brawychus. Gwelais rywun yn cael ei daro drosodd ar y lôn feicio yr wythnos o'r blaen, o Heol Knox. Rwy'n ofni am fy mywyd.<br>– Mae gyrwyr yn dal i yrru hyd yn oed ar olau coch – poeni am gael fy nharo gan gar/bws/lori.<br>– Cerddwyr yn croesi ar yr adeg anghywir. Ceir yn torri ar draws heb edrych am feiciau ger blaen neuadd y ddinas. |
| Amseroedd aros hir wrth oleuadau traffig | 26 | 29.2 | – Mae'r amseroedd aros wrth y goleuadau traffig yn llawer rhy hir. Mae wir yn arafu fy nhaith. O ystyried mai dim ond ychydig eiliadau sydd eu hangen ar feicwyr, ac nad oes eu hangen drwy'r amser, rwy'n credu y gellid slotio signal i feicwyr yn amlach yn y dilyniant pan fo angen. Mae cyffordd Llwyn y Gorllewin a chyffordd Heol Glossop yn enwedig o rwystredig.<br>– Aros gormodol am oleuadau traffig.<br>– Cymryd oesoedd i droi'n wyrdd. |
| Anhawster ymuno a gadael y lonydd beicio | 19 | 21.3 | – Cyrraedd Parc Bute o'r rhwydwaith ffyrdd. Does dim ffordd syml o fynd o'r ffordd i'r parc.<br>– Nid yw'n glir sut i ymuno'n ddiogel â'r lôn feicio wrth ddod o gyfeiriad Plas y Parc<br>– Cyffordd Heol y Gogledd / Boulevard De Nantes: anodd ymuno â'r llwybr beicio sy'n mynd i'r de o Heol y Gogledd. |

**Mae sylwadau am broblemau penodol ynghylch cyffyrdd wedi cael eu hanfon at dîm y prosiect.**

## C20. Fel beiciwr, ydych chi'n teimlo'n ddiogel yn defnyddio isffordd / tanffordd Ffordd y Brenin?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn beicio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Mae tua hanner (51.5%) o feicwyr yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio isffordd / tanffordd Ffordd y Brenin.




**Oherwydd meintiau sylfaen isel, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad yn ôl is-grwpiau.**

## C21. Ydych chi'n teimlo bod digon o gyfleusterau croesi ar gael i feicwyr ar hyd y llwybr hwn?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn beicio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Mae dau o bob pump (40.4%) yn teimlo bod digon o gyfleusterau croesi ar gael i feicwyr ar hyd y llwybr hwn.




**Oherwydd meintiau sylfaen isel, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad yn ôl is-grwpiau**

## C21a. Os nad, eglurwch pam:

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd o'r farn nad oes digon o groesfannau ar gael ar hyd y llwybr esbonio pam.

Derbyniwyd cyfanswm o 60 o sylwadau. Cafodd y sylwadau hyn wedyn eu trefnu'n themâu; gellir gweld y tair prif thema ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod.

Mae dadansoddiad llawn o themâu a sylwadau enghreifftiol ar gael yn Atodiad H.

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Diffyg cysylltedd ac integreiddiad llwybrau | 22 | 36.7 | – Mae cyswllt allweddol ar goll yn cysylltu'r llwybr beicio i lawr wrth y gylchfan hud o gyfeiriad Heol Casnewydd. Mae'n golygu bod angen beicio ar balmentydd a rennir lle nad oes digon o le.<br>– Mae angen iddi fod yn bosibl ymuno neu adael y feicffordd o unrhyw bwynt ar hyd y llwybr. Ni ddylai pobl orfod mynd allan o'u ffordd i groesi'r ffordd.<br>– Anodd gwybod ble mae'r lle gorau i groesi ar gyfer Stryd Clifton. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Diffyg pwyntiau ymuno / ymadael diogel a chlir | 16 | 26.7 | – Nid oes bob amser ffordd ddiogel o adael ac ymuno â'r feicffordd pan fyddwch yn ceisio cyrraedd strydoedd gwahanol oddi ar y llwybr hwn.<br>– Anodd cyrraedd Plas Windsor o Heol Senghennydd. |
| Croesfannau annigonol neu wedi'u cynllunio'n wael | 13 | 21.7 | – Nid yw'r croesfannau i gerddwyr yn addas ar gyfer beiciau.<br>– Nid yw bob amser yn glir ble ddylech chi fod yn croesi. Weithiau mae cwrbyn lle rydych chi am groesi. |

## C22. A fyddai’r gwelliannau wrth gyffordd Plas Howard / Llwyn y Gorllewin yn fuddiol i chi?

**Dim ond i ymatebwyr a nododd yn C5 eu bod yn beicio y gofynnwyd y cwestiwn hwn.**

Byddai’r gwelliannau’n fuddiol i dros bedwar o bob pump (86.0%) o feicwyr.

Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 17.6 pwynt canran o'i gymharu â chyfradd ymateb cerddwyr (68.4%) pan gyflwynwyd yr un cwestiwn iddynt.




**Oherwydd meintiau sylfaen isel, ni chynhaliwyd unrhyw ddadansoddiad yn ôl is-grwpiau.**

## Cwestiynau mynediad ar gyfer Coedlan Wordsworth a Piercefield Place

Bydd Piercefield Place yn cael ei rwystro i draffig trwodd ond bydd mynediad i feicwyr (hidlydd moddol). Bydd traffig yn cael troi i'r chwith i mewn ac allan o gyffordd Coedlan Wordsworth yn unig i wella diogelwch (chwith i mewn a chwith allan).

### C23. Gan feddwl am y cynnig i wahardd troi i'r dde i Goedlan Wordsworth, a ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig?

**Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bob ymatebydd.**

Mae dros draean (35.9%) o ymatebwyr o blaid y cynigion.

Fodd bynnag, mae dros ddau o bob pump (41.9%) o ymatebwyr yn gwrthwynebu, gan gynnwys 35.8% sy'n gwrthwynebu'r cynigion yn gryf.



Gwelwyd gwahaniaeth amlwg rhwng barn beicwyr a pherchnogion ceir mewn perthynas â'r cynnig hwn. Mynegodd mwy na thri chwarter o feicwyr (78.8%) gefnogaeth, tra bod llai nag un o bob pedwar perchennog car (23.8%) o blaid.




Dangosir meintiau sylfaen mewn cromfachau.

**{Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau â meintiau sylfaen isel}**

### C23a. Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam:

Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r newid esbonio pam.

Derbyniwyd cyfanswm o 191 o sylwadau. Cafodd y sylwadau hyn wedyn eu trefnu'n themâu; gellir gweld y tair prif thema ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod.

Mae dadansoddiad llawn o themâu a sylwadau enghreifftiol ar gael yn Atodiad I.

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Bydd y cynnig yn creu mwy o dagfeydd / Pryderon ynghylch y sefyllfa bresennol | 63 | 33.0 | – Bydd yn ychwanegu at y problemau traffig sydd eisoes yn sylweddol iawn.<br>– Mae'n dileu ffordd i droi a fydd wedyn yn achosi tagfeydd gan fydd angen i bobl droi yn rhywle.<br>– Bydd gwneud hon yn ffordd 'dim ffordd drwodd' yn gwneud traffig yn yr ardal yn waeth fyth, ac mae yna eisoes lawer o dagfeydd.<br>– Mae tagfeydd yn y ddinas yn barod. Mae rhwystro a chyfyngu strydoedd dim ond yn gwaethygu'r broblem honno. |
| Gwastraff arian / Dylid gwario arian yn rhywle arall. | 30 | 15.7 | – Mae cymaint o ardaloedd eraill sydd angen cyllid. Rydw i a fy ffrindiau sy'n beicio yn gwneud yn iawn fel ydyn ni. Gwariwch yr arian hwn ar feysydd mwy teilwng sydd mewn angen.<br>– Gwastraff arian. Gellid gwneud defnydd gwell o adnoddau os ydynt yn brin.<br>– Gwariwch yr arian ar ofalu am ffyrdd a phalmentydd ledled Caerdydd. Rydych chi wedi esgeuluso cynnal a chadw ffyrdd a phalmentydd ledled Caerdydd. Dylid mynd i'r afael â'u problemau nhw yn gyntaf. |
| Yn erbyn y cynigion yn gyffredinol / Mae'n iawn fel y mae | 24 | 12.6 | – Mae Caerdydd yn iawn fel y mae. Stopiwch wneud newidiadau di-bwynt.<br>– Mae'r gwaith hwn yn gwbl ddiangen.<br>– Mae'r lonydd yno yn iawn. Dydw i ddim yn talu treth gyngor iddi gael ei gwastraffu'n gyson ar bethau fel hyn. Mae Llafur Cymru wedi achosi dim byd ond anhrefn ar ffyrdd yn y ddinas gan achosi mwy o dagfeydd. |

**Gan feddwl am y cynnig i wahardd troi i'r dde i Goedlan Wordsworth**

Er mwyn lleihau'r anghyfleustra i'r traffig sy'n troi i'r dde i Goedlan Wordsworth, a fyddai newidiadau i Oxford Lane yn fuddiol, fel ei gwneud yn ddwyffordd?

C24. Ydych yn cefnogi'r newidiadau a gynigir?

**Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bob ymatebydd.**

Mae tua un o bob tri (34.6%) o ymatebwyr o blaid y cynigion. Fodd bynnag, mae bron i un o bob pedwar (23.2%) yn gwrthwynebu, gan gynnwys 20.0% sy'n gwrthwynebu'n gryf.



Fel gyda'r cwestiwn blaenorol, dangosodd beicwyr gefnogaeth sylweddol fwy i'r newidiadau arfaethedig o'i gymharu â pherchnogion ceir, gyda 52.6% o feicwyr o blaid o'i gymharu â 29.5% o berchnogion ceir.

**Er mwyn lleihau'r anghyfleustra i'r traffig sy'n troi i'r dde i Goedlan Wordsworth, a fyddai newidiadau i Oxford Lane yn fuddiol, fel ei gwneud yn ddwyffordd? Ydych yn cefnogi'r newidiadau a gynigir?**




## C24a. Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam:

Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r newid esbonio pam.

Derbyniwyd cyfanswm o 78 o sylwadau. Cafodd y sylwadau hyn wedyn eu trefnu'n themâu; gellir gweld y tair prif thema ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod.

Mae dadansoddiad llawn o themâu a sylwadau enghreifftiol ar gael yn Atodiad J.

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Yn erbyn y cynigion yn gyffredinol / Mae’n iawn fel y mae | 18 | 23.1 | – Diangen.<br>– Mae'n iawn fel y mae.<br>– Ni fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth. |
| Gwastraff arian / Dylid gwario arian yn rhywle arall. | 12 | 15.4 | – Mae'n wastraff arian. Gwariwch e ar les cymdeithasol.<br>– Gwariwch yr arian ar rywbeth sydd ei angen arnom, nid i hyrwyddo eich agenda dim ceir. |
| Bydd y cynnig yn creu mwy o dagfeydd. | 11 | 14.1 | – Bydd yn ychwanegu at y problemau traffig sydd eisoes yn sylweddol iawn.<br>– Mwy o dagfeydd. |

Bydd Piercefield Place yn cael ei rwystro i draffig trwodd ond bydd mynediad i feicwyr.

## C25. A fyddai'r newidiadau ar gyffordd Piercefield Place yn fuddiol i chi?

**Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bob ymatebydd.**

Mae un o bob tri (33.1%) o ymatebwyr o blaid y cynigion. Fodd bynnag, mae dros ddau o bob pump (42.3%) yn gwrthwynebu, gan gynnwys 35.8% sy'n gwrthwynebu'n gryf.




Yn unol â'r cwestiynau blaenorol, dangosodd beicwyr gefnogaeth sylweddol fwy i'r newidiadau arfaethedig o'i gymharu â pherchnogion ceir, gyda 74.5% o feicwyr o blaid o'i gymharu â 20.6% o berchnogion ceir.




## C25a. Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam:

Gofynnwyd i ymatebwyr nad oeddent yn cefnogi'r newid esbonio pam.

Derbyniwyd cyfanswm o 162 o sylwadau. Cafodd y sylwadau hyn wedyn eu trefnu'n themâu; gellir gweld y tair prif thema ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod.

Mae dadansoddiad llawn o themâu a sylwadau enghreifftiol ar gael yn Atodiad K.

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Bydd y cynnig yn creu mwy o dagfeydd / Pryderon ynghylch y sefyllfa bresennol | 28 | 17.3 | – Bydd yn ychwanegu at y problemau traffig sydd eisoes yn sylweddol iawn.<br>– Bydd tagfeydd yn cynyddu gan wrthweithio'r buddion awgrymedig.<br>– Rydych chi'n creu mwy o draffig a thagfeydd. |
| Gwrthwynebu triniaeth fwy ffafriol i feicwyr. | 19 | 11.7 | – Os yw'n cael ei rhwystro dylid ei rhwystro i bawb.<br>– Pam ydych chi'n trin beicwyr fel brenhinoedd? Maen nhw'n gorfforol abl. Triwch fynd yn hŷn a bod mewn poen a bod angen car.<br>– Ni ddylai beiciau gael y flaenoriaeth. |
| Yn erbyn y cynigion yn gyffredinol / Mae'n iawn fel y mae | 19 | 11.7 | – Does dim rheswm pam y dylid rhwystro'r ffordd hon. Ychydig iawn o draffig sy'n defnyddio'r gyffordd, felly dyw rhwystro'r ffordd ddim yn fuddiol i neb.<br>– Mae Caerdydd yn iawn fel y mae. Stopiwch wneud newidiadau di-bwynt.<br>– Stopiwch wneud llanast o'r ffyrdd. |

### C26. Rhowch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych am y prosiect arfaethedig yn y blwch sylwadau isod:

**Gofynnwyd y cwestiwn hwn i bob ymatebydd.**

Rhoddwyd cyfle i'r ymatebwyr roi sylwadau pellach ynglŷn â'r prosiect arfaethedig.

Derbyniwyd cyfanswm o 224 o sylwadau. Cafodd y sylwadau hyn wedyn eu trefnu'n themâu; gellir gweld y tair prif thema ynghyd â sylwadau enghreifftiol isod.

Mae dadansoddiad llawn o themâu a sylwadau enghreifftiol ar gael yn Atodiad L.

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Gwrthwynebiad cyffredinol i gynigion penodol | 48 | 21.4 | – Ychydig o broblemau sydd yn Piercefield Place ar hyn o bryd – dydw i ddim yn gweld unrhyw fudd o newid y trefniadau presennol.<br>– Rwy'n gwrthwynebu cau'r danffordd ger Neuadd y Ddinas, 100%. Rwy hefyd yn gwrthwynebu cau Piercefield Place i geir.<br>– Mae llenwi isffordd Ffordd y Brenin yn wallgof ac yn weithredol yn ei gwneud hi'n anoddach i gerddwyr groesi, ar yr un pryd â chostio ffortiwn! |
| Gwastraff arian / Dylid gwario arian yn rhywle arall. | 47 | 21.0 | – Mae'r prosiect cyfan yn wastraff arian trethdalwyr.<br>– Gyda chyflwr Caerdydd, ai dyma wir y defnydd gorau o'n trethi?<br>– Gwastraff arian. Gwariwch e ar les cymdeithasol. |
| Yn hapus gyda chynigion penodol yn yr ymgysylltiad yn gyffredinol | 35 | 15.6 | – Bydd y newidiadau hyn yn gwella'r profiad beicio ar hyd y llwybr ac yn ei wneud yn fwy diogel. Byddwn i a fy mhartner yn fwy tebygol o feicio'n fwy rheolaidd o ganlyniad.<br>– Rydw i wedi gweld traffig yn aml yn troi i'r dde allan o Piercefield Place ac yn gyrru ar ochr anghywir y ffordd i droi i mewn i Heol y Pedair Llwyfen. Gobeithio y bydd rhwystro'r ffordd hon i draffig trwodd yn atal hyn.<br>– Mae symud y lôn feicio ddwyffordd sy'n croesi Heol Knox yn syniad da. |

## Amdanoch chi

Mae'r adran hon o'r adroddiad yn rhoi crynodeb o ddemograffeg gymdeithasol y rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ar-lein. Mae'r wybodaeth hon yn bwysig gan ei bod yn darparu dealltwriaeth fanwl o nodweddion yr ymatebwyr.

### Rhowch eich cod post llawn isod (e.e. CF10 4UW)




### Beth oedd eich oed ar eich pen-blwydd diwethaf?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dan 16 | 0 | 0.0 |
| 16-24 | 27 | 4.9 |
| 25-34 | 136 | 24.5 |
| 35-44 | 107 | 19.3 |
| 45-54 | 100 | 18.1 |
| 55-64 | 81 | 14.6 |
| 65-74 | 64 | 11.6 |
| 75+ | 18 | 3.2 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 21 | 3.8 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **554** | **100.0** |

## A ydych chi'n…

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Benyw | 155 | 28.4 |
| Gwryw | 340 | 62.3 |
| Anneuaidd | 6 | 1.1 |
| Arall | 1 | 0.2 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 44 | 8.1 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **546** | **100.0** |

## Ydych chi'n ystyried eich hun yn Drawsryweddol?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydw | 9 | 1.7 |
| Nac ydw | 476 | 88.1 |
| Mae'n well gen i hunan-ddisgrifio | 2 | 0.4 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 53 | 9.8 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **540** | **100.0** |

## Oes unrhyw blant yn byw ar eich aelwyd?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Dim plant | 390 | 72.4 |
| Oes, dan 5 oed (cyn ysgol) | 50 | 9.3 |
| Oes, 5-11 oed (ysgol gynradd) | 58 | 10.8 |
| Oes, 11-16 oed (ysgol uwchradd) | 53 | 9.8 |
| Oes, 16-18 oed mewn addysg lawn amser neu'n gweithio | 25 | 4.6 |
| Oes, 16-18 oed ond ddim mewn addysg lawn amser nac yn gweithio | 7 | 1.3 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **539** | **-** |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai'r ymatebwyr ddewis sawl opsiwn.

## Ydych chi'n feichiog, neu ydych chi wedi rhoi genedigaeth yn ystod y 26 wythnos diwethaf?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydw, rydw i'n feichiog | 3 | 0.6 |
| Ydw, rydw i wedi rhoi genedigaeth | 5 | 0.9 |
| Nac ydw | 483 | 89.3 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 50 | 9.2 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **541** | **100.0** |

Ydych chi'n gofalu, yn ddi-dâl, am ffrind neu aelod o'r teulu na all, oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu ddibyniaeth, ymdopi heb eich cymorth?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Ydw | 51 | 9.4 |
| Nac ydw | 440 | 81.0 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 52 | 9.6 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **543** | **100.0** |

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio orau yr hyn yr ydych yn ei wneud ar hyn o bryd?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gweithio'n llawn amser (30+ awr yr wythnos) | 367 | 67.5 |
| Wedi ymddeol o'r gwaith yn gyfan gwbl | 84 | 15.4 |
| Gweithio'n rhan amser (llai na 30 awr yr wythnos) | 41 | 7.5 |
| Person â salwch parhaol neu berson anabl | 20 | 3.7 |
| Mewn addysg amser llawn | 14 | 2.6 |
| Gofalu am blentyn neu oedolyn | 6 | 1.1 |
| Di-waith – Heb gofrestru ond yn chwilio am waith | 5 | 0.9 |
| Mewn cytundeb gwaith dim oriau | 5 | 0.9 |
| Gofalu am y cartref | 4 | 0.7 |
| Di-waith – Wedi cofrestru fel Ceisiwr Gwaith | 1 | 0.2 |
| Ar gynllun hyfforddi gan y llywodraeth | 0 | 0.0 |
| Arall | 19 | 3.5 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **544** | **-** |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai'r ymatebwyr ddewis sawl opsiwn.

Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson anabl?

| | Nifer | % |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Ydw | 83 | 15.2 |
| Nac ydw | 412 | 75.5 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 51 | 9.3 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **546** | **100.0** |

## Oes gennych chi fathodyn glas?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Oes | 32 | 5.9 |
| Nac oes | 508 | 94.1 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **540** | **100.0** |

## Ticiwch unrhyw un o'r canlynol sy'n berthnasol i chi:

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (e.e. canser, diabetes neu asthma) | 84 | 36.8 |
| Amhariad symudedd | 51 | 22.4 |
| Anawsterau iechyd meddwl | 36 | 15.8 |
| Byddar / Wedi colli clyw / Trwm eich clyw | 34 | 14.9 |
| Amhariad / anawsterau dysgu | 13 | 5.7 |
| Amhariad ar y golwg | 8 | 3.5 |
| Defnyddiwr cadair olwyn | 5 | 2.2 |
| Arall | 12 | 5.3 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 72 | 31.6 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **228** | **-** |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un opsiwn.

## Ydych chi neu aelod o'ch teulu yn uniaethu fel rhywun niwrowahanol?

| | ✓ | | X | | Cyfanswm yr Ymatebwyr | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | % | Nifer | % | Nifer | % |
| Fi | 72 | 16.8 | 357 | 83.2 | 429 | 100.0 |
| Aelod o fy aelwyd | 85 | 20.2 | 336 | 79.8 | 421 | 100.0 |

## Ydych chi'n ystyried eich bod yn perthyn i unrhyw grefydd benodol?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Nac ydw, dim crefydd | 309 | 57.2 |
| Cristion (yn cynnwys yr Eglwys yng Nghymru, Catholig, Protestannaidd a phob enwad Cristnogol arall) | 153 | 28.3 |
| Hindŵ | 4 | 0.7 |
| Mwslim | 3 | 0.6 |
| Bwdhydd | 2 | 0.4 |
| Iddew | 2 | 0.4 |
| Sikh | 0 | 0.0 |
| Arall | 6 | 1.1 |
| Mae'n well gen i beidio ag ateb | 61 | 11.3 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **540** | **100.0** |

## Sut byddech chi'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Heterorywiol / Syth | 366 | 68.3 |
| Dyn Hoyw | 36 | 6.7 |
| Deurywiol | 29 | 5.4 |
| Menyw Hoyw / Lesbiad | 8 | 1.5 |
| Arall | 6 | 1.1 |
| Mae'n well gen i beidio ag ateb | 91 | 17.0 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **536** | **100.0** |

## Ydych chi'n:

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Priod | 222 | 41.7 |
| Sengl | 133 | 25.0 |
| Byw gyda rhywun / Cyd-fyw | 112 | 21.0 |
| Mewn partneriaeth sifil | 17 | 3.2 |
| Wedi gwahanu/ysgaru neu wedi gwahanu'n gyfreithiol os mewn Partneriaeth Sifil yn flaenorol | 15 | 2.8 |
| Gweddw | 8 | 1.5 |
| Arall | 26 | 4.9 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **533** | **100.0** |

## Beth yw eich grŵp ethnig?

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Gwyn – Cymreig / Seisnig / Albanaidd / Gogledd Iwerddon / Prydeinig | 424 | 78.7 |
| Gwyn – Gwyddelig | 7 | 1.3 |
| Gwyn – Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 0 | 0.0 |
| Gwyn – Unrhyw gefndir gwyn arall | 24 | 4.5 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn ac Asiaidd Cymreig / Prydeinig / Arall | 3 | 0.6 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn a Du Affricanaidd Cymreig / Prydeinig / Arall | 1 | 0.2 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Gwyn a Du Caribïaidd Cymreig / Prydeinig / Arall | 2 | 0.4 |
| Grwpiau Cymysg / Aml-ethnig – Unrhyw un arall | 6 | 1.1 |
| Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig – Bangladeshaidd | 2 | 0.4 |
| Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig – Tsieineaidd | 1 | 0.2 |
| Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig – Indiaidd | 5 | 0.9 |
| Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig – Pacistanaidd | 1 | 0.2 |
| Asiaidd / Asiaidd Cymreig / Prydeinig – Unrhyw un arall | 3 | 0.6 |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Cymreig / Prydeinig – Affricanaidd | 1 | 0.2 |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Cymreig / Prydeinig – Caribïaidd | 0 | 0.0 |
| Du / Affricanaidd / Caribïaidd / Du Cymreig / Prydeinig – Unrhyw un arall | 0 | 0.0 |
| Arabaidd | 0 | 0.0 |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 6 | 1.1 |
| Mae'n well gen i beidio â dweud | 53 | 9.8 |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **539** | **100.0** |

## Atodiad A – Map o'r Arc Ddeheuol



Atodiad B – Os ydych chi'n teithio trwy'r ardal hon, beth yw eich prif reswm dros hyn? Dadansoddiad yn ôl demograffeg

| | Pob ymatebwr (555) | Dan 35 (162) | 55+ (159) | Benyw (154) |
|---|---|---|---|---|
| Cymudo i'r gwaith (y tu allan i ardal Canol y Ddinas) | 16.8 | 17.9 | 8.8 | 15.6 |
| Cymudo i'r gwaith (o fewn ardal Canol y Ddinas) | 24.3 | 35.8 | 10.1 | 21.4 |
| Ymweld â phreswylydd | 6.3 | 6.2 | 8.8 | 8.4 |
| Hamdden / siopa | 42.2 | 34.6 | 56.0 | 40.9 |
| Digwyddiad | 1.4 | 1.2 | 3.1 | 2.6 |
| Addysg | 1.4 | 1.2 | 0.0 | 3.2 |
| Arall | 7.6 | 3.1 | 13.2 | 7.8 |
| Cyfanswm | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |

Dangosir meintiau sylfaen mewn cromfachau.

**{Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau â meintiau sylfaenol isel}**

| | Gwryw (336) | Yr Arc Ddeheuol (177) | Plentyn yn yr aelwyd (148) | Perchennog car (360) |
|---|---|---|---|---|
| Cymudo i'r gwaith (y tu allan i ardal Canol y Ddinas) | 16.4 | 19.2 | 20.3 | 18.9 |
| Cymudo i'r gwaith (o fewn ardal Canol y Ddinas) | 25.6 | 24.3 | 29.1 | 20.8 |
| Ymweld â phreswylydd | 6.3 | 8.5 | 4.7 | 7.5 |
| Hamdden / siopa | 43.8 | 37.3 | 37.8 | 42.5 |
| Digwyddiad | 1.2 | 1.7 | 1.4 | 0.8 |
| Addysg | 0.9 | 2.3 | 2.0 | 1.1 |
| Arall | 6.0 | 6.8 | 4.7 | 8.3 |
| Cyfanswm | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |

Dangosir meintiau sylfaen mewn cromfachau.

**{Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau â meintiau sylfaenol isel}**

## Atodiad C – Pa ddull trafnidiaeth ydych chi'n ei ddefnyddio wrth ddefnyddio'r llwybr hwn? Dadansoddiad yn ôl demograffeg

| | Pob ymatebwr (560) | Dan 35 (163) | 55+ (162) | Benyw (154) |
|---|---|---|---|---|
| Cerdded | 24.3 | 36.2 | 14.2 | 17.5 |
| Beic | 24.5 | 36.8 | 18.5 | 23.4 |
| Bws | 24.1 | 28.8 | 25.9 | 21.4 |
| Beic modur | 1.6 | 1.8 | 2.5 | 1.3 |
| Car | 65.0 | 55.2 | 67.3 | 70.1 |
| Fan | 3.6 | 3.1 | 2.5 | 0.0 |
| Cerbyd trydan | 4.1 | 1.2 | 4.9 | 3.2 |
| Trên | 3.2 | 3.7 | 3.1 | 2.6 |
| Arall | 0.9 | 0.0 | 1.9 | 1.9 |

Dangosir meintiau sylfaen mewn cromfachau.

**{Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau â meintiau sylfaenol isel}**

| | Gwryw (339) | Yr Arc Ddeheuol (178) | Plentyn yn yr aelwyd (148) | Perchennog car (364) |
|---|---|---|---|---|
| Cerdded | 26.3 | 26.4 | 18.2 | 17.9 |
| Beic | 26.3 | 32.6 | 18.2 | 12.1 |
| Bws | 24.5 | 25.8 | 13.5 | 17.0 |
| Beic modur | 2.1 | 2.2 | 0.7 | 1.6 |
| Car | 60.2 | 61.2 | 73.6 | 100.0 |
| Fan | 5.0 | 2.2 | 6.1 | 1.6 |
| Cerbyd trydan | 5.0 | 3.9 | 4.7 | 3.6 |
| Trên | 3.5 | 1.1 | 2.7 | 2.2 |
| Arall | 0.3 | 0.6 | 0.0 | 0.3 |

Dangosir meintiau sylfaen mewn cromfachau.

**{Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau â meintiau sylfaenol isel}**

## Atodiad D – Pa mor hir ydych chi'n aros yn yr ardal fel arfer? Dadansoddiad yn ôl demograffeg

| | Pob ymatebwr (327) | 55+ (129) | Gwryw (195) | Yr Arc Ddeheuol (100) | Perchennog car (217) |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyd at 15 munud | 10.1 | 10.9 | 13.3 | 6.0 | 8.3 |
| Hyd at 30 munud | 13.8 | 16.3 | 17.9 | 13.0 | 13.4 |
| Hyd at awr | 10.1 | 10.9 | 10.3 | 9.0 | 11.1 |
| Rhwng un a dwy awr | 29.1 | 31.8 | 31.3 | 33.0 | 30.0 |
| Rhwng dwy a thair awr | 22.0 | 17.1 | 16.4 | 22.0 | 19.8 |
| Mwy na thair awr | 15.0 | 13.2 | 10.8 | 17.0 | 17.5 |
| **Cyfanswm** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** | **100.0** |

Dangosir meintiau sylfaen mewn cromfachau.

**{Mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli canrannau â meintiau sylfaenol isel}**

Atodiad E – Ydych chi'n teimlo y bydd symud ac uwchraddio'r feicffordd yn cael effaith gadarnhaol ar gerddwyr sy'n defnyddio'r llwybr hwn? Os nad ydych chi, dywedwch pam:

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Tanddefnyddio'r seilwaith beicio presennol / niferoedd isel o feicwyr | 73 | 29.2 | – Nid yw pobl yn defnyddio'r lonydd beiciau sydd ar gael ar hyn o bryd.<br>– Prin y mae beicwyr yn defnyddio'r lonydd beicio sydd ar gael.<br>– Nid oes llawer o bobl yn beicio.<br>– Dydw i ddim wedi gweld llawer o feicwyr yn defnyddio'r llwybr hwn beth bynnag! |
| Ymddygiad beicwyr a thorri rheolau | 56 | 22.4 | – Mae beicwyr eisoes yn dangos diffyg parch i gerddwyr ac yn anwybyddu bron pob rheol traffig fel y mynnant.<br>– Mae beicwyr yn ddeddf i'w hunain ac yn disgwyl i gerddwyr symud allan o'u ffordd<br>– Rwy'n teimlo bod llawer o feicwyr yn anwybyddu goleuadau coch ac nid yw gorfod croesi llwybr beicio yn beth da. |
| Risgiau o ran diogelwch i gerddwyr | 50 | 20.0 | – Mae cerddwyr bellach yn gorfod croesi ffordd brysur gyda ffordd feicio felly mae mwy o berygl o gael eich taro.<br>– Anaml y bydd beicwyr sy'n cymudo yn stopio wrth groesfannau, gan ei wneud yn fwy peryglus o lawer i gerddwyr.<br>– Mae achosion trwch blewyn rhwng beicwyr a cherddwyr yn digwydd yn aml yn barod. |
| Gwariant cyhoeddus gwastraffus neu anaddas / Diffyg ymddiriedaeth ym mhenderfyniadau'r cyngor | 42 | 16.8 | – Gwastraff arian! Mae cynyddu'r dreth gyngor wrth hyd yn oed ystyried y rwtsh hwn yn gywilyddus.<br>– Rwy'n credu mai'r gwir reswm rydych chi'n cael gwared ar yr isffordd yw fel bod gan bobl ddigartref lai o leoedd i gael lloches yn ystod tywydd garw. Rhag eich cywilydd chi. Dylech ganolbwyntio mwy ar helpu pobl ddigartref i ddod oddi ar y strydoedd yn hytrach na gwario arian nad oes gennych chi ar bethau diangen fel hyn. Hollol gywilyddus. |
| Tagfeydd a tharfu ar lif traffig | 39 | 15.6 | – Mae pobl sy'n gerddwyr yn bennaf eisoes yn defnyddio'r ardal; ni fydd hyn yn cynyddu dim, ond bydd yn gwaethygu tagfeydd i geir.<br>– Rydych chi'n cael gwared ar isffordd berffaith dda a defnyddiadwy i greu croesfan i arafu llif y traffig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Lonydd beicio yn beryglus | 18 | 7.2 | – Dyw lonydd beicio ddim yn gweithio – os unrhyw beth, maen nhw'n fwy peryglus. Dylai beicwyr ddefnyddio ffyrdd fel arfer, gan fod yn ymwybodol o draffig.<br>– Mae'r llwybrau beicio hyd yn hyn yn annog beicwyr i gyflymu ac maen nhw'n berygl i gerddwyr. |
| Seilwaith eisoes yn ddigonol | 16 | 6.4 | – Oherwydd bod yr hyn sydd yno'n barod yn ddigonol ar gyfer faint o draffig beicio fydd byth yn ei ddefnyddio.<br>– Does dim byd o'i le gyda sut mae'n gweithio ar hyn o bryd. |
| Gwrthwynebu cael gwared ar isffyrdd | 11 | 4.4 | – Bydd cael gwared ar yr isffordd yn gwneud cerdded yn llai deniadol. |
| Prin neu ddim budd i gerddwyr | 9 | 3.6 | – Fe fydd o fudd i feicwyr, ond dim llawer o effaith ar gerddwyr. |
| Effaith ar gerddwyr sy'n agored i niwed | 8 | 3.2 | – Na, oherwydd nid yw cerdded bob amser yn opsiwn i bobl ac nid yw pawb eisiau cerdded i bobman. |
| Tegwch a blaenoriaethau ehangach | 6 | 2.4 | – Lleiafrif bach sy'n eu defnyddio. Gwellwch drafnidiaeth gyhoeddus a gwasanaethau parcio a theithio i gael effaith gadarnhaol ar y mwyafrif. |
| Galw am reoleiddio beicwyr | 6 | 2.4 | – Mae angen rheoleiddio beicwyr yn fwy o ran arferion beicio peryglus ym mhob rhan o'r ddinas. |
| Anghysondeb â phatrymau teithio lleol | 6 | 2.4 | – Rwy'n byw'n rhy bell a gyda phlant. Mae'n ei gwneud hi'n anoddach gwneud pethau o gwmpas yr ardal fel ymweld â'r amgueddfa. Ceisio gwneud gweithgareddau gyda phlentyn bach sy'n gwylltio ar drafnidiaeth gyhoeddus… dydych chi ddim yn helpu teuluoedd ifanc i fynd allan o'r tŷ. Rydyn ni'n byw yn Rhiwbeina lle mae bysus hefyd yn cael eu canslo neu eu gohirio'n rheolaidd, sy'n rheswm arall pam mae angen i ni yrru. |
| Teimladau gwrth-geir | 5 | 2 | – Cynnig hollol hurt. Mae polisïau gwrth-geir yn lladd y sector manwerthu a busnes yng Nghaerdydd! |
| Amrywiol | 22 | 8.8 | – Pam byddai e?<br>– Mae llawer o bobl wedi cael llond bol ar feicwyr ym mhobman. |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **250** | **-** | |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai sylwadau fod yn berthnasol i fwy nag un thema.

Atodiad F – Fel cerddwr, ydych chi'n profi unrhyw anawsterau ar hyn o bryd wrth ddefnyddio unrhyw un o'r cyffyrdd canlynol? Os ydych chi'n profi anawsterau ar hyn o bryd, esboniwch beth ydyn nhw:

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Aros am amser hir wrth groesfannau | 23 | 37.7 | – Amseroedd croesi hir iawn.<br>– Blaenoriaethu ceir sy'n golygu aros hir i gerddwyr.<br>– Mae'r goleuadau cerddwyr yn cymryd rhy hir i ymateb ac mae aros hir bob tro. |
| Traffig cyflym neu fygythiol | 18 | 29.5 | – Ar lawer o'r strydoedd ochr rhwng cyffordd Heol y Plwca a'r darn wrth Heol y Frenhines mae ceir yn teithio ar gyflymder amhriodol a dydyn nhw ddim yn ystyried cerddwyr.<br>– Mae ceir yn dod yn sydyn iawn a dydyn nhw ddim yn talu llawer o sylw. |
| Dyluniad trefol gwael neu gamleoli llwybrau a ffefrir | 16 | 26.2 | – Mae ongl y groesfan yn teimlo'n lletchwith. Mae cerddwyr yn aros am amser hir. A bydd ychwanegu lôn feicio at y gymysgedd yn sicr o ychwanegu mwy o oedi at hynny.<br>– Mae'n hewl ofnadwy i'w chroesi gyda'r llwybrau beicio presennol. |
| Diffyg blaenoriaeth i gerddwyr | 16 | 26.2 | – Mae'r ardal hon o'r dref yn ffafrio symudiadau cerbydau yn fawr, sy'n peryglu atyniad yr ardal i gerddwyr yn fawr. Dydw i ddim yn deall pam mae teithiau cerbydau o'r dwyrain i'r gorllewin yn cael eu hwyluso ar draul y profiad i gerddwyr.<br>– Ers rhy hir mae traffig wedi cael blaenoriaeth dros gerddwyr. |
| Croesfannau ar goll neu anghyflawn | 12 | 19.7 | – Nid oes croesfannau i gerddwyr ar bob un o'r pedair ffordd sy'n arwain at y gyffordd, dim ond ar dair ohonynt. Mae hyn yn blaenoriaethu anghenion gyrwyr.<br>– Mae Heol y Plwca yn hunllef i gerddwyr ar hyn o bryd. Ceir wedi'u parcio ar y palmant, gormod o geir a dim digon o fannau croesi. |
| Cynllun dryslyd neu ddynodiad llwybr gwael | 11 | 18.0 | – Ddim yn lle braf i groesi, ddim yn glir.<br>– Dyw cerdded o Blas y Parc i ganol y ddinas ger y castell ddim yn hawdd ar unrhyw lwybr. |
| Pwyntiau croesi rhy brysur neu gul | 10 | 16.4 | – Dylid caniatáu i gerddwyr groesi'r ffordd gyfan ar un tro. Mae ynysoedd i gerddwyr fel sydd wrth ymyl Sainsbury's yn ofnadwy ac mae'n edrych fel nad ydych chi'n bwriadu newid llawer. Mae'r ynys yn llawer rhy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | fach i bobl a dyw pobl ddim yn ei defnyddio'n gywir oherwydd ei bod hi'n ofnadwy. Ystyriwch gam yn y dilyniant lle gall cerddwyr groesi ar un tro.<br>– Mae'r ynysoedd yn rhy fach yn y canol ac yn rhy brysur yn fy marn i. Mae'r amser i groesi'r ddwy ffordd yn rhy hir gan ei fod ymddangos fod cerbydau yn cael blaenoriaeth. Byddai'n well gen i groesi'r gyffordd gyfan mewn un symudiad. |
| Ymddygiad beicwyr wrth gyffyrdd | 10 | 16.4 | – Yn anffodus, beicwyr sy'n methu â defnyddio beicffyrdd dynodedig a/neu'n anwybyddu goleuadau traffig yw'r broblem fel arfer.<br>– Rwy'n wyliadwrus wrth unrhyw groesfan i gerddwyr a reolir gan oleuadau oherwydd anaml y mae beicwyr yn stopio wrth olau coch, hyd yn oed pan fydd y goleuadau yn berthnasol i'r llwybr beicio. |
| Hygyrchedd | 7 | 11.5 | – Fel y gwyddoch, does dim croesfan yno ac mae'n rhaid i ni ddefnyddio'r isffordd. Rydyn ni'n aml yn yr ardal hon yn croesi'r gyffordd hon ac rwy'n credu y dylai fod croesfan ar y ddaear rhwng Ffordd y Brenin a Llys y Goron, a hefyd o ochr arall Heol y Gogledd, felly pan fyddwn ni'n dod o'r dref neu'n dod allan o Barc Bute tuag at orsaf Cathays, does dim rhaid i ni ddefnyddio'r isffordd. |
| Diffyg croesfannau dyrchafedig parhaus | 4 | 6.6 | – croesfan "groesgam". |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **61** | **-** | |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai sylwadau fod yn berthnasol i fwy nag un thema.

Atodiad G – Fel beiciwr, ydych chi'n profi unrhyw anawsterau ar hyn o bryd wrth ddefnyddio unrhyw un o'r cyffyrdd canlynol? Os ydych chi'n profi anawsterau ar hyn o bryd, eglurwch beth ydyn nhw (os oes problemau gyda mwy nag un gyffordd, esboniwch unrhyw bryderon penodol, gan gynnwys enw'r gyffordd).

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Rhyngweithiadau anniogel â cherddwyr | 27 | 30.3 | – Brawychus. Gwelais rywun yn cael ei daro drosodd ar y lôn feicio yr wythnos o'r blaen, o Heol Knox. Rwy'n ofni am fy mywyd.<br>– Mae gyrwyr yn dal i yrru hyd yn oed ar olau coch – poeni am gael fy nharo gan gar/bws/lori.<br>– Cerddwyr yn croesi ar yr adeg anghywir. Ceir yn torri ar draws heb edrych am feiciau ger blaen neuadd y ddinas |
| Amseroedd aros hir wrth oleuadau traffig | 26 | 29.2 | – Mae'r amseroedd aros wrth y goleuadau traffig yn llawer rhy hir. Mae wir yn arafu fy nhaith. O ystyried mai dim ond ychydig eiliadau sydd eu hangen ar feicwyr, ac nad oes eu hangen drwy'r amser, rwy'n credu y gellid slotio signal i feicwyr yn amlach yn y dilyniant pan fo angen. Mae cyffordd Llwyn y Gorllewin a chyffordd Heol Glossop yn enwedig o rwystredig.<br>– Aros gormodol am oleuadau traffig.<br>– Cymryd oesoedd i droi'n wyrdd. |
| Anhawster ymuno a gadael y lonydd beicio | 19 | 21.3 | – Cyrraedd Parc Bute o'r rhwydwaith ffyrdd. Does dim ffordd syml o fynd o'r ffordd i'r parc.<br>– Nid yw'n glir sut i ymuno'n ddiogel â'r lôn feicio wrth ddod o gyfeiriad Plas y Parc.<br>– Cyffordd Heol y Gogledd / Boulevard De Nantes: anodd ymuno â'r llwybr beicio sy'n mynd i'r de o Heol y Gogledd. |
| Pryderon diogelwch cyffredinol | 18 | 20.2 | – Traffig yn symud yn gyflym a cherbydau wedi parcio'n anghyfreithlon.<br>– Nid yw ceir bob amser yn sylweddoli bod beicwyr yn dod yn erbyn llif traffig ar ffordd ddeuol. |
| Lôn feicio yn dod i ben yn sydyn | 11 | 12.4 | – Diffyg ffordd feicio barhaus i gysylltu ag Elm Street.<br>– Mae gorfod gadael y feicffordd a chroesi'r ffordd i Sgwâr Eglwys Andreas yn heriol pan fo'r groesfan twcan yn brysur. |
| Cynlluniau cyffordd dryslyd | 9 | 10.1 | – O Blas Windsor, mae'n anodd iawn gwybod sut rydych chi i fod i groesi'n ddiogel i Gilgant Eglwys Andreas. |
| Lôn feicio yn newid ochr | 9 | 10.1 | – Dydw i erioed wedi hoffi'r ffaith bod y lonydd beicio yn newid o un ochr o'r ffordd i'r llall. Dylai'r cynnig hwn fynd i'r afael â'r hyn a oedd, yn fy marn i, yn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gamgymeriad mawr yn y cynllun gwreiddiol. Mae'r newidiadau yn edrych yn wych. |
| Synwyryddion yn methu wrth oleuadau | 7 | 7.9 | – Ar hyn o bryd mae gan y rhan fwyaf o'r cyffyrdd broblemau. Anaml y mae'r goleuadau traffig yn synhwyro beiciau felly mae'n rhaid i chi aros 2 neu 3 cham i gael golau gwyrdd. Dylent flaenoriaethu lonydd bysus a beiciau dros lonydd ceir, fel bod lonydd bysiau a beiciau yn mynd yn wyrdd wrth i chi agosáu atynt. |
| Diffyg seilwaith beicio | 7 | 7.9 | – Diffyg lonydd beicio ar Blas y Parc, Heol y Plwca a Heol Richmond. Diffyg llwybr clir o Heol y Gogledd i'r castell. |
| Amrywiol | 7 | 7.9 | – Mae traffig yn wael yn barod. |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **89** | **-** | |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai sylwadau fod yn berthnasol i fwy nag un thema.

## Atodiad H – Ydych chi'n teimlo bod digon o gyfleusterau croesi ar gael i feicwyr ar hyd y llwybr hwn? Os nad, eglurwch pam:

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Diffyg cysylltedd ac integreiddiad llwybrau | 22 | 36.7 | – Mae cyswllt allweddol ar goll yn cysylltu'r llwybr beicio i lawr wrth y gylchfan hud o gyfeiriad Heol Casnewydd. Mae'n golygu bod angen beicio ar balmentydd a rennir lle nad oes digon o le.<br>– Mae angen iddi fod yn bosibl ymuno neu adael y feicffordd o unrhyw bwynt ar hyd y llwybr. Ni ddylai pobl orfod mynd allan o'u ffordd i groesi'r ffordd.<br>– Anodd gwybod ble mae'r lle gorau i groesi ar gyfer Stryd Clifton. |
| Diffyg pwyntiau ymuno / ymadael diogel a chlir | 16 | 26.7 | – Nid oes bob amser ffordd ddiogel o adael ac ymuno â'r feicffordd pan fyddwch yn ceisio cyrraedd strydoedd gwahanol oddi ar y llwybr hwn.<br>– Anodd cyrraedd Plas Windsor o Heol Senghennydd. |
| Croesfannau annigonol neu wedi'u cynllunio'n wael | 13 | 21.7 | – Nid yw'r croesfannau i gerddwyr yn addas ar gyfer beiciau.<br>– Nid yw bob amser yn glir ble ddylech chi fod yn croesi. Weithiau mae cwrbyn lle rydych chi am groesi. |
| Problemau o ran signalau traffig a blaenoriaeth | 12 | 20.0 | – Wrth gyffyrdd goleuadau traffig, byddai'n ddefnyddiol pe bai gan bob llwybr, gan gynnwys Heol Casnewydd, oleuadau beicio i ddangos pryd mae'n ddiogel mynd ymlaen. E.e. Cyffordd Heol Casnewydd a Llwyn y Gorllewin – byddai goleuadau beicio ar Lwyn y Gorllewin yn ddefnyddiol.<br>– Cyfyngedig a dylid rhoi blaenoriaeth uwch. |
| Pryderon diogelwch a gwrthdaro â defnyddwyr eraill y ffordd | 10 | 16.7 | – Mae'n rhaid i chi aros mor hir wrth yr holl oleuadau, mae beicwyr yn mynd pan nad eu tro nhw yw e ac yn gorfod cystadlu â cheir ar y ffordd. Pam ydych chi'n rhoi lonydd beicio ym mhobman ond yn dal i flaenoriaethu ceir? |
| Ansawdd y seilwaith a chynnal a chadw | 6 | 10.0 | – Mae Caerdydd gyfan yn ddiffygiol i feicwyr – mae cyflwr y ffordd yn ofnadwy. |
| Adborth cadarnhaol neu optimistiaeth | 5 | 8.3 | – Rwy'n credu bod y cynlluniau newydd yn ymddangos i fynd i'r afael â llawer o broblemau. |
| Rhwystredigaeth gyffredinol neu sinigiaeth | 4 | 6.7 | – Mae'r Cyngor yn analluog. |
| Amrywiol | 1 | 1.7 | – Mae pobl ddigartref yn yr isffyrdd yn aml. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **60** | **-** | |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai sylwadau fod yn berthnasol i fwy nag un thema.

## Atodiad I – Gan feddwl am y cynnig i wahardd troi i'r dde i Goedlan Wordsworth, a ydych chi'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig? Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam:

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Bydd y cynnig yn creu mwy o dagfeydd / Pryderon ynghylch y sefyllfa bresennol | 63 | 33.0 | – Bydd yn ychwanegu at y problemau traffig sydd eisoes yn sylweddol iawn.<br>– Mae'n dileu ffordd i droi a fydd wedyn yn achosi tagfeydd gan fydd angen i bobl droi yn rhywle.<br>– Bydd gwneud hon yn ffordd 'dim ffordd drwodd' yn gwneud traffig yn yr ardal yn waeth fyth, ac mae yna eisoes lawer o dagfeydd.<br>– Mae tagfeydd yn y ddinas yn barod. Mae rhwystro a chyfyngu strydoedd dim ond yn gwaethygu'r broblem honno. |
| Gwastraff arian / Dylid gwario arian yn rhywle arall. | 30 | 15.7 | – Mae cymaint o ardaloedd eraill sydd angen cyllid. Rydw i a fy ffrindiau sy'n beicio yn gwneud yn iawn fel ydyn ni. Gwariwch yr arian hwn ar feysydd mwy teilwng sydd mewn angen.<br>– Gwastraff arian. Gellid gwneud defnydd gwell o adnoddau os ydynt yn brin.<br>– Gwariwch yr arian ar ofalu am ffyrdd a phalmentydd ledled Caerdydd. Rydych chi wedi esgeuluso cynnal a chadw ffyrdd a phalmentydd ledled Caerdydd. Dylid mynd i'r afael â'u problemau nhw yn gyntaf. |
| Yn erbyn y cynigion yn gyffredinol / Mae'n iawn fel y mae | 24 | 12.6 | – Mae Caerdydd yn iawn fel y mae. Stopiwch wneud newidiadau di-bwynt.<br>– Mae'r gwaith hwn yn gwbl ddiangen.<br>– Mae'r lonydd yno yn iawn. Dydw i ddim yn talu treth gyngor iddi gael ei gwastraffu'n gyson ar bethau fel hyn. Mae Llafur Cymru wedi achosi dim byd ond anhrefn ar ffyrdd yn y ddinas gan achosi mwy o dagfeydd. |
| Sylwadau am fod yn erbyn ceir | 20 | 10.5 | – Rydych chi eisiau cosbi gyrwyr o hyd ac o hyd.<br>– Rhyfel pur yn erbyn ceir yw hwn a dim byd arall. Mae'n ddibwys. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cynigion yn symud problemau i ardal arall | 13 | 6.8 | – Bydd pobl yn defnyddio Heol y Pedair Llwyfen fel trobwynt i fynd yn ôl i ganol y ddinas.<br>– Bydd yn cynyddu traffig wrth y troad nesaf. Rwy'n teithio o Laneirwg i gael mynediad i'r ffordd honno. Byddai'n rhaid i mi yrru i lawr i'r troad nesaf i gael mynediad iddi nawr. Mae'n symud y broblem ymlaen, yn hytrach na datrys y broblem. |
| Pryderon ynghylch effeithiau ar drigolion lleol | 13 | 6.8 | – O ystyried bod Coedlan Wordsworth yn ardal breswyl, ac nad oes unrhyw leoedd hawdd i droi rownd os ydych yn dod ati o gyfeiriad a fyddai'n gofyn am droi i'r dde i'r ffordd, mae hyn yn ymddangos fel syniad gwirion ac yn niweidiol i'r trigolion sy'n byw yno.<br>– Bydd yn effeithio ar breswylwyr yn ddiangen. |
| Defnydd lonydd beicio | 12 | 6.3 | – Dyw beicwyr ddim hyd yn oed yn defnyddio'r lonydd beicio newydd.<br>– Prin iawn y mae unrhyw un yn defnyddio lonydd beicio. Rwy'n eistedd mewn tagfeydd tra bod neb yn defnyddio'r lonydd beicio. Y MWYAFRIF sy'n bwysig. |
| Pryderon ynghylch seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus presennol / Prisiau | 9 | 4.7 | – Ni allwch orfodi pobl allan o'u ceir nes eich bod chi'n darparu trafnidiaeth gyhoeddus foddhaol. |
| Pryderon diogelwch | 8 | 4.2 | – Rhy gymhleth ac yn ôl pob tebyg yn llai diogel a chyfleus i bawb. Mae'n amlwg nad yw pwy bynnag feddyliodd am hyn yn adnabod yr ardal. |
| Effeithiau economaidd | 7 | 3.7 | – Bydd yn gwneud bywyd yn anodd iawn ac yn lleihau nifer yr ymwelwyr i'r busnesau sydd wedi'u lleoli yng nghanol y ddinas. |
| Cynyddu llygredd | 6 | 3.1 | – Bydd yn rhaid i bobl deithio heibio iddi a throi'n ôl ar eu hunain – gan achosi mwy o draffig i'r cyfeiriad i ffwrdd o'r dref, a mwy o lygredd. |
| Sylwadau negyddol am feicwyr | 5 | 2.6 | – Stopiwch ildio i feicwyr. Maen nhw eisoes yn berygl enfawr yn y ddinas. Llawer mwy peryglus nawr na cheir a bysus. Byddai'n well gen i weld beicwyr yn cael eu gwahardd o ganol y ddinas, yna byddwn i'n teimlo'n ddiogel. |
| Awgrymiadau | 4 | 2.1 | – Ni ddylai beicwyr gael blaenoriaeth. Goleuadau traffig efallai? |
| Pryderon am fynediad | 4 | 2.1 | – Angen mynediad i ysgol Sant Pedr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ni fydd y cynigion yn annog mwy o feicio | 2 | 1.0 | – Bydd yn ychwanegu at dagfeydd traffig ac ni fydd yn annog defnyddio beiciau! |
| Amrywiol | 19 | 9.9 | – Gormod o bwyslais ar feiciau. Mae'n annog pobl i beidio â cherdded a gyrru.<br>– Maen nhw'n rhy syml a heb gael eu cynllunio'n ddigon ofalus. |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **191** | **-** | |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai sylwadau fod yn berthnasol i fwy nag un thema.

## Atodiad J – Er mwyn lleihau'r anghyfleustra i'r traffig sy'n troi i'r dde i Goedlan Wordsworth, a fyddai newidiadau i Oxford Lane yn fuddiol, fel ei gwneud yn ddwyffordd? Ydych yn cefnogi'r newidiadau a gynigir? Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam:

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Yn erbyn y cynigion yn gyffredinol / Mae'n iawn fel y mae | 18 | 23.1 | – Diangen.<br>– Mae'n iawn fel y mae.<br>– Ni fydd yn gwneud unrhyw wahaniaeth. |
| Gwastraff arian / Dylid gwario arian yn rhywle arall. | 12 | 15.4 | – Mae'n wastraff arian. Gwariwch e ar les cymdeithasol.<br>– Gwariwch yr arian ar rywbeth sydd ei angen arnom, nid i hyrwyddo eich agenda dim ceir. |
| Bydd y cynnig yn creu mwy o dagfeydd. | 11 | 14.1 | – Bydd yn ychwanegu at y problemau traffig sydd eisoes yn sylweddol iawn.<br>– Mwy o dagfeydd. |
| Pryderon ynghylch seilwaith presennol y ffyrdd | 9 | 11.5 | – Stryd gul – poeni na allai gefnogi traffig sy'n cael ei ddargyfeirio drwyddi.<br>– Ni fyddai lled y ffordd yn cefnogi traffig dwyffordd. |
| Cynigion yn symud problemau i ardal arall | 9 | 11.5 | – Bydd yn symud y broblem i ardaloedd eraill.<br>– Bydd yn achosi problemau mewn ardaloedd eraill. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pryderon ynghylch effeithiau ar drigolion lleol | 9 | 11.5 | – Unwaith eto, byddai hyn yn gwneud mynediad i breswylwyr Coedlan Wordsworth yn anodd iawn, gan eu gorfodi i yrru a throi i'r dde i Heol y Plwca – wrth gyffordd lle bydd gwaith adeiladu sylweddol ar ôl dymchwel Longcross House i adeiladu adeilad uchel arall yn ei le – a bydd hefyd yn cynyddu'r perygl i breswylwyr ar Oxford Lane. Mae’r preswylfeydd yma’n cynnwys cyfleusterau byw â chymorth, felly mae’n ymddangos y bydd hyn yn ei gwneud yn beryglus iawn iddyn nhw.<br>– Byddai'n ei throi’n llwybr llygod i draffig yn anffodus. |
| Sylwadau am fod yn erbyn ceir | 6 | 7.7 | – Gyrwyr yw’r rhan fwyaf o’r bobl sy’n defnyddio’r ffordd hon. Gwahaniaethu yw hyn. |
| Awgrymiadau | 3 | 3.8 | – A allech chi roi cylchfan wrth gyffordd Coedlan Wordsworth a Heol Casnewydd? Mae’n rhaid i draffig o Orbit Street a'r ardal gyfagos sydd am droi tuag at Gasnewydd droi i mewn i Goedlan Wordsworth nawr. |
| Pryderon diogelwch | 3 | 3.8 | – Fe fydd yn arwain at fwy o ddamweiniau a chythraul gyrru. Hollol ddiangen. |
| Effeithiau economaidd | 2 | 2.6 | – Fe fydd yn troi'r ardal yn faes parcio gan atal twristiaeth ac yn arwain at broblemau cyflogaeth oherwydd dulliau trafnidiaeth gwael. |
| Amrywiol | 12 | 15.4 | – Stopiwch geisio darparu pob opsiwn i geir. Cerddwyr a mannau cyhoeddus gwych ddylai gael y flaenoriaeth.<br>– Dylid gwahardd beicio, neu dylid erlyn beicwyr am droseddau. |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **78** | **-** | |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai sylwadau fod yn berthnasol i fwy nag un thema.

## Atodiad K – A fyddai'r newidiadau ar gyffordd Piercefield Place yn fuddiol i chi? Os nad ydych yn cefnogi'r newid, dywedwch pam:

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Bydd y cynnig yn creu mwy o dagfeydd / Pryderon ynghylch y sefyllfa bresennol | 28 | 17.3 | – Bydd yn ychwanegu at y problemau traffig sydd eisoes yn sylweddol iawn.<br>– Bydd tagfeydd yn cynyddu gan wrthweithio'r buddion awgrymedig.<br>– Rydych chi'n creu mwy o draffig a thagfeydd. |
| Gwrthwynebu triniaeth fwy ffafriol i feicwyr. | 19 | 11.7 | – Os yw'n cael ei rhwystro dylid ei rhwystro i bawb.<br>– Pam ydych chi'n trin beicwyr fel brenhinoedd? Maen nhw'n gorfforol abl. Triwch fynd yn hŷn a bod mewn poen a bod angen car.<br>– Ni ddylai beiciau gael y flaenoriaeth. |
| Yn erbyn y cynigion yn gyffredinol / Mae'n iawn fel y mae | 19 | 11.7 | – Does dim rheswm pam y dylid rhwystro'r ffordd hon. Ychydig iawn o draffig sy'n defnyddio'r gyffordd, felly dyw rhwystro'r ffordd ddim yn fuddiol i neb.<br>– Mae Caerdydd yn iawn fel y mae. Stopiwch wneud newidiadau di-bwynt.<br>– Stopiwch wneud llanast o'r ffyrdd. |
| Gwastraff arian / Dylid gwario arian yn rhywle arall. | 15 | 9.3 | – Gwastraff arian. Gwariwch e ar les cymdeithasol.<br>– Mae yna ffyrdd a phalmentydd sydd angen eu hatgyweirio neu eu hadnewyddu ar frys. Gwariwch yr arian yno. |
| Sylwadau am fod yn erbyn ceir | 15 | 9.3 | – Gwahaniaethu yn erbyn defnyddwyr ceir.<br>– Mae'n bryd rhoi'r gorau i gosbi gyrwyr. Mae angen i Gaerdydd fod yn haws i'r mwyafrif deithio o gwmpas, nid y lleiafrif. |
| Dim digon o feicwyr / Lonydd beicio ddim yn cael eu defnyddio digon i gyfiawnhau newidiadau | 14 | 8.6 | – Nid yw'r nifer o feicwyr ar y ffyrdd yng Nghaerdydd yn cyfiawnhau hynny.<br>– Nid oes ei angen ar gyfer nifer y beicwyr sy'n defnyddio'r llwybr hwn. |
| Pryderon diogelwch / Sylwadau negyddol am feicwyr | 14 | 8.6 | – Gormod o feicwyr yng nghanol Caerdydd ac maen nhw'n fy nychryn i. Maen nhw i'w gweld yn fygythiad go iawn i fy niogelwch.<br>– Mae beicwyr yn berygl. Gwael i gerddwyr. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Pryderon ynghylch effeithiau ar drigolion lleol | 11 | 6.8 | – Mae'n stryd gyhoeddus ac mae pobl yn byw yno felly dylent allu cael mynediad i'w cartrefi o unrhyw gyfeiriad.<br>– Anhrefn traffig i breswylwyr sy'n troi i fynd i mewn ac allan o Piercefield Place. |
| Pryderon am fynediad | 10 | 6.2 | – Mae Piercefield Place yn bwynt mynediad pwysig iawn o Heol Casnewydd.<br>– Gyda Stryd Clifton eisoes yn unffordd, mae hwn yn syniad gwael gan ei fod yn rhwystro mynediad i Heol Casnewydd o'r Sblot. |
| Cynigion yn symud problemau i ardal arall | 9 | 5.6 | – Bydd cyfyngu ar fynediad i ardaloedd yn arwain at chwilio am lwybrau amgen gan greu problemau mewn mannau eraill.<br>– Achosi mwy o draffig ar strydoedd eraill. |
| Effeithiau economaidd | 5 | 3.1 | – Rydych chi'n cymryd bywoliaeth pobl i ffwrdd trwy dagu busnesau. Cyn bo hir bydd eich syniadau gwallgof yn dinistrio'r ddinas. |
| Cynyddu llygredd | 3 | 1.9 | – Mae rhwystro llwybrau i draffig yn arwain at deithiau'n hirach, yn cynyddu allyriadau, ac yn gwaethygu ansawdd aer. |
| Pryderon ynghylch seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus presennol | 2 | 1.2 | – Bydd pobl sy'n dibynnu ar geir oherwydd trafnidiaeth gyhoeddus annigonol neu broblemau symudedd yn profi anghyfleustra. |
| Amrywiol | 19 | 11.7 | – Dim ond i yrwyr Uber y bydd hyn yn fuddiol, yn llythrennol.<br>– Dydw i ddim yn beicio. Dim budd i mi. |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **162** | **-** | |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai sylwadau fod yn berthnasol i fwy nag un thema.

## Atodiad L – Rhowch unrhyw sylwadau pellach sydd gennych am y prosiect arfaethedig yn y blwch sylwadau isod:

| Thema | Nifer | % | Sylwadau Enghreifftiol |
|---|---|---|---|
| Gwrthwynebiad cyffredinol i gynigion penodol | 48 | 21.4 | – Ychydig o broblemau sydd yn Piercefield Place ar hyn o bryd – dydw i ddim yn gweld unrhyw fudd o newid y trefniadau presennol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | – Rwy'n gwrthwynebu cau'r danffordd ger Neuadd y Ddinas, 100%. Rwy hefyd yn gwrthwynebu cau Piercefield Place i geir.<br>– Mae llenwi isffordd Ffordd y Brenin yn wallgof ac yn weithredol yn ei gwneud hi'n anoddach i gerddwyr groesi, ar yr un pryd â chostio ffortiwn! |
| Gwastraff arian / Dylid gwario arian yn rhywle arall. | 47 | 21.0 | – Mae'r prosiect cyfan yn wastraff arian trethdalwyr.<br>– Gyda chyflwr Caerdydd, ai dyma wir y defnydd gorau o'n trethi?<br>– Gwastraff arian. Gwariwch e ar les cymdeithasol. |
| Yn hapus gyda chynigion penodol yn yr ymgynghoriad yn gyffredinol | 35 | 15.6 | – Bydd y newidiadau hyn yn gwella'r profiad beicio ar hyd y llwybr ac yn ei wneud yn fwy diogel. Byddwn i a fy mhartner yn fwy tebygol o feicio'n fwy rheolaidd o ganlyniad.<br>– Rydw i wedi gweld traffig yn aml yn troi i'r dde allan o Piercefield Place ac yn gyrru ar ochr anghywir y ffordd i droi i mewn i Heol y Pedair Llwyfen. Gobeithio y bydd rhwystro'r ffordd hon i draffig trwodd yn atal hyn.<br>– Mae symud y lôn feicio ddwyffordd sy'n croesi Heol Knox yn syniad da. |
| Bydd y cynnig yn creu mwy o dagfeydd / Pryderon ynghylch y sefyllfa bresennol | 32 | 14.3 | – Fy unig bryderon ynglŷn â newid Piercefield Place fyddai gwneud mynediad i Adamsdown a'r Sblot yn anoddach mewn car a gwthio mwy o draffig i Beresford Road.<br>– Bydd yn achosi problemau mewn ardaloedd eraill. |
| Pryderon diogelwch | 30 | 13.4 | – Rwy'n pryderu y dylid osgoi rhoi traffig ychwanegol ger tafarn y Four Elms.<br>– Gormod o feicwyr yng nghanol y ddinas, llawer ohonynt yn gwisgo mwgwd ac yn amlwg yn ceisio osgoi teledu cylch cyfyng. Rydw i wir yn ofni'r beicwyr hyn a dydw i ddim yn teimlo mor ddiogel yng nghanol y ddinas ag yr oeddwn i ar un adeg. |
| Awgrymiadau ar gyfer y cynllun a'r llwybrau | 28 | 12.5 | – Adeiladwch lôn arbennig ar gyfer bysus, tacsis, cerbydau brys a beicwyr os ydych chi'n dal i ystyried gwneud y newidiadau hyn.<br>– Er mwyn i groesfan Gerddi Howard fod yn fuddiol, byddai angen iddi gael ei hategu gan lwybr pwrpasol i'r de o'r fan honno i leoedd eraill ymhellach i'r de fel Moria Place, Heol Windsor a Ffordd y Sgwner, ac i'r gogledd tuag at Cathays. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwella trafnidiaeth gyhoeddus | 27 | 12.1 | – Stopiwch dynnu lle i geir nes bod trafnidiaeth gyhoeddus yn rheolaidd, yn ddibynadwy, ac yn rhedeg ar ddydd Sul!<br>– Heb wella trafnidiaeth gyhoeddus yn sylweddol, bydd y syniad hwn dim ond yn cynyddu tagfeydd – mae'n ymddangos fel cost uchel am welliant bach iawn. |
| Sylwadau am fod yn erbyn ceir | 24 | 10.7 | – Rydych chi bob amser yn gwahaniaethu yn erbyn gyrwyr. Mae'n ableddol. Roedd arfer bod yn bleser gyrru i mewn i Gaerdydd, nes i chi gymryd lonydd oddi wrth geir a'u rhoi i feicwyr ifanc heini. Fe welwch chi cyn hir pan fyddwch chi'n hŷn faint o hunllef rydych chi wedi'i chreu i yrwyr hŷn sy'n sâl ac yn eiddil. Rhag eich cywilydd chi.<br>– Rhy wrth-geir. Rydych chi'n ei gwneud hi'n amhosibl teithio o gwmpas Caerdydd. |
| Ymddygiad beicwyr / Rheoleiddio beicwyr | 24 | 10.7 | – Mae angen rheoleiddio beicwyr yn fwy yn hytrach na chreu mwy o lonydd beicio.<br>– Rwy'n poeni y bydd hyn yn rhwystro'r gwasanaethau brys. Gyda'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n reidio beiciau trydan ac yn torri'r gyfraith, bydd hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'r heddlu ymateb ac yn rhoi llwybrau dianc parod iddynt. |
| Sylwadau negyddol ynglŷn â'r Cyngor | 23 | 10.3 | – Mae diffyg synnwyr cyffredin amlwg yn y cyngor, ac ni fyddant yn gwrando beth bynnag.<br>– Rwy'n rhoi'r gorau iddi i fod yn onest. Dim syndod nad yw pobl eisiau ymweld â Chaerdydd, rydych chi wedi'i difetha. |
| Defnydd lonydd beicio | 22 | 9.8 | – Dyw beicwyr ddim hyd yn oed yn defnyddio'r llwybrau beicio sydd yno'n barod. |
| Seilwaith beicio | 19 | 8.5 | – Cysylltwch fwy o lwybrau beicio â chanol y ddinas. Rwy'n feiciwr profiadol ond dim ond yn teimlo'n gyfforddus yn dilyn llwybr Taith Taf i ganol y ddinas. |
| Cerddwyr | 17 | 7.6 | – Ar hyn o bryd mae'n ofnadwy cerdded neu feicio. Ceir sydd â'r flaenoriaeth yn llwyr, dyna pam rwy'n gyrru. |
| Pryderon ynghylch seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus presennol / Prisiau | 15 | 6.7 | – Mae yna symudiad enfawr tuag at drafnidiaeth gyhoeddus a beicio, sy'n dieithrio nifer fawr o drigolion. Ar ôl i Fws Caerdydd drefnu eu rhwydwaith ac i'r gorsafoedd trên arfaethedig gael eu hadeiladu ar ochr ddwyreiniol y ddinas, yna dylid hyrwyddo'r dull hwn o drafnidiaeth. Nid cyn hynny. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Effeithiau economaidd | 15 | 6.7 | – Rydw i wedi'i ddweud uchod. Mae Caerdydd yn hunllefus i unrhyw un sydd â char. Bydd hyn yn troi hyd yn oed mwy o bobl yn erbyn ymweld â'r ddinas. |
| Angen rhagor o wybodaeth | 11 | 4.9 | – Hoffwn dynnu sylw at un manylyn pwysig iawn sydd ar goll o'r pecyn gwybodaeth – y gost! Fel talwr treth gyngor, hoffwn wybod hyn. |
| Safleoedd bws | 7 | 3.1 | – Plîs, plîs, dim safleoedd bws sy'n rhannu arwyneb. Maen nhw'n berygl. Maen nhw'n gymharol oddefadwy os nad oes lloches barhaol wedi'i hadeiladu, ond pan fydd gennych rywbeth tebyg i'r hyn a ddangosir yn y pecyn gwybodaeth (sydd o Heol Allensbank, rwy'n credu?) mae'n ofnadwy oherwydd, hyd yn oed os nad oes neb yn aros am fws, mae angen i mi arafu a mynd i mewn i'r ardal i gerddwyr i barhau ar hyd y llwybr. Wrth feicio ar Heol Allensbank, weithiau rwy'n reidio gyda'r traffig er mwyn osgoi gorfod llywio sawl lloches bws yng nghanol y llwybr beicio. |
| Cynyddu llygredd | 6 | 2.7 | – Unwaith eto, gwastraff arian enfawr yw hwn. Culhau ffyrdd, gwasgu traffig i lonydd cul, gan achosi mwy o dagfeydd. Tagfeydd hirach, treulio mwy o amser yn y car, a mwy o lygredd. |
| Arwyddion | 6 | 2.7 | – Efallai arwydd sy'n nodi bod y lôn feicio yn ddwyffordd a bod gan feicwyr flaenoriaeth wrth gyffyrdd fel Plas Fitzalan. |
| Hygyrchedd | 5 | 2.2 | – Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i gosbi gyrwyr ceir er bod cerbydau trydan yn garbon niwtral ac nad oes gan lawer o bobl opsiynau trafnidiaeth gyhoeddus addas. Bydd y fframwaith sy'n cael ei adeiladu yn cymryd blynyddoedd ac nid yw'n hygyrch o hyd i lawer ledled y ddinas sy'n dibynnu ar geir. |
| Pryderon ynghylch y rhwydwaith / seilwaith ffyrdd presennol | 3 | 1.3 | – Rydyn ni'n byw mewn dinas lle mae'n bwrw glaw y rhan fwyaf o'r amser. Rydyn ni'n gweithio yn y ddinas, yn cario ein cinio, ein gliniadur ac yn gorfod gwisgo'n smart. Allwn ni ddim a dydyn ni ddim eisiau beicio i'r gwaith. Dyw newid y ddinas i ddarparu ar gyfer beicwyr ddim yn gwneud synnwyr. Mae angen gwella'r ffyrdd i hyrwyddo sefyllfa llif rhydd er mwyn cynnig mwy o lwybrau amgen i geir i atal tagfeydd ar draws y ddinas. Dyw pobl ddim eisiau ymweld â'r ddinas mwyach oherwydd pa mor wael yw'r ffyrdd. Plîs, ein dinas ni yw hon, a gallai fod yn wych ond rydyn ni'n canolbwyntio ar y peth anghywir. Gallaf bron â gwarantu bod y person sy'n darllen fy sylwadau wedi gyrru i'r gwaith. |
| Parcio a Theithio | 3 | 1.3 | – Oni bai eich bod chi'n adfer gwasanaethau parcio a theithio ac yn gwneud bysus yn fwy fforddiadwy, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | byddaf yn sownd yn fy nghar a bydd y cynlluniau hyn yn cynyddu tagfeydd ar adegau prysur gyda'r holl lonydd sengl. Beth am ganiatáu i gerbydau sydd â mwy nag un person ynddynt ddefnyddio lonydd bysus i leihau nifer y teithiau un person? Dydw i ddim yn gweld sut y bydd gwasgu ceir i un lôn yn cael pobl allan o geir pan fo trafnidiaeth gyhoeddus mor ddrud. |
| 20mya | 2 | 0.9 | – Dyw Caerdydd ddim angen mwy o lonydd beicio, lonydd bysus, cyffyrdd 'dim troi i'r dde', na chorneli hirgul chwerthinllyd sy'n gwneud troi'r gornel yn anodd i geir a bysus. Yr hyn sydd ei angen ar Gaerdydd yw newid y ffyrdd yn ôl i 30mya ac eithrio lle mae'n gwbl angenrheidiol. |
| Amrywiol | 30 | 13.4 | – Beth bynnag a wnewch chi yn y pen draw, gwnewch hi'n gyflym, gwnewch hi unwaith, gwnewch hi'n dda, a gadewch i ni fwrw ymlaen!<br>– Mae ein tywydd yn atal beicio.<br>– Rwy'n defnyddio'r gyffordd hon i fynd i'r Ysbyty Brenhinol. |
| **Cyfanswm yr Ymatebwyr** | **224** | **-** | |

D.S. Mae cyfanswm y canrannau yn fwy na 100% gan y gallai sylwadau fod yn berthnasol i fwy nag un thema.

## Atodiad M – Negeseuon e-bost a dderbyniwyd yn ystod yr ymgysylltiad:

**Oddi wrth:** Berman, Rodney (Cynghorydd)

**Pwnc:** Parthed: Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd - Gwybodaeth am y Llwybr Ehangach

Wrth edrych ar y cynllun aneglur eto (a'u gwirio yn erbyn Google Maps), mae'n ymddangos ei fod yn awgrymu ymestyn y parth parcio hyd at Sandringham Road a chynnwys y ffyrdd rhwng Sandringham Road a Heol Marlborough hefyd.

**Rodney Berman**

Cynghorydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru dros Ben-y-lan

Welsh Liberal Democrat Councillor for Penylan

---

**Oddi wrth:** Berman, Rodney (Cynghorydd) <Rodney.Berman@caerdydd.gov.uk>

**Pwnc:** Parthed: Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd - Gwybodaeth am y Llwybr Ehangach

Annwyl xxx,

A allwch chi roi gwybod beth yw statws y cynigion ar gyfer y parthau parcio sydd wedi'u cynnwys yn hwn?

Mae'n awgrymu eich bod yn cynnig parth parcio sy'n ymestyn o Blasnewydd i Ben-y-lan gan gynnwys Heol Albany, Heol Marlborough a'r strydoedd rhyngddynt er gwaethaf datganiadau clir yn flaenorol nad oedd gennych unrhyw gynlluniau ar gyfer parth parcio ym Mhen-y-lan.

Pam mae hyn wedi'i gladdu yn y ddogfen hon yn hytrach na chael ei nodi'n briodol i ni fel cynghorwyr lleol?

Beth yw'r cynllun ar gyfer ystyried bwrw ymlaen â hyn?

Beth yw eich asesiad bod hyn yn angenrheidiol? Mae’r holl negeseuon rydw i wedi'u derbyn gan breswylwyr y strydoedd hyn yn nodi na fyddent eisiau hyn, ac nad ydynt yn gweld yr angen amdano.

A oes unrhyw gynlluniau i ymgysylltu â chynghorwyr y ward yn benodol ar hyn?

Beth fyddai'r bwriad, pe baech yn penderfynu eich bod chi eisiau bwrw ymlaen â'r cynlluniau hyn, o ran ymgysylltu â'r cyhoedd?

Rwy’n copïo’r Prif Weithredwr yn y neges oherwydd fy mhryderon parhaus bod y gwasanaeth yn aml yn methu ag ymgysylltu ar gynigion polisi trafnidiaeth allweddol yn ein

ward. Mae claddu cynigion o'r fath mewn dogfen am ymestyn lôn feicio yn ymddangos fel enghraifft arall o hyn.

Edrychaf ymlaen at glywed yn ôl gennych.

**Rodney Berman**

**Ymgynghoriad ar Gam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas**

**Ymateb gan Dinas Feicio Caerdydd**

Sefydlwyd Dinas Feicio Caerdydd ym mis Ionawr 2014. Rydym yn dod â gwahanol unigolion a grwpiau at ei gilydd mewn un weledigaeth gyffredin: gwneud Caerdydd y ddinas feicio orau yn y DU. Ein nod yw gweithio'n adeiladol gyda Chyngor Caerdydd ac asiantaethau eraill er mwyn cyflawni hyn. Mae gennym dros 100 o aelodau, 1000 o gefnogwyr ar ein rhestr bostio a chynulleidfa fawr ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Ymatebodd Dinas Feicio Caerdydd yn flaenorol i'r ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol ar y cynllun hwn, ac rydym yn ddiolchgar bod nifer o'r newidiadau a awgrymwyd gennym wedi'u cynnwys yn y fersiwn ddiweddaraf o'r cynllun.

Mae Dinas Feicio Caerdydd yn cefnogi cynllun y cyngor ar gyfer Beicffordd 4.1. Fodd bynnag, rydym yn cynnig nifer o newidiadau manwl a phwysig yr ydym yn credu sy'n hanfodol ar gyfer defnyddioldeb a diogelwch y llwybr. Er mwyn egluro pam ein bod yn credu bod y newidiadau hynny mor bwysig, hoffem hefyd rannu ein barn ar nifer o egwyddorion pwysig sy'n ymwneud â datblygu'r Beicffyrdd.

Tudalen 6. Y fynedfa fwyaf cyfleus i feicwyr i'r ardal siopa yng nghanol y ddinas fydd trwy Blas Windsor. Fel rhywle sy'n denu ymwelwyr, mae'n rhan bwysig o'r coridor hwn. Fodd bynnag, mae cynllun presennol Plas Windsor yn eithaf peryglus. Mae beicwyr sy'n croesi o Gilgant Eglwys Andreas (ac efallai y bydd y gwelliant arfaethedig yno yn arwain at gynnydd yn y niferoedd) yn gadael yr ardal groesi ac yn beicio tuag at y traffig, heb unrhyw arwydd o ba ran o'r ffordd y dylent feicio arni. Oni allai'r cynllun ehangu ychydig i ymgorffori, o leiaf, llinellau ar yr arwyneb ac arwyddion i ddangos i feicwyr a gyrwyr sut y gall beicwyr ddod o hyd i lwybr diogel i'r lle parcio beiciau oddi ar Heol y Frenhines a chaffi'r Bike Lock – rhywle arall sy'n denu ymwelwyr?

Tudalen 8. Credwn mai ynysoedd safle bws yw'r unig ffordd i osgoi gwrthdaro rhwng beicwyr a defnyddwyr bysus, yn enwedig y rhai sydd ag amhariad ar eu golwg, oni bai bod y defnydd yn ysgafn iawn. Oni ellid darparu lle ar gyfer ynys safle bws ychydig cyn y gyffordd â Llwyn y Dwyrain drwy symud yr ardal lle mae'r ddwy lôn draffig yn uno ychydig fetrau?

Tudalen 10. Mae'r dull fesul cam yn sôn am adeiladu Cam 2 'yn ddiweddarach' ond ni roddwyd dyddiad ar gyfer Cam 1. Byddai'n ddefnyddiol iawn cael rhyw syniad o pryd y mae'r cyngor yn credu y bydd Cam 1 yn dechrau ac yn cael ei gwblhau.

Tudalen 11. Ni allwn weld unrhyw reswm pam na ddylai'r groesfan 'un-lefel' newydd fod yn ddefnydd a rennir.

Tudalen 13. Mae argymhellion Comisiwn Burns yn ymwneud yn bennaf â mynd i'r afael â thagfeydd yn hytrach nag iechyd. A fyddai modd newid y teitl i adlewyrchu'r budd ychwanegol hwn o ran teithio llesol.

**Ymgynghoriad ar Gam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas**

**Ymateb gan Ganolfan Siopa Dewi Sant - Dirprwy Gyfarwyddwr y Ganolfan**

Helo bawb,

Gobeithio eich bod chi'n cadw'n iawn.

Rwyf wedi darllen y Pecyn Ymgysylltu ar gyfer Cam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd ac mae gennyf rai cwestiynau yr wyf yn awyddus i'w codi gyda chi. Rwyf wedi dechrau cwblhau'r arolwg adborth ar y cynnig ar-lein, ond nid yw'n rhoi cyfle i mi godi'r pwyntiau isod.

Fel y gwyddoch, Dewi Sant yw'r ganolfan siopa fwyaf yng Nghymru, gyda dros 28M o ymwelwyr y llynedd. Mae gennym dros 160 o frandiau yn ein canolfan, a thua 40 ohonynt yw'r unig siop o'r brand hwnnw yng Nghymru. Am y rheswm hwnnw, ni yw'r brif gyrchfan siopa yn y ddinas a byddai Cam 1 yn effeithio ar ymwelwyr sy'n teithio o'r gogledd a'r dwyrain i'n canolfan siopa ac oddi yno. Fel y gwyddoch, rydym eisoes wedi cael problemau wrth i ymwelwyr adael meysydd parcio canolfan siopa Dewi Sant oherwydd tagfeydd yn y ddinas, ac rwy'n awyddus i ni wneud hyn yn gywir i'n hymwelwyr fel eu bod yn dychwelyd eto.

Cwestiynau:

- Gyda faint o newid fydd yn digwydd i'r rhwydwaith ffyrdd a'r tarfu yn ystod y gwaith, bydd cyfathrebu yn hollbwysig. Beth yw cynllun cyfathrebu'r cyngor a pha gefnogaeth fydd busnesau lleol yn ei derbyn i sicrhau bod mynediad i'n canolfan mor hawdd â phosibl heb oedi na dryswch?
- Bydd lleihau lle ar y ffordd fel arfer yn arafu traffig. Yr arwyddion yw y bydd goleuadau fesul cam yn negyddu'r arafu. A oes cyfraddau llif a niferoedd capasiti ar gyfer yr ardal, cyn ac ar ôl i'r gwaith arfaethedig gael ei gyflawni?
- Beth yw'r amseroedd teithio o amgylch y ddinas ar hyn o bryd a beth fydd effaith y newidiadau? Byddai hyn yn ddefnyddiol pe bai amseroedd bysus, er enghraifft, yn cyflymu 20%. Yna gallem gefnogi'r symudiad i fysus yn yr ardaloedd hyn gan y byddant yn cludo ymwelwyr atom yn llawer cyflymach. Byddai gyrwyr ceir wedyn yn cael eu cyfeirio at lwybrau ceir cyflymach.
- Mae llawer o seilwaith beicio yn cael ei gyflwyno. A oes unrhyw ddata i ddangos bod mwy o deithiau ar feic wedi digwydd yn dilyn newidiadau yn y gorffennol, yn

enwedig yn y gaeaf. Pa dystiolaeth sydd yna i ddangos y bydd pobl yn symud i feiciau? A yw pobl a busnesau Caerdydd eisiau'r newid hwn?

- Un o’r rhwystrau allweddol i feicio yw diffyg mannau diogel i storio beiciau yn y ddinas. Rwy'n ymwybodol bod cynllun newydd wedi'i gyflwyno sy'n darparu loceri, ac y bydd mwy o loceri beiciau yn cael eu cynnwys fel rhan o’r cynnig hwn. Ble fyddan nhw'n cael eu gosod a faint ohonyn nhw fydd? Beth yw cost defnyddio'r loceri?
- Mae isffyrdd yn cael eu llenwi ac mae croesfannau ar lefel y ddaear yn cael eu gosod; bydd hyn yn arafu symudiad cerddwyr wrth iddynt orfod aros am oleuadau. A fyddai hefyd yn golygu y byddai ceir yn arafach gan fod set arall o oleuadau?
- Mae ardal y parc ger y groesfan yn swnio'n dda – a fyddai modd creu coridor gwyrdd sy’n gorffen yn “sgwâr dinas” newydd Dewi Sant?
- Mae safleoedd bws yn troi’n ynysoedd ar hyd ochr y castell h.y. llwybr i gerddwyr - lôn feicio - safle bws - heol fawr. Mae cyrraedd y safle bws yn swnio braidd yn beryglus – yn enwedig os yw traffig beicio yn cynyddu. A oes unrhyw broblemau wedi bod ar ynysoedd bysus presennol, er enghraifft y tu allan i'r BBC?
- Beth yw'r terfynau cyflymder arfaethedig yn yr ardal hon, 20 neu 30mya?

Edrychaf ymlaen at glywed gennych. Diolch am rannu'r cynlluniau gyda ni.

Cofion gorau

**Ymgynghoriad ar Gam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas**

**Ymateb gan Monzo**

Helo,

Gobeithio eich bod chi’n cadw’n iawn.

Rwy'n adolygu'r pecyn ymgysylltu nawr, ac yn meddwl tybed pa agweddau ar y ffordd y bydd "dim traffig cerbydau trwy Ffordd y Brenin" yn effeithio arnynt. A allwch chi gadarnhau ble bydd y newid hwn yn digwydd?

A fyddwch chi'n dal i allu gyrru i lawr Heol y Gogledd a heibio'r castell?

Diolch

**Ymgynghoriad ar Gam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas**

**Ymateb gan Le Gros Solicitors**

Prynhawn da

Roedd yr atodiad wedi'i osod ar y polyn lamp y tu allan i'n swyddfa ac rydym wedi mynd i'r wefan a nodwyd (Ymgynghoriadau) ond ni allwn weld yr un hwn yno, felly a allwch chi anfon y pecyn ymgysylltu ataf drwy e-bost?

Mae ein swyddfa ar Blas Windsor a hoffem wybod sut y byddai'n effeithio arnom ni.

Cofion gorau

**Ymgynghoriad ar Gam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas**

**Ymateb gan breswylydd lleol**

Bore da

Sylwais hefyd fod y dyluniad cysyniadol ar gyfer Heol y Gogledd, Boulevard de Nantes, Ffordd y Brenin yn dangos mynediad newydd i draffig i Heol y Brodyr Llwydion ar gyfer busnesau/maes parcio ond nid yw'n cynnwys preswylwyr.

Cofion

**Ymgynghoriad ar Gam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas**

**Ymateb gan breswylydd lleol**

Rwyf eisoes wedi cwblhau'r holiadur ymgynghori ond mae un sylw arall yr hoffwn ei ychwanegu.

Mae Pont Caerdydd ar gau sawl gwaith y flwyddyn oherwydd digwyddiadau yn Stadiwm y Mileniwm (a chyn hynny ym Mharc yr Arfau) ac am resymau eraill (e.e. cau Stryd y Castell yn ystod pandemig Covid).

Yn ystod y bron i ddeugain mlynedd rydw i wedi byw yng Nghaerdydd, dydw i erioed wedi gweld unrhyw arwyddion gwyriad (yn rhybuddio am gau'r ffordd) ar Heol Casnewydd wrth agosáu at y gyffordd â Heol Glossop, a fyddai'n lle amlwg i ddargyfeirio i'r de o ganol y ddinas. Rhaid bod gan y Cyngor, fel yr awdurdod priffyrdd, ddyletswydd statudol i osod arwyddion gwyro priodol pryd bynnag y bydd yn cau priffordd, yn enwedig un mor bwysig â'r A416.

Efallai bod yna gyffyrdd eraill lle dylid codi arwyddion gwyro, megis:

Heol y Gogledd a Boulevard de Nantes

Plas y Parc a Stuttgarter Strasse

Llwyn y Gorllewin a Heol Casnewydd

Heol y Plwca a Heol Casnewydd

Heol y Gadeirlan a Heol y Bont-faen

Heol Parc Ninian a Stryd Clare

Yna mae angen arwyddion clir, i'r ddau gyfeiriad, i ddangos llwybr y gwyriad o amgylch de canol y ddinas.

O ystyried pa mor aml y mae ffyrdd yng nghanol y ddinas ar gau, efallai y gallai arwyddfyrddau trydan parhaol, a reolir o bell, fod yn ateb priodol a chost-effeithiol.

Mae'r Cyngor yn dweud wrthym pa mor bwysig yw digwyddiadau yn Stadiwm y Mileniwm i economi Caerdydd. Os yw hynny'n wir, yna ni ddylai cost fod yn esgus i'r Cyngor osgoi ei gyfrifoldebau.

HM

**Ymgynghoriad ar Gam 1 Coridor Trafnidiaeth Gynaliadwy Caerdydd i Gasnewydd – Ardal Canol y Ddinas - BIP Caerdydd a'r Fro**

Helo XXX, diolch am hwn. Rydw i newydd gyflwyno ymateb byr i'r newidiadau ar ran BIP Caerdydd a'r Fro gan ddefnyddio'r ffurflen safonol. Nid oedd cyfle ar y ffurflen ond roeddwn i eisiau dweud, o safbwynt y Bwrdd Iechyd, ein bod yn parhau i gefnogi'r symudiad i gynyddu argaeledd llwybrau cerdded a beicio diogel ledled y ddinas, gan gynnwys cynlluniau fel hyn, oherwydd y manteision cysylltiedig i iechyd corfforol a meddyliol, ansawdd aer, a lleihau allyriadau carbon

Diolch yn fawr,

BW

TP

# Atodiad B


CARDIFF
/ CAERDYDD
A
B
Dock Feeder
GREYFRIARS ROAD / HEOL Y BRODYR LLWYDION
Statue


B
C
ST ANDREW'S CRESCENT
CRESCENT
LON Y PARC / PARK LANE
WINDSOR PLACE / PLAS WINSOR
WINDSOR LANE
Dock Feeder
PARK PLAC


D
C
ng Bollards


TCB
E
D
ESS